# Memorandwm Esboniadol i Fesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 23.18.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010, a gyflwynwyd gennyf i ar 22 Chwefror 2010, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Y Gweinidog â gofal am y Mesur Arfaethedig

## Tudalen Cynnwys

**Rhif Tudalen**


**RHAN 1**

1. Disgrifiad 3
2. Y Cefndir Deddfwriaethol 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael 8
4. Ymgynghori 24
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 28
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol 34

**RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH**

7. Opsiynau 34
8. Costau a buddion 38
9. Asesu Cystadleuaeth 88
10. Adolygu ar ôl gweithredu 89

**ATODIAD 1 - Nodiadau Esboniadol** 90

# 1. Disgrifiad

1.1 Mae Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth i leihau maint y gwastraff a sbwriel yng Nghymru ac yn cyfrannu at ddatblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Rhoddir crynodeb isod o'r cynigion sydd ym mhob Rhan o'r Mesur arfaethedig.

1.2 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn defnyddio’r derbyniadau net a gânt drwy werthu bagiau siopa untro at ddibenion amgylcheddol penodol, neu ar gyfer sefydliadau amgylcheddol. Ni ddefnyddir y pŵer sydd yn y Mesur arfaethedig oni bai bod y trefniadau gwirfoddol gyda manwerthwyr ynghylch y modd y defnyddiant y derbyniadau o fagiau siopa untro yn anfoddhaol. Bydd y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig yn cydategu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y defnydd o fagiau siopa untro.

1.3 Mae’r Mesur arfaethedig yn gosod targedau statudol i awdurdodau lleol ar gyfer canran y deunydd gwastraff trefol sydd i'w ailgylchu, ei baratoi i’w ailddefnyddio a'i gompostio, yn ogystal â gwneud awdurdodau lleol yn atebol i dalu cosbau os ydynt yn methu â chyrraedd y targedau hynny. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu targedau eraill mewn perthynas ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff; a rhoi cosbau am beidio â chydymffurfio â thargedau o'r fath.

1.4 Mae’r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wahardd neu gyfyngu ar waredu rhai mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi.

1.5 Mae’r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle ar gyfer gwaith adeiladu a dymchwel yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd a chodi tâl mewn perthynas â'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

1.6 Yn olaf, mae’r Mesur arfaethedig yn gwneud peth darpariaeth gyffredinol.

## 2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae'r pŵer i wneud y Mesur hwn wedi'i gynnwys yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2006 (p.32) ac mae cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yn y meysydd hyn wedi'i nodi ym Mater 6.1, 6.3 a 6.4 ym Maes 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ychwanegwyd Materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 at Atodlen 5 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010. (Nid Mater 6.2 yw sail y cymhwysedd ar gyfer y Mesur penodol hwn).

2.2 Mae'r Gorchymyn yn darparu'r cymhwysedd canlynol, i'w drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

*“ Mater 6.1*

*Atal gwastraff, ei leihau, ei gasglu, ei reoli, ei drin neu ei waredu.*

*Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—*

- *(a) rheoleiddio unrhyw weithgaredd yn y môr;*
- *(b) rheoleiddio darparu gwasanaethau post gan berson sy’n dal trwydded, neu y mae’n ofynnol iddo ddal trwydded, gan y Comisiwn Gwasanaethau Post yn awdurdodi’r person hwnnw i gludo llythyrau o un man i fan arall (p’un ai a yw’r drwydded yn ymwneud â’r gwasanaethau ai peidio).*

*Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.*

*Mater 6.2*

*Gwaredu gwastraff yn y môr pan fo'r gwastraff wedi ei gasglu, ei reoli neu ei drin ar y tir.*

*Nid yw'r mater hwn yn cynnwys rheoleiddio'r gweithgareddau a ganlyn—*

- *(a) gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio;*
- *(b) gollwng unrhyw sylwedd neu eitem ffrwydrol yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano;*
- *(c) hylosgi unrhyw sylwedd neu beth ar unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy’n arnofio.*

*Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.*

*Mater 6.3*

*Diogelu neu wella'r amgylchedd o ran llygredd*

*Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—*

*(a) rheoleiddio cyfansoddiad a chynnwys tanwydd a ddefnyddir yn unrhyw un o'r canlynol—*

*(i) cyfrwng trafnidiaeth,*

*(ii) peiriant symudol nad yw ar gyfer y ffordd, neu*

*(iii) tractor amaethyddol neu goedwigol;*

*(b) rhwymedigaethau ar bersonau sy'n cyflenwi tanwydd trafnidiaeth mewn mannau, neu i'w ddanfon i fannau, yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos iddynt gyflenwi tanwydd trafnidiaeth adnewyddadwy;*

*(c) gwneud darpariaeth ynghylch y gyfradd o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir mewn trafnidiaeth, gan gynnwys gosod gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd sy'n pennu a yw unrhyw ynni adnewyddadwy penodol i gael ei gyfrif tuag at unrhyw rwymedigaeth neu darged ynni adnewyddadwy;*

*(d) darparu cymorth ariannol mewn cysylltiad â'r canlynol—*

*(i) cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio mewn trafnidiaeth, neu*

*(ii) defnyddio'r ynni hwnnw mewn trafnidiaeth,*

*gan gynnwys gosod gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd sy'n pennu a yw unrhyw ynni adnewyddadwy penodol yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol;*

*(e) rheoleiddio chwilio am olew a nwy yn y rhannau hynny o'r môr tiriogaethol nad ydynt yn ddyfroedd tiriogaethol perthnasol a'u tynnu oddi yno.*

*Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.*

*Mater 6.4*

*Diogelu neu wella'r amgylchedd o ran niwsansau.*

*Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—*

*(a) gosod atebolrwydd troseddol na sifil o ran niwsansau ynni sydd wedi eu llunio o weithredoedd, anweithiau ac amgylchiadau y mae ar eu cyfer awdurdod statudol, ac eithrio atebolrwydd troseddol neu sifil y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w osod;*

*(b) cael gwared ar amddiffyniadau perthnasol rhag rheolau cyfraith sy'n gosod atebolrwydd troseddol neu sifil o ran niwsansau ynni, neu eithriadau perthnasol o'r rheolau hynny, ac eithrio'r amddiffyniadau a'r eithriadau hynny y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i gael gwared arnynt;*

*(c) rheoleiddio allyrru mwg, golau artiffisial neu sŵn o fangreoedd milwrol;*

*(d) rheoleiddio gweithgareddau nwy, gweithgareddau olew, a'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni unrhyw weithgareddau o'r fath;*

*(e) rheoleiddio chwilio am olew a nwy yn y môr a'u tynnu oddi yno;*

*(f) rheoleiddio cyfathrebiadau electronig a rhwydweithiau cyfathrebu electronig.*

*Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.*

*Heb eu cynnwys ym materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4*

*Nid yw materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—*

(a) *rheoleiddio ynglŷn â rheoli peryglon damweiniau mawr y mae a wnelo hwy â sylweddau peryglus (mae'r eithriad hwn i'w ddehongli'n unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC([1]) a'r unig weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy yw rhai sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb honno);*

(b) *rheoleiddio datgomisiynu gosodiadau ynni alltraeth a'r seilwaith cysylltiedig.*

*Heb eu cynnwys ym materion 6.1 a 6.2*

*Nid yw materion 6.1 a 6.2 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—*

(a) *rheoleiddio ffrwydron a ddatgomisiynwyd ac sydd y tu allan i gwmpas y Gyfarwyddeb Wastraff yn rhinwedd Erthygl 2(1)(b)(v) o'r Gyfarwyddeb Wastraff ac sydd yn cael neu wedi bod yn cael—*

  (i) *eu dal ar ran y Goron at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion adran yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn, neu*

  (ii) *eu dal gan luoedd arfog sy'n ymweld neu at eu dibenion hwy;*

(b) *rheoleiddio deunydd ymbelydrol sydd mewn mangreoedd milwrol;*

(c) *rheoleiddio dal, cludo neu waredu carbon deuocsid fel rhan o ddal a storio carbon perthnasol.*

*Heb eu cynnwys ym materion 6.3 a 6.4*

*Nid yw materion 6.3 a 6.4 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—*

(a) *rheoleiddio'r defnydd amgaeedig o organebau a addaswyd yn enetig.*

(b) *rheoleiddio'r gweithgareddau a ganlyn yn y môr—*

  (i) *gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio, neu o unrhyw strwythur ar dir a adeiladwyd neu a addaswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o ollwng unrhyw solidau yn y môr.*

  (ii) *suddo unrhyw lestr neu gynhwysydd sy'n arnofio;*

  (iii) *adeiladu, altro neu wella gweithiau yn y môr neu uwch ei ben neu ar wely'r môr neu oddi tano;*

  (iv) *defnyddio unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio i symud ymaith unrhyw sylwedd neu beth oddi ar wely'r môr;*

  (v) *carthu;*

  (vi) *gollwng neu ddefnyddio unrhyw sylwedd neu eitem ffrwydrol yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano;*

  (vii) *hylosgi unrhyw sylwedd neu beth ar unrhyw gerbyd, llestr, strwythur morol neu gynhwysydd sy'n arnofio;*

---

([1]) O.J. Rhif L10, 14.1.1997, tt. 13-33. Estynnwyd cwmpas y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb 2003/105/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (O.J. Rhif L345, 31.12.2003, tt. 97-105). Bu diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

*(c) trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[2]*.*

---

([2]) 2009 c.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

**Cyflwyniad Cyffredinol**

3.1 Mae Strategaeth Wastraff ddiwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*[3], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar, yn nodi'r cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer gwahanol ddarpariaethau sydd ym Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010. Nod hirdymor y Strategaeth yw sicrhau bod Cymru yn wlad ddiwastraff erbyn 2050. Mae dull gweithredu diwastraff yn anelu i leihau gwastraff cymaint â phosibl drwy gadw atal gwastraff mewn cof wrth ddylunio cynnyrch a gwasanaethau. Rhaid i'r gwastraff nad oes modd ei osgoi gael ei ailddefnyddio neu ailgylchu o fewn systemau dolen gaeedig.

3.2 Mae nifer o ffactorau pwysig yn llywio'r polisi hwn, gan gynnwys y gofyniad i gyflawni rhwymedigaethau'r Comisiwn Ewropeaidd, a gofynion deddfwriaethol eraill. Mae'n hollbwysig cael dulliau gwell o reoli gwastraff er mwyn lleihau olion troed ecolegol a charbon Cymru yn unol â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad[4]. Nid yw anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn ddull cynaliadwy o reoli gwastraff. Mae angen inni newid i ddull gweithredu a fydd yn ein galluogi i fyw o fewn ein modd yn amgylcheddol ac yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio mwy ar ddefnyddio adnoddau materol yn effeithlon. Yn ogystal â'r buddion amgylcheddol, bydd newid ein ffordd o ddelio â gwastraff hefyd yn arwain at gyfleoedd sylweddol i arbed arian yn ogystal â chreu swyddi o ansawdd uchel yn y sector diwydiannau amgylcheddol, yn unol â Strategaeth Swyddi Gwyrdd Llywodraeth y Cynulliad[5].

3.3 Bydd darpariaethau'r Mesur arfaethedig hwn yn sefydlu ymyraethau polisi a fydd yn helpu Cymru i ddatblygu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff, a fydd yn gyson â'r hierarchaeth wastraff[6] – un o egwyddorion craidd deddfwriaeth amgylcheddol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae diben darpariaethau allweddol y Mesur Arfaethedig a'r effaith y bwriedir iddynt eu cael wedi'u nodi isod.

---

[3] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Ymgynghoriad ar Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.
[4] *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.
[5] *Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.
[6] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Ymgynghoriad ar Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009 tud. 18.

**Bagiau Siopa Untro**

3.4 Mae Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn diwygio Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn trosglwyddo’r enillion net a gânt drwy godi tâl am fagiau siopa untro at ddibenion penodedig neu i bersonau penodedig, y byddai'n ofynnol iddynt hwythau ddefnyddio enillion net y tâl at ddibenion penodedig.

3.5 Mae'r ddarpariaeth hon yn y Mesur yn rhan o bolisi ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r problemau gwastraff a sbwriel sy'n gysylltiedig â bagiau siopa untro. Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus yn 2006, amcangyfrifwyd bod oddeutu 490 miliwn o fagiau siopa plastig yn cael eu defnyddio yng Nghymru bob blwyddyn a bod y rheiny'n cymryd tua 500-1000 o flynyddoedd i bydru.[7] Mewn tystiolaeth fwy diweddar a ddarparwyd gan y 7 manwerthwr sydd wedi llofnodi'r cytundeb gwirfoddol presennol i leihau nifer y bagiau siopa a ddefnyddir[8], ymddengys, er gwaethaf y cytundeb gwirfoddol hwn, bod 27 miliwn o fagiau wedi'u cymryd ymaith gan ddefnyddwyr yng Nghymru ym mis Mai 2009 yn unig. Mae hyn yn cyfateb i 324 miliwn o fagiau bob blwyddyn. Mae'r bag siopa untro wedi dod yn symbol o'n cymdeithas wastraffus ni, er bod digonedd o fagiau eraill ar gael, y gellir eu hailddefnyddio. Mae angen adnoddau sylweddol ar gyfer bagiau siopa untro hefyd, ac mae hynny'n cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd. Yn ychwanegol, maent yn fath gweledol o sbwriel, yr amcangyfrifir eu bod yn achosi tua 2.7% o gyfanswm pwysau sbwriel [9] a 2.1% o gyfanswm y sbwriel ar draethau'r DU yn 2008.[10]

3.6 Er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu cyflwyno tâl am fagiau siopa untro, gan ddefnyddio pwerau sydd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mehefin a Medi 2009 ar gynigion i godi tâl am fagiau siopa untro yng Nghymru[11]. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ymgynghori ynghylch rheoliadau drafft yng ngwanwyn 2010 gyda'r nod o gyflwyno tâl gorfodol ar gyfer bagiau siopa untro erbyn gwanwyn 2011.

---

[7] *Papur Datgan Sbwriel Bagiau Plastig*, Cadwch Cymru’n Daclus, 2006 http://www.keepwalestidy.org.uk/policy_and_research?diablo.lang=cym

[8] *Carrier Bags – 50% agreement (2009), WRAP.* http://www.wrap.org.uk/retail/carrier_bags/carrier_bags_50.html

[9] *Papur Datgan Sbwriel Bagiau Plastig*, Cadwch Cymru’n Daclus, 2006 http://www.keepwalestidy.org.uk/policy_and_research?diablo.lang=cym

[10] *Arolwg Beachwatch y Gymdeithas Cadwraeth Forol,* y Gymdeithas Gadwraeth Forol 2008. http://www.mcsuk.org/what_we_do/Clean%20seas%20and%20beaches/Beachwatch/Beachwatch

[11] *Cynigion ar gyfer codi tâl am fagiau siopa untro,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. Mae'r ddogfen ymgynghori, a'r dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ar gael ar y ddolen gysylltiedig: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singleusecarrierbags/?skip=1&lang=cy&status=closed

3.7 Y bwriad, wrth godi tâl, yw mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol bagiau siopa untro. I sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad y cyhoedd i'r syniad o godi tâl, mae hefyd yn bwysig bod yn dryloyw ynghylch y defnydd a wneir o'r derbyniadau net a gesglir drwy'r tâl a dangos bod y derbyniadau'n mynd at ddibenion gwerth chweil.

3.8 Ar hyn o bryd, mae nifer o fanwerthwyr yn codi tâl ar sail gwirfoddol am fagiau untro ac yn rhoi refeniw net y tâl at achosion da. Rydym yn dymuno ychwanegu at yr arferion da hyn a chydweithio gyda manwerthwyr i bennu'r defnydd y dylid ei wneud o'r derbyniadau net a gesglir drwy godi'r tâl hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig datblygu cytundeb gwirfoddol gyda'r manwerthwyr mawr ynghylch y defnydd a wneir o derbyniadau'r tâl. O dan gytundeb gwirfoddol o'r fath, byddai'r manwerthwyr yn rheoli'r modd y caiff y tâl ei gasglu a'i ddosbarthu, ar ôl cyfrif eu costau gweinyddol eu hunain a chostau'r bagiau siopa untro. Yna, byddai'r derbyniadau net yn cael eu trosglwyddo oddi wrth y manwerthwyr yn syth i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill.

3.9 Yn rhan o unrhyw gytundeb gwirfoddol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno sicrhau, ym mhlith pethau eraill, bod cyfran uchel o fanwerthwyr yn cymryd rhan yn y cynllun, bod prosiectau gwerth chweil yn cael ei cefnogi drwy'r fenter a bod atebolrwydd cadarn i'r cyhoedd ynghylch y defnydd a wneir o'r derbyniadau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda manwerthwyr yn ystod 2010 i ddatblygu'r cytundeb gwirfoddol hwn.

3.10 Yn ôl y dystiolaeth, pe bai'r derbyniadau net a gesglir drwy godi tâl am fagiau siopa untro yn cael eu rhoi i brosiectau gwerth chweil, gallai hynny helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn bleidiol i'r tâl ac yn ei gefnogi. Mewn arolwg cynrychioladol o boblogaeth Prydain yn 2008, roedd 74% o'r farn ei bod yn iawn i'r arian a wneir o godi tâl am fagiau untro fynd i elusennau[12]. Mae'n arwyddocaol nodi bod hyd yn oed y rhai a anghytunai â'r syniad o godi tâl am fagiau yn rhannu'r un farn. Yn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd 64 o'r rhai a ymatebodd (67% o'r holl atebion) ynghylch y defnydd o'r derbyniadau yn bleidiol i'r syniad o roi'r arian a godir i brosiectau, neu at ddibenion, amgylcheddol[13].

3.11 Ategir y safbwynt hwn gan y gwersi a ddysgwyd yn Iwerddon pan godwyd ardoll ar fagiau plastig. Roedd yr ymgyrchoedd hysbysebu a gwybodaeth am yr ardoll yn Iwerddon yn datgan yn glir y byddai'r holl refeniw yn mynd at ddibenion amgylcheddol pendant ac, yn ôl y sylwebwyr, roedd hyn, ynghyd â sefydlu cronfa wedi'i neilltuo, yn hollbwysig o ran cynyddu cefnogaeth y defnyddwyr i'r ardoll[14].

---

[12] *Consumers Oppose Nanny State On Plastic Bags*, Arolwg Ipsos, 2008. http://www.ipsos-mori.com/content/polls-08/consumers-oppose-nanny-state-on-plastic-bags.ashx

[13] *Cynigion ar gyfer codi tâl am fagiau siopa untro: crynodeb o'r ymgynghoriad*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singleusecarrierbags/?skip=1&lang=cy&status=closed

[14] *The most popular tax in Europe? Lessons from the Irish plastic bags levy*, Frank Convery et al, 2007, Environmental and Resource Economics (38), tud. 1-11.

3.12 Bu Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried hyn, yn ogystal â materion eraill, yn ystod ei Ymchwiliad mewn ymateb i Ddeiseb P-03-63 Gwahardd Bagiau Plastig. Yr ysgogiad ar gyfer y ddeiseb hon oedd y syniad buddugol yng nghystadleuaeth gyhoeddus y BBC, 'If I ruled Wales' yn 2007[15]. Un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd oedd:

"...y dylai unrhyw arian a gesglir drwy'r ardoll gael ei ddefnyddio gan gorff hyd braich mewn modd agored a thryloyw i ariannu prosiectau amgylcheddol yng Nghymru".[16]

3.13 Os nad yw'r cytundeb gwirfoddol yn cyflenwi canlyniadau boddhaol, yn enwedig o ran sicrhau bod derbyniadau net yn cael eu trosglwyddo i brosiectau gwrth chweil priodol, byddai Gweinidogion Cymru'n gallu cynnig rheoliadau o dan y pŵer a roddir gan y ddarpariaeth hon yn y Mesur. (Mae'r pwerau yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn cadw cofnodion sy'n nodi, ym mhlith pethau eraill, y defnydd a wnaed o dderbyniadau net a gafwyd drwy'r tâl. Fodd bynnag, nid yw Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sicrhau bod y derbyniadau net y tâl yn cael eu rhoi at ddibenion penodedig neu i bersonau penodedig). Byddai'r Rheoliadau a wneid o dan y Mesur arfaethedig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr drosglwyddo enillion net y tâl am fagiau siopa untro at ddibenion neu i bersonau penodedig. O dan y Mesur arfaethedig hwn, bydd y dibenion penodedig y gellir cymhwyso enillion y tâl iddynt wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n ymwneud â Materion penodol a nodir o dan Faes 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[15] *Plastic bag ban wins popular vote*, BBC Wales, 2007. http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/6288798.stm
[16] *Adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Ddeiseb P-03-63 Gwahardd Bagiau Plastig,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008).

www.assemblywales.org/cy/**plastic**_bag_report_final.pdf

**Targedau gwastraff**

3.14 Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn gosod targedau statudol ar gyfer y ganran o wastraff trefol awdurdod lleol sydd i'w ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio. Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau gwastraff eraill ar gyfer awdurdodau lleol a sefydlu cosbau ariannol y gellid eu rhoi i awdurdodau lleol pe baent yn methu â chyrraedd y targedau a osodir o dan y Mesur arfaethedig.

3.15 Er mwyn symud tuag at ddull gweithredu diwastraff, mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn cynnig nod canoldymor i Gymru, sef dod yn gymdeithas ailgylchu uchel erbyn 2025. Mae gwelliannau arwyddocaol wedi'u sicrhau ar draws Cymru dros y degawd diwethaf o ran ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff. Er enghraifft, mae canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol sy'n cael ei ailgylchu, a ailddefnyddio neu ei gompostio wedi codi o 15% yn 2003/04 i oddeutu 40% yn 2009/10, yn unol â'r targedau yn Strategaeth Wastraff Cymru, *Yn Gall gyda Gwastraff*[17]. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod Cymru, ynghyd â gweddill y DU, wedi ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio lefelau isel o wastraff yn y gorffennol. Mae angen gwneud mwy er mwyn sicrhau dull gwirioneddol gwbl gynaliadwy o reoli ein gwastraff. Ar ôl atal gwastraff, y ffyrdd mwyaf cynaliadwy o reoli gwastraff yw ailgylchu a pharatoi gwastraff ar gyfer ei ailddefnyddio, yn unol â'r hierarchaeth wastraff[18]. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gyrru gwastraff i fyny'r hierarchaeth pryd bynnag y bo modd. Mae defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon hefyd yn helpu i arbed adnoddau prin.

3.16 Mae angen hefyd inni fod yn ymwybodol o ffactorau eraill, ac, yn benodol, sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Er enghraifft, mae Erthygl 5 Cyfarwyddeb Tirlenwi 1999/31/EC yn gosod targedau ar gyfer lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Dogfen arall sy'n arbennig o berthnasol yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC sy'n helpu'r Comisiwn i symud tuag at "gymdeithas ailgylchu" sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon iawn.

3.17 Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*[19] yn cynnig amryw o dargedau newydd i wneud Cymru'n gymdeithas ailgylchu uchel (sy'n ailgylchu 70% ar draws pob sector) erbyn 2025. Cynigir pennu'r lefelau gofynnol canlynol ar gyfer awdurdodau lleol o ran ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff trefol:

---

[17] *Yn Gall gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.
[18] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Ymgynghoriad ar Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, tud. 18.
[19] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, tud. 31.

- 2012/13 – 52%
- 2015/16 – 58%
- 2019/20 – 64%
- 2024/25 – 70%

3.18 Mae'r targedau hyn yn deillio o astudiaeth fanwl a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad [20]. Rhoddodd yr astudiaeth hon ystyriaeth i sawl trywydd posibl ar gyfer cynyddu cyfraddau'r gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol sy'n cael ei ailgylchu a gosodwyd y targedau a nodir uchod fel y rhai sy'n sicrhau'r nifer uchaf o ganlyniadau datblygu cynaliadwy mewn modd cost-effeithiol.

3.19 Mae'r targedau hyn yn realistig ond yn heriol i awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol i'w helpu i gyrraedd y targedau hyn. Mae'r cyllid yn cynnwys cyfanswm o £330.5 miliwn a ddyrannwyd drwy Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ers 2001. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo hefyd i roi arweiniad strategol i gefnogi'r broses o roi *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* ar waith, a bydd yn datblygu cynlluniau manwl gyda phob sector.

3.20 Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud y targedau'n rhai statudol. (Targedau anstatudol ydynt ar hyn o bryd). Bellach, defnyddir y term "paratoi i ailddefnyddio" yn lle'r term "ailddefnyddio" yn achos y targedau a osodir o dan y Mesur er mwyn adlewyrchu'r derminoleg sydd yn neddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.

3.21 Gwnaed y targedau hyn yn rhai statudol er mwyn dangos pwysigrwydd cynyddu cyfraddau awdurdodau lleol o ran ailgylchu a chompostio gwastraff trefol a'i baratoi i'w ailddefnyddio. Bydd targedau statudol hefyd yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch natur hirdymor y targedau ac yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chymryd camau priodol, gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ar ben hynny, heb dargedau statudol, mae perygl mawr y bydd awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar opsiynau llai cynaliadwy ar gyfer trin eu gwastraff, er enghraifft, anfon gwastraff a allai gael ei ailgylchu neu ei baratoi i'w ailddefnyddio i weithfeydd troi gwastraff yn ynni.

3.22 Mae'r Mesur arfaethedig yn egluro bod y lefelau targed a bennir mewn blynyddoedd penodol yn parhau i fod yn gymwys yn y blynyddoedd dilynol, hyd nes y pennir lefel darged newydd. Er enghraifft, bydd y targed o 52% a osodir ar gyfer 2012/13 yn gymwys hefyd yn 2013/14 a 2014/15. Y nod yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal y gwelliannau yn y cyfraddau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio hyd nes y daw targed statudol newydd yn dod i rym.

3.23 Er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio, rhoddir cosbau ariannol i'r awdurdodau lleol sy'n methu â

[20] *Scoping New Municipal Waste Targets for Wales*, Eunomia, 2007.

chydymffurfio â'r targedau statudol. Nid oes pwerau ar hyn o bryd i sefydlu cosbau o'r fath. Bydd atebolrwydd ariannol posibl am beidio â chyrraedd targedau statudol yn helpu i sicrhau ymhellach fod awdurdodau yn ymdrechu i gyrraedd y targedau priodol. Er enghraifft, yn 2006/07, methodd 5 awdurdod lleol o'r 22 â chyrraedd y targed ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio, sef 25%. Ar y llaw arall, mae'r holl awdurdodau lleol, hyd yn hyn, wedi cyrraedd eu targedau statudol mewn perthynas â'r cynllun lwfansau tirlenwi, o dan Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. O fethu â chyrraedd y targedau hyn byddai'r awdurdodau lleol wedi bod yn atebol i gael cosb ariannol.

3.24 Cynigir y dylai'r gosb ariannol am fethiant awdurdod lleol i gyrraedd targed ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio neu gompostio adlewyrchu darpariaethau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi. O dan Gynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru, y cosbau cyfredol yw £200 y dunnell ar gyfer pob tunnell sydd dros cyfanswm y lwfans blynyddol a nodir mewn tunelli absoliwt. Cymhwysir cosbau'r Mesur arfaethedig hwn yn ôl maint y gwastraff nad yw'n targed statudol, a gyfrifir fel y diffyg canran.

3.25 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio, drwy is-ddeddfwriaeth, swm y gosb ariannol am beidio â chyrraedd y targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio.

3.26 Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru newid y targedau statudol ar gyfer ailgylchu a chompostio gwastraff trefol a'i baratoi i'w ailddefnyddio, neu'r blynyddoedd y mae'r targedau hyn yn gymwys iddynt. Mae'r pŵer hwn yn cydnabod bod y targedau'n ymwneud â chyfnod hirach, a'i bod yn bosibl y bydd yn rhaid newid y targedau neu'r blynyddoedd sy'n gysylltiedig â'r targed.

3.27 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau gwastraff statudol eraill ar gyfer awdurdodau lleol a'u gwneud yn atebol i dalu cosbau ariannol am fethu â chyrraedd targedau o'r fath. Efallai y bydd gosod targedau gwastraff eraill, er enghraifft ar gyfer gwastraff bwyd a ddidolir yn y ffynhonnell, neu'r lefelau uchaf o ynni o wastraff, yn helpu i ysgogi newid dulliau rheoli gwastraff yn unol ag amcanion cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad[21].

3.28 Bydd Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn cydategu'r fframwaith rheoleiddio a sefydlwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Fe wnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ddiwygio'r sail statudol i awdurdodau lleol wella gwasanaethau a chynllunio'n strategol yng Nghymru, ac, yn sgîl hynny, y gofynion rheoleiddio, adrodd, archwilio, cefnogi ac ymyrryd. Mae'r Mesur yn cysylltu lles a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai'r fframwaith hwn fod yn gymwys i unrhyw dargedau a osodir o dan y Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010. Bydd unrhyw dargedau a bennir o dan Ran 2 Fesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn cael eu gwneud yn

---

[21] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, tud. 18.

dargedau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 hefyd felly. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cynnwys pŵer i sefydlu Dangosyddion a Safonau Perfformiad statudol. Defnyddir Dangosyddion Perfformiad i fesur perfformiad awdurdod gwella Cymreig. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, bennu Safonau Perfformiad ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad a sefydlant. Safonau Perfformiad fyddai'r mecanwaith ar gyfer sefydlu targedau gwastraff statudol o dan Fesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010, a hynny o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

3.29 Bydd y dull gweithredu deuol hwn mewn perthynas â'r fframweithiau rheoleiddio yn rhoi hyblygrwydd i fynd i'r afael â materion ynghylch diffyg cydymffurfiaeth bosibl neu wirioneddol â'r targedau gwastraff statudol. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw gosod y targed statudol cyntaf ar gyfer ailgylchu gwastraff, ei baratoi i'w ailddefnyddio neu ei gompostio, sef 52% erbyn 2012/13, mewn Offeryn Statudol ym mis Ebrill 2010 gan ddefnyddio'i phwerau o dan Adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Tirlenwi**

3.30 Bydd Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wahardd, neu gyfyngu ar, ollwng mathau penodedig o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

3.31 Roedd dyheadau bras y ddogfen *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn nodi'r rhesymau polisi cyffredinol dros y darpariaethau tirlenwi o dan y Mesur arfaethedig. Mae gwaredu gwastraff drwy dirlenwi yn opsiwn amgylcheddol gwael, gan mai hwnnw yw'r dull lleiaf cynaliadwy o reoli gwastraff a'r opsiwn lleiaf ffafriol o dan yr hierarchaeth wastraff[22]. Yn benodol, mae tirlenwi'n cael effaith eithriadol o negyddol ar y newid yn yr hinsawdd, gan fod gwastraff bioddiraddiadwy, wrth bydru, yn rhyddhau methan, nwy tŷ gwydr niweidiol sydd 23 gwaith yn fwy nerthol na charbon deuocsid. Mae oddeutu 61% o'r gwastraff trefol a 61% o'r gwastraff diwydiannol a masnachol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn fioddiraddiadwy[23][24].

3.32 Mae hefyd yn wir bod llawer o'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd yn adnodd gwerthfawr, naill ai fel deunydd ailgylchu neu ar gyfer cynhyrchu ynni effeithlonrwydd uchel (sef dull dewisol Llywodraeth Cynulliad Cymru o drin gwastraff gweddilliol). Mae llawer o'r cynnyrch a anfonir i safleoedd tirlenwi'n cynnwys lefel uchel o ynni mewnol, ac mewn llawer o achosion gwastraffwyd meintiau sylweddol o ddeunyddiau crai wrth wneud y cynnyrch. Wrth dirlenwi, felly, gwastreffir llawer mwy na'r adnodd ei hunan, gan fod cymaint mwy o adnoddau cudd hefyd yn mynd yn wastraff.

3.33 Yn 2007, cynhyrchodd Cymru 5.1 miliwn tunnell o wastraff cartref, masnachol a diwydiannol. Er bod 48% o hwnnw wedi ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i adfer aeth 44% i safleoedd tirlenwi. Ar y cyfan, mae tirlenwi wedi gostwng 29% ers 2000/01. Er bod y gwastraff a dirlenwir yn mynd i lawr, mae'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru o hyd. Roedd canran y gwastraff o bob sector gwastraff a aeth i safleoedd tirlenwi yn 2007 fel a ganlyn:

- 68% o wastraff cartref (1.01 miliwn o dunelli)
- 51% o wastraff masnachol (0.84 miliwn o dunelli)
- 29% o wastraff diwydiannol (0.55 miliwn o dunelli)
- 11% o wastraff adeiladu a dymchwel (1.27 miliwn o dunelli)
- 21% o'r holl wastraff (3.68 miliwn o dunelli)[25]

---

[22] *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, tud.18.
[23] *Wales Construction and Demolition Waste Arising Survey 2005-06,* Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008.
[24] *Composition of Municipal and Solid Waste in Wales*; MEL, Waste Research, WRc, AEA Technology 2003.
[25] Cyfrifwyd y ffigurau gwastraff cartref gan ddefnyddio data chwarterol *WasteDataFlow*.
Cyfrifwyd y ffigurau gwastraff masnachol a diwydiannol gan ddefnyddio Arolwg Asiantaeth yr Amgylchedd o Wastraff Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru 2007.
Cyfrifwyd y ffigurau gwastraff adeiladu a dymchwel gan ddefnyddio Arolwg Asiantaeth yr

3.34 Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n wael â Gwladwriaethau Ewropeaidd eraill, gan fod llawer o'r gwledydd hynny wedi defnyddio cyfyngiadau neu waharddiadau i ddargyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi. Mae Awstria, y Ffindir, yr Almaen, Hwngari, yr Eidal, Fflandrys, Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Sweden, y Weriniaeth Tsiec, Estonia a Slofenia oll wedi cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau o wahanol fathau.

3.35 Mae gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi wedi dod yn fater mwy critigol yng Nghymru, a thrwy'r DU gyfan, wrth i'r safleoedd tirlenwi gyrraedd eu capasiti llawn. Mae Cymru a'r DU wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar dirlenwi na llawer o wladwriaethau eraill yr UE ac maent â'r cyfraddau tirlenwi uchaf o hyd. Yn 2007, amcangyfrifwyd bod 41 miliwn metr ciwbig o gapasiti tirlenwi yn weddill yng Nghymru ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus, ar sail y cyfraddau mewnbwn cyfredol. Os byddwn yn parhau i gynhyrchu'r un lefelau o wastraff, bydd ein safleoedd tirlenwi'n cyrraedd eu capasiti llawn o fewn wyth mlynedd yn unig[26].

3.36 Pwrpas darpariaethau tirlenwi'r Mesur arfaethedig yw mynd i'r afael â'r gwahanol faterion amgylcheddol sy'n codi o ganlyniad i dirlenwi gwastraff, trwy roi pŵer i Weinidogion Cymru wahardd, neu gyfyngu ar, ollwng mathau penodedig o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Trwy ailgylchu neu ailddefnyddio mathau penodol o wastraff, neu, yn achos gwastraff gweddilliol, ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni effeithlonrwydd uchel, cyflawnir nifer o fuddion amgylcheddol a defnyddir opsiynau mwy ffafriol o dan yr hierarchaeth wastraff i reoli ein gwastraff.

3.37 Byddai'r darpariaethau o dan y Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i'r bylchau ym mhwerau Gweinidogion Cymru. Caiff gollwng gwastraff ar safleoedd tirlenwi ei reoleiddio (yn rhannol) gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. Gwnaed y rheoliadau hynny o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Un o ddibenion cyffredinol Deddf 1999 (ym mhlith pethau eraill) yw rheoleiddio gweithgareddau sy'n gallu achosi llygredd amgylcheddol. Mae rhai mathau o wastraff a allai fod yn destun gwaharddiad neu gyfyngiad yn ddeunyddiau anadweithiol sy'n annhebygol o achosi llygredd amgylcheddol mewn safleoedd tirlenwi, e.e. rhai mathau o wydr. Wrth gynnig cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar y mathau o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, mae amcanion polisi Llywodraeth y Cynulliad yn estyn ymhellach nag atal llygredd, ac rydym felly o'r farn bod angen pŵer galluogi newydd a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r amcanion ehangach, sef gwella effeithlonrwydd adnoddau a datblygu arferion mwy cynaliadwy wrth reoli gwastraff. Diben y pŵer hwn felly yw gwahardd neu osod rheolaethau fel arall ar ollwng gwastraff ar safleoedd tirlenwi, p'un a yw math penodol o wastraff a ollyngir mewn unrhyw amgylchiadau penodol yn gallu achosi llygredd amgylcheddol neu beidio.

3.38 Mae gwastraff bioddiraddiadwy o gartrefi sy'n mynd i safleoedd tirlenwi'n cael ei leihau gam wrth gam yn sgîl gweithredu'r targedau a osodir yng

---

Amgylchedd o Wastraff Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru 2005-06.
[26] Data ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd, ar: http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/data/97852.aspx

Nghyfarwyddeb Tirlenwi'r CE (1999/31/EC) ar gyfer tirlenwi gwastraff trefol bioddiraddiadwy, sydd hefyd yn ysgogi cynnydd yn y lefelau ailgylchu a chompostio[27]. Mae targedau Cyfarwyddeb Tirlenwi'r CE bellach yn cael eu hestyn yn y DU i gwmpasu tirlenwi gwastraff masnachol bioddiraddiadwy. Nid oes unrhyw reolaethau cyfreithiol o'r fath ar dirlenwi gwastraff diwydiannol, masnachol ac adeiladu a dymchwel nas cesglir gan awdurdodau lleol. Bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn y Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i'r mater hwn a byddent o gymorth inni gyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfraith y CE.

3.39 Mae cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar fathau penodol o wastraff yn un o nifer o ysgogiadau polisi a allai helpu Cymru i gyrraedd y targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio neu gompostio a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a'r Mesur arfaethedig hwn. Mae'r ddibyniaeth ar dirlenwi yng Nghymru wedi arwain at ddiffyg datblygu seilwaith ar gyfer prosesu'r gwastraffau hyn. Mae'n bwysig cael sicrwydd yn y farchnad ynghylch argaeledd y gwastraffau hyn i ddatblygwyr posibl er mwyn gyrru ailgylchu ymlaen. Bydd gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar dirlenwi mathau penodol o wastraff yn helpu i ddarparu'r sicrwydd hwn a dylai helpu Cymru i ddatblygu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff.

3.40 Bydd Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiad ar ollwng rhai mathau penodedig o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Bydd union natur unrhyw waharddiad yn dibynnu ar ganlyniadau gwaith a ymgymerir ar y cyd rhwng Cymru, DEFRA a gweinyddiaethau datganoledig eraill i archwilio'r manteision a'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â gwahardd neu gyfyngu ar fathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Cwmni Eunomia Consulting sy'n cynnal yr astudiaeth hon, ac fe'i rheolir gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau. Y nod yw cynnal astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y materion ymarferol a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwaharddiadau tirlenwi deunyddiau bioddiraddiadwy a deunyddiau y gellir eu hailgylchu / adfer (uwchlaw a thu hwnt i'r trefniadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan y pedair gweinyddiaeth ddatganoledig). Yn benodol, mae'r astudiaeth yn ceisio darganfod costau a buddion gwahanol waharddiadau neu gyfyngiadau ar dirlenwi a'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu a gorfodi. Mae'r deunyddiau allweddol sydd dan ystyriaeth yn cynnwys bwyd, deunydd gwyrdd, papur a chardfwrdd, tecstilau, pren, gwydr, mhetalau, plastigau, cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gwastraff bioddiraddiadwy.

3.41 Bydd Llywodraeth y Cynulliad a DEFRA'n cynnal ymgynghoriad polisi yn 2010, ynghylch y gwaharddiadau neu gyfyngiadau posibl ar dirlenwi. Pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dymuno gwahardd neu gyfyngu ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi, câi Weinidogion Cymru'r pŵer o dan y Mesur arfaethedig hwn i'w galluogi i gynnig rheoliadau i'r

[27] Gweithredir yng Nghymru drwy Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004.

perwyl hwnnw. Byddai'r rheoliadau'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad Cenedlaethol a bydd angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar eu cyfer.

**Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

3.42 Mae'r Mesur arfaethedig Gwastraff (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau ffioedd a chodi tâl mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SMWP) a fydd yn cael eu cyflwyno i'r sector adeiladu a dymchwel yng Nghymru (adran 14(2)(e)). Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn ailddatgan pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i wneud rheoliadau sy'n gwneud Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn ofynnol.

3.43 Diben y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yw helpu cwmnïau yn y sector Adeiladu a Dymchwel i feddwl a chynllunio er mwyn atal, lleihau ac ailgylchu gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Mae mynd i'r afael â materion gwastraff yn y sector Adeiladu a Dymchwel yn bwysig am nifer o resymau.

3.44 Yn gyntaf, ar hyn o bryd mae cyfran sylweddol o wastraff y sector Adeiladu a Dymchwel yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Mae ffigurau diweddaraf 2008/09[28] o ffurflenni a ddychwelwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd gan weithredwyr gwastraff yn dangos mai gwastraff anadweithiol a gwastraff o'r sector adeiladu a dymchwel oedd 31% o'r gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi.

3.45 Mae data eraill o arolwg gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynghylch gwastraff yn y sector Adeiladu a Dymchwel yn 2005/06[29] yn dangos bod 12.2 miliwn o dunelli o wastraff wedi'i gynhyrchu gan y sector Adeiladu a Dymchwel yn 2005/06. Mae'r arolwg yn dangos bod y sector Adeiladu a Dymchwel yn ailgylchu ac yn ailddefnyddio 85% o'i wastraff. Fodd bynnag, er gwaetha'r gyfradd ailgylchu ac ailddefnyddio uchel hon, mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod y sector hwn wedi gwaredu 1.27 miliwn o dunelli o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, y maint uchaf i gael ei waredu mewn safleoedd o'r fath yn unrhyw un o'r sectorau gwastraff. Ailgylchwyd neu ailddefnyddiwyd y rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchwyd gan y sector peirianneg sifil (8.0 miliwn o dunelli). O hepgor y data ynghylch gweithgareddau peirianneg sifil, mae cyfradd ailgylchu'r sector Adeiladu a Dymchwel yn llawer is ac yn cynnig mwy o her i fusnesau bach a chanolig, sef 99% o'r busnesau yng Nghymru[30].

3.46 Yn ail, bydd gwella tueddiadau ailgylchu ac ailddefnyddio yn y sector adeiladu a dymchwel yn helpu i wella effeithlonrwydd deunyddiau ac yn lleihau ôl troed carbon y sector. Mae'r sector Adeiladu a Dymchwel yn

---

[28] *Gwybodaeth Data Gwastraff Cymru 2008,* Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008. http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/llyfrgell/data/111408.aspx?

[29] *Wales Construction and Demolition Waste Survey 2005-06,* Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008. http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/33979.aspx

[30] *Dadansoddiad o strwythur busnesau yn ôl bandiau maint manwl, Cymru a'r DU (2006)*, StatsCymru. http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1693

defnyddio dros 420 miliwn o dunelli o ddeunyddiau bob blwyddyn[31] yn y DU - y deunyddiau primaidd yn bennaf, hynny yw agregau crai a phren. Mae'r sector hefyd yn cyfrannu yn sylweddol at ein hôl troed carbon, gan gludo gwastraff a deunyddiau dros bellteroedd mawr.

3.47 Yn olaf, bydd prosesau rheoli gwastraff mwy effeithiol yn y sector Adeiladu a Dymchwel yn helpu i leihau'r llygredd gan wastraff cymaint â phosibl ac yn gwella'r dulliau o reoli gwastraff peryglus. Cynhyrchodd y sector Adeiladu a Dymchwel tua 880,000 o dunelli o wastraff peryglus ar draws Cymru a Lloegr yn 2008, a chafodd 88% o'r gwastraff hwn ei waredu mewn safleoedd tirlenwi[32]. Nid oes unrhyw safleoedd tirlenwi gwastraff masnachol peryglus yng Nghymru. Mae gwastraff anadweithiol a gwastraff y sector Adeiladu a Dymchwel yn ffynhonnell fawr o lygredd. Yn 2008, gwastraff anadweithiol a gwastraff Adeiladu a Dymchwel oedd prif achos y digwyddiadau llygredd tir difrifol yng Nghymru, gan gyfrif am 36% o'r cyfanswm[33]. Yn yr un modd, gwastraff anadweithiol a gwastraff Adeiladu a Dymchwel yn gyfrifol am 16% o'r achosion o lygredd difrifol mewn dŵr[34].

3.48 Cafwyd dros 55,300 o achosion o dipio anghyfreithlon ar dir awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2008/09, gydau chostio clirio cysylltiedig o dros £3 miliwn[35]. Gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio yw'r trydydd math mwyaf cyffredin o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon, ar ôl gwastraff cartref mewn bagiau du a gwastraff cartref arall. Nodwyd tua 3,120 o achosion oedd yn ymwneud ag adeiladu, dymchwel a chloddio yn 2008/09[36.] Adroddwyd am oddeutu 188 o achosion o dipio asbestos yn ystod yr un cyfnod[37].

3.49 Yn gryno, dylai'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle helpu'r sector Adeiladu a Dymchwel i wneud y canlynol:

- Gwella'r prosesau rheoli gwastraff a'i gwneud yn haws prosesu gwastraff a chreu llai ohono, gan osgoi'r costau uchel syn gysylltiedig â gwaredu gwastraff;
- Mesur faint o wastraff a gynhyrchir;
- Hybu ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau, lleihau'r galw am y deunyddiau primaidd a chynyddu'r defnydd o ddeunyddiau adeiladu a dymchwel eilaidd/sydd wedi'u hailgylchu;

[31] *The Construction Industry Mass Balance: resource use, wastes,* Transport Research Laboratory, 2002.
[32] *Data ynghylch gwastraff peryglus 2008,* Asiantaeth yr Amgylchedd. http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/EWHaz08.xls
[33] Cymharu graffiau sy'n ymwneud ag achosion o lygredd. Data ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gais, MAR.
[34] Cymharu graffiau sy'n ymwneud ag achosion o lygredd. Data ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gais, MAR.
[35] *Fly-tipping in Wales 2008/*9, Ystadegau ar gyfer Cymru, 2009 http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/env2009/hdw20091001/?skip=1&lang=cy
[36] *Fly-tipping in Wales 2008/*9, Ystadegau ar gyfer Cymru, 2009 http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/env2009/hdw20091001/?skip=1&lang=cy
[37] *Fly-tipping in Wales 2008/*9, Ystadegau ar gyfer Cymru, 2009 http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/env2009/hdw20091001/?skip=1&lang=cy

- Dylunio nad oes gwastraff, er mwyn ei gwneud yn haws i fusnesau fodloni manylebau. Yn ei dro, bydd hyn yn lleihau gwastraff posibl ar y safle;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth rheoli gwastraff gyfredol, gan ailorfodi'r Ddyletswydd Gofal.

3.50 Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd, sy'n eu galluogi i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i llunio a chydymffurfio â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae dadansoddiad cost a budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a disgwylir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2010.

3.51 I sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol â rheoliadau'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle, bydd angen i'r awdurdod(au) gorfodi roi mecanweithiau monitro a gorfodi priodol ar waith i brosesu ceisiadau, monitro’r modd y gweithredir y cynlluniau ac, os bydd angen, cymryd camau gorfodi. Un opsiwn ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yw cyflwyno cynllun ffioedd a chodi tâl. Yn ei hanfod, system godi tâl yw hon lle codir am y gwaith o brosesu neu wirio Cynllun Rheoli Gwastraff Safle a/neu y codir tâl i adennill costau unrhyw waith sydd ei angen i fonitro y cydymffurfir â rheoliadau’r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Nid yw darpariaethau’r Ddeddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau ffioedd a chodi tâl. Cynigir felly y byddai’r Mesur yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau ffioedd a chodi tâl. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ynghylch ffioedd a chodi tâl pan fydd yn ymgynghori ar y rheoliadau Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn ddiweddarach yn 2010.

3.52 Byddai cynllun ffioedd a chodi tâl, o’i gyflwyno, yn gyson â’r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' sy’n llywio darnau eraill o ddeddfwriaeth amgylcheddol yn ogystal â swyddogaethau rheoleiddio eraill a gyflawnir gan wahanol awdurdodau gorfodi, megis y rheoliadau adeiladu a weithredir gan bob awdurdod lleol. Ymgymerir â gweithgareddau gorfodi eraill ar lefel genedlaethol, gan Asiantaeth yr Amgylchedd er enghraifft.

3.53 Yn ogystal â rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun ffioedd a chodi tâl, mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) yn ailddatgan y darpariaethau sydd yn adran 54 o’r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd.

3.54 Mae ailddatgan y pwerau sy’n bodoli eisoes, gan eu diwygio at ddibenion y Mesur, yn sicrhau bod y darpariaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu codeiddio mewn un darn o ddeddfwriaeth. Fel arall, gellid fod wedi ychwanegu adran ar gyfer Cymru yn unig at y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd i ymdrin â’r cynllun ffioedd a chodi tâl. Dewiswyd gwneud darpariaethau ar wahân yn y Mesur, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, yn haws cyfeirio atynt ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran y gyfraith ar Gynlluniau Rheoli Gwastraff

Safle o gymharu ag ychwanegu adran newydd ar gyfer Cymru yn unig at y Ddeddf uchod. Yn ogystal, mae i hyn y fantais ychwanegol o sicrhau bod y ddeddfwriaeth ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle ar gael yn ddwyieithog.

# 4. Ymgynghori

4.1 Datblygwyd y Mesur arfaethedig hwn ar sail yr ymgynghoriad ynghylch yr amcanion polisi sy'n llywio darpariaethau'r Mesur hwn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y cynigion ynghylch bagiau siopa untro; ymgynghori ar y cynigion sydd yn y Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru a hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynigion polisi sydd yn y Mesur arfaethedig. Rhoddir crynodeb o'r ymgynghoriadau hyn isod.

**Bagiau Siopa Untro**

4.2 Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos rhwng Mehefin a Medi 2009 ynghylch cynigion i godi tâl am fagiau siopa untro. Daeth cyfanswm o 211 ymateb ysgrifenedig i law yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion mewn perthynas â bagiau siopa untro yma:

http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singleusecarrierbags/?skip=1&lang=cy&status=closed

4.3 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ynghylch amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr egwyddor cyffredinol o'r defnydd y dylid ei wneud o'r arian a godir drwy'r tâl. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid rhoi'r refeniw a gesglir drwy'r tâl i brosiectau amgylcheddol.

4.4 Cyn yr ymgynghoriad, bu swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn trafod gyda nifer o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau amgylcheddol, grwpiau defnyddwyr, manwerthwyr a'u cynrychiolwyr, gwneuthurwyr bagiau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.5 Yn rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus: y naill yn Llandudno ar 10 Medi a'r ail yn Abertawe ar 17 Medi. Cynhaliwyd digwyddiad gyda chynrychiolwyr byd busnes a manwerthwyr ar 13 Gorffennaf a threfnwyd gweithdy bach gyda Busnesau Bach a Chanolig ar 10 Gorffennaf. Roedd stondin yn rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru ar 20-23 Gorffennaf hefyd. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda swyddogion safonau masnach/llywodraeth leol, gwneuthurwyr bagiau plastig a Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

4.6 Yn ychwanegol, fe wnaeth Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil grŵp ffocws ynghylch codi tâl am fagiau siopa. Cynhaliwyd sesiynau grwpiau ffocws gyda Defnyddwyr a BBaCh yn ystod yr haf ac mae adroddiad ar y gwaith hwn bellach wedi'i gyflwyno. Gellir cael copïau o'r adroddiadau hyn trwy glicio ar y ddolen i wefan Llywodraeth y Cynulliad uchod.

4.7 Mae'r ymgynghori a'r ymgysylltu â'r rhanddeiliaid wedi bod yn gymorth i ddatblygu'r cynigion sydd yn y Mesur arfaethedig.

**Darpariaethau Rheoli Gwastraff**

4.8 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi effaith i nifer o gydrannau hanfodol y Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff.* Mae'r strategaeth hon yn nodi'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig adeiladu ar *Yn Gall gyda Gwastraff - Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru* (a gyhoeddwyd yn 2002) ac yn nodi'r amcanion hirdymor o ran rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau hyd at 2050. Mae'r Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Cymru yn nodi'r camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r rhannau o'r Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â rheoli gwastraff.

4.9 Lansiwyd *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar 29 Ebrill 2009, a bu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos, tan 22 Gorffennaf 2009. Daeth cyfanswm o 94 ymateb i law yn ystod yr ymgynghoriad.

4.10 Darparwyd fersiwn ieuenctid o'r ddogfen ymgynghori hefyd, gan hwyluswyr annibynnol ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Paratowyd y ddogfen honno gan sefydliad sy'n arbenigo mewn cael cyfranogiad pobl ifanc a gwneud gwybodaeth yn hygyrch i bobl ifanc, plant a theuluoedd, a'i nod oedd ceisio cael pobl ifanc i gyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Wastraff newydd.

4.11 Yn rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad dri digwyddiad ar draws Cymru: yn Abertawe ar 20 Mai, yn Aberystwyth ar 4 Mehefin, ac yn Llandudno ar 17 Mehefin. Pwrpas y digwyddiadau hyn oedd rhoi cyfle i'r cyfranogwyr archwilio, adolygu a thrafod y polisi a'r cyd-destun strategol yn ogystal â thrafod cynnwys penodol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Daeth cyfanswm o 114 o bobl i'r tri digwyddiad.

4.12 Mae hwyluswyr annibynnol wedi paratoi adroddiad ar ran Llywodraeth y Cynulliad, sy'n rhoi crynodeb o'r materion a'r themâu a gododd o'r digwyddiadau, yr ymgynghori ysgrifenedig a'r ymgynghori â'r bobl ifanc. Mae'n cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r Strategaeth Wastraff newydd a dadansoddiad o'r materion allweddol a godwyd yn yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad trwy'r ddolen ganlynol: http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/wastestrategy/?skip=1&lang=cy&status=closed

**Targedau gwastraff**

4.13 Bu ymgysylltu helaeth â llywodraeth leol ynghylch y bwriad i gyflwyno targedau statudol. Cyhoeddwyd y targedau arfaethedig yn *Cyfarwyddiadau i'r Dyfodol ar gyfer Rheoli Gwastraff Trefol yng Nghymru - Papur Trafod* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007 ac a ddiweddarwyd nifer

o weithiau wedi hynny[38]. Er nad oedd y papur Cyfarwyddiadau i'r Dyfodol yn destun ymgynghoriad ffurfiol, darparodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymateb iddo. Roedd yr ymateb hwnnw yn codi nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: y dylid rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff; y dylid canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy yn hytrach nag ar gynaliadwyedd amgylcheddol; materion yn ymwneud ag ymarferoldeb y targedau; pryder ynghylch defnyddio targedau fel modd o yrru polisi yn ei flaen; pryder nad yw'r targedau cenedlaethol yn rhoi lle i amrywiaeth lleol; yr angen am fwy o gyllid er mwyn cyflawni'r targedau; a hefyd rôl ynni o wastraff.

4.14 Cafodd y targedau arfaethedig ar gyfer canran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio eu nodi yn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Wastraff newydd *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddilyn y ddolen isod: http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/wastestrategy/?lang=cy&status=closed

4.15 Bydd y targed cyntaf, sef 52% yn 2010/13 yn cael eu osod ar sail statudol o fis Ebrill 2010 ymlaen, drwy Orchymyn o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Nodwyd y bwriad i sefydlu'r targed statudol cyntaf hwn yn yr ymgynghoriad ynghylch y dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer 2010/11 a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol yn bennaf rhwng Tachwedd 2009 ac Ionawr 2010. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r targedau dilynol (58% erbyn 2015/16; 64% erbyn 2019/20 a 70% erbyn 2024/25) yn eu trefn. Dim ond un awdurdod lleol a wnaeth ymateb yn benodol ar fater y targed statudol arfaethedig. Roedd yr awdurdod yn croesawu'r targed, gan nodi'n benodol bod targedau hirdymor yn ddefnyddiol wrth gynllunio gwasanaethau. Hefyd, nododd nifer o faterion i'w hystyried gan gynnwys y canlynol: yr angen am fanylion goblygiadau methu â chyrraedd y targed; yr angen am hyblygrwydd i ddiwygio targedau hirdymor; yr angen am ddealltwriaeth o'r cynlluniau sector arfaethedig; a'r angen am eglurder ynghylch diffiniadau sy'n ymwneud â gwastraff trefol.

### Tirlenwi

4.16 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer, a mewn perthynas â, gwahardd neu reoleiddio gollwng mathau penodol o ddeunyddiau bioddiraddiadwy ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Gall hyn gynnwys gwaharddiad neu gyfyngiad ar ddeunydd bioddiraddiadwy neu ddeunydd y gellir ei ailgylchu/adfer. Bydd Llywodraeth y Cynulliad a DEFRA yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr opsiynau ar gyfer gwaharddiadau tirlenwi yn 2010. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys canlyniadau prosiect gan WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau), a gomisiynwyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig a DEFRA, i edrych ar y potensial ar

[38] *Cyfarwyddiadau i'r Dyfodol ar gyfer Rheoli Gwastraff Trefol yng Nghymru - Papur Trafod, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007.*

draws y DU ar gyfer gwahardd tirlenwi neu osod cyfyngiadau arno. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys asesiad cychwynnol o'r costau a'r buddion ac fe'i defnyddir i bennu'r opsiynau posibl ar gyfer gwahardd tirlenwi neu gyfyngu ar ddeunyddiau penodol yng Nghymru.

4.17 Ymhelaethir ar fanylion unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau dilynol ar dirlenwi yng nghyd-destun y rheoliadau a baratoir dan ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Bydd hyn yn destun ymgynghori trylwyr ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar yr adeg briodol.

**Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

4.18 Mae'r darpariaethau ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru wedi'u datblygu drwy gynnal deialog rhagarweiniol anffurfiol â'r rhanddeiliaid perthnasol cyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys gweithdy a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2008 gydag awdurdodau lleol a chwmnïau; ac ail weithdy ym mis Ionawr 2009 gyda sefydliadau masnach a chwmnïau adeiladu. Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy oedd bod angen cychwyn Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn gynnar yn y broses ddylunio a chynllunio; a bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r trothwy ar gyfer llunio Cynllun; ac y dylai Cynlluniau o'r fath fod ar gael i bob prosiect adeiladu, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys elfen o ddymchwel. Yn y drafodaeth ragarweiniol hon, nodwyd hefyd y byddai angen cynllun codi tâl er mwyn gallu cyflawni'r dyletswyddau monitro a gorfodi'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn effeithiol.

4.19 Mae dadansoddiad cost a budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, a disgwylir gallu ymgynghori ar y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn ystod 2010. Trwy'r rhaglen waith drylwyr hon y cesglir y wybodaeth sydd ei hangen i lunio'r cynigion ar gyfer unrhyw gynllun codi tâl.

4.20 Rhoddir ystyriaeth fwy manwl i'r effaith ar sectorau megis busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2 o'r Memorandwm hwn.

# 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion, bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys manylion cynhwysfawr sy'n debygol o fod yn destun prosesau adolygu a diwygio cyfnodol. Byddai gwneud diwygiadau fesul mesur yn broses feichus, ac yn cymryd llawer o amser Cynulliad Cenedlaethol Cymru, felly, tybir ei bod yn fwy priodol cynnwys y darpariaethau hyn mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur arfaethedig. Mewn achosion eraill, bydd y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno neu newid manylion y Mesur i ymdrin â datblygiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn osgoi'r angen i ddwyn Mesur diwygio ymlaen bob tro y bydd angen newidiadau o'r fath.

5.2 Rhoddir disgrifiad pellach o bob un o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth isod.

**Bagiau Siopa Untro**

5.3 Mae Adran 1 o Fesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr, a fydd yn gorfod codi isafswm am fagiau siopa untro o dan reoliadau a wneir yn 2011 o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, dalu derbyniadau net y tâl a godir am fagiau siopa untro at ddibenion neu i sefydliadau penodedig.

5.4 Ochr yn ochr â chyflwyno isafswm tâl am fagiau siopa untro, bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gweithio gyda manwerthwyr i ddatblygu cytundeb gwirfoddol ynghylch y defnydd a wneir o’r derbyniadau net a gesglir drwy’r tâl. O dan y cytundeb hwn, bydd manwerthwyr yn rheoli'r broses o gasglu a dosbarthu’r tâl i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill. Ni wneir y rheoliadau y cyfeirir atynt yn adran 1 o'r Mesur arfaethedig onid yw’r trefniadau gwirfoddol gyda manwerthwyr ynghylch y defnydd a wnânt o’r enillion yn cyflenwi canlyniadau anfoddhaol. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi disgresiwn helaeth i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr ddefnyddio enillion net y tâl at ddibenion penodedig, a’u rhoi i bersonau penodedig, os bydd y rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ddefnyddio'r enillion at ddibenion penodedig.

5.5 Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yw'r weithdrefn a gynigir ar gyfer gwneud y set gyntaf o reoliadau o dan Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, fel y’i diwygiwyd gan y ddarpariaeth yn y Mesur. Mae hyn yn unol â'r weithdrefn i wneud rheoliadau ar gyfer y tâl ei hun o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae Adran 77(4) o’r Ddeddf honno hefyd yn darparu y bydd rheoliadau sy’n gosod neu’n darparu ar gyfer gosod sancsiynau sifil newydd; rheoliadau sy’n cynyddu maint neu uchafswm cosb ariannol neu’n newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o’r fath; neu’n diwygio neu ddiddymu darpariaeth deddfiad sydd wedi’i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i’r weithdrefn

gadarnhaol. Fel arall, bydd rheoliadau a wneir o dan Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Targedau gwastraff**

5.6 Mae Adran 3 (4) o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y tabl a ddarperir o dan isadran (3) sy'n nodi'r targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a'r blynyddoedd ariannol y mae'r targedau'n gymwys iddynt. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd os bydd angen newid y targedau neu'r cyfnodau. O ystyried effaith bosibl newid targedau ar awdurdodau lleol, cynigir y byddai unrhyw offeryn statudol a fyddai'n diwygio'r tabl yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad Cenedlaethol.

5.7 O dan adran 3 (6) mae gan Gweinidogion Cymru y pŵer i wneud darpariaeth, drwy orchymyn er mwyn pennu pa wastraff fydd yn cael ei ailgylchu; ei baratoi i'w ailddefnyddio; ei gompostio er mwyn cyrraedd y targedau a nodir yn yr adran hon. Gan mai mater technegol yw hwn, rhagwelir y byddai unrhyw offeryn statudol a chaiff ei ddwyn ymlaen o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Cynulliad Cenedlaethol.

5.8 O dan adran 3 (8) (c) mae pŵer gan Weinidogion Cymru i bennu, drwy Orchymyn, gwastraff arall y caniateir ei gynnwys yn y diffiniad o wastraff trefol awdurdodau lleol ar gyfer y targedau o dan adran 3. Gan fod hwn yn fater technegol, cynigir y dylid dwyn unrhyw orchymyn ymlaen o dan y weithdrefn negyddol.

5.9 Mae Adran 4 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu targedau eraill, yn ychwanegol at y rhai a osodir o dan Adran 3, yn ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cael pennu dangosyddion perfformiad penodol er mwyn mesur i ba raddau y mae awdurdod lleol yn llwyddo i gyrraedd unrhyw dargedau a osodir o dan adran 4. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cosbau ariannol i awdurdodau lleol os na chyrhaeddir y targed gwastraff. Gan fod y pwerau hyn yn ymwneud â gosod targedau gwastraff statudol eraill ynghylch gwastraff, a fyddai'n rhwymo awdurdodau lleol yn gyfreithiol, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

5.10 Mae Adran 5 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i fonitro ac archwilio cydymffurfiaeth â thargedau a osodir gan, neu o dan adrannau 3 a 4 o'r Mesur arfaethedig. O dan baragraffau (a) i (f), byddai'r rheoliadau hyn yn gallu gwneud darpariaeth ynghylch y dull o asesu cydymffurfiaeth; y trefniadau monitro ac archwilio; y pwerau i archwilwyr gael mynediad er mwyn archwilio cydymffurfiaeth; y gofyniad i awdurdodau lleol gadw cofnodion a darparu gwybodaeth; a chyhoeddi gwybodaeth am dargedau. Materion technegol yw'r rhain ac maent

ymwneud â monitro a chydymffurfio â'r targedau. Cynigir felly ddefnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer gwneud y rheoliadau hyn.

5.11 Mae Adran 5 (1) (g) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i osod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os metha'r awdurdod â chydymffurfio ag unrhyw un o'r rheoliadau a wneir o dan adran 5. Gan fod y pŵer yn rhoi'r posibilrwydd i Weinidogion Cymru osod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau monitro ac archwilio cydymffurfio â'r targedau, cynigir defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud y rheoliadau. Mae hyn yn gyson â'r pwerau a nodir o dan adran 6 (gweler isod) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cosbau.

5.12 Mae adran 6 (2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi cosbau i awdurdodau lleol am fethu â chyrraedd targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3 neu dargedau gwastraff eraill o dan adran 4. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i bennu swm y gosb, rheolau i'w dilyn wrth gyfrifo swm y gosb ac agweddau eraill ar y drefn gosbi. Mae'r pwerau hyn yn ymwneud â materion manwl y bydd yn ofynnol eu hadolygu a'u diwygio'n gyfnodol, ac felly mae'n fwy priodol eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur. Bwriedir ymgynghori hefyd maes o law ynghylch y cynigion i roi cosbau am fethu â chyrraedd y targedau. Gan fod y pwerau hyn yn rhoi'r posibilrwydd i Weinidogion Cymru osod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol am fethu â chyrraedd y targedau, mae angen i Gynulliad Cymru wneud gwaith craffu manylach. Cynigir felly y byddai'r pwerau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Tirlenwi**

5.13 Mae Adran 9 (1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â gwahardd neu reoleiddio gollwng rhai mathau penodol o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Yn yr achos hwn, gofynnir am bŵer galluogi eang. Mae adran 10 yn rhagnodi bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 9 yn cynnwys pŵer i ddarparu ar gyfer sancsiynau sifil ar gyfer tramgwyddau a grëir o dan adran 9.

5.14 Byddai unrhyw gynigion yn ymwneud â gwahardd neu gyfyngu ar dirlenwi yn seiliedig ar, ymhlith pethau eraill, ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA ynghylch yr opsiynau posibl o ran cyflwyno cyfyngiadau ar dirlenwi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ategu'r gwaith a wnaed gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ar ran Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ystyried effeithiau amgylcheddol, economaidd ac ymarferol gwaharddiadau tirlenwi. Byddai unrhyw waharddiad neu gyfyngiadau arfaethedig ar dirlenwi yn seiliedig ar y Cynllun arfaethedig ynghylch Casglu, Seilwaith a Sectorau'r Farchnad. Caiff y Cynllun Sector hwn ei baratoi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ochr yn ochr â Strategaeth Wastraff newydd Cymru *Tuag at Ddyfodol Diwastraff,* a fydd yn nodi ac yn asesu'r trefniadau casglu gwastraff, y

seilwaith a'r marchnadoedd sydd eu hangen i gyrraedd targedau'r Strategaeth honno.

5.15 O ystyried ehangder y pŵer sydd ei angen a phwysigrwydd darpariaethau'r is-ddeddfwriaeth, a allai arwain at wahardd neu osod cyfyngiadau ar waredu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi, cynigir mai gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol fyddai'r weithdrefn briodol i'w defnyddio.

**Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

5.16 Mae Adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p.16) yn galluogi Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn diwygio'r ddarpariaeth honno i'w gwneud yn gymwys i Loegr yn unig, ac mae'n gwneud darpariaeth arbennig ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth sydd yn y Mesur yn ailddatgan llawer o adran 54, ond mae hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch paratoi cynlluniau ffioedd a chodi tâl fel modd o adennill y costau rhesymol a achosir gan yr awdurdod gorfodi wrth gyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau.

5.17 Adran 12 (1) o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau o ddisgrifiad penodedig baratoi cynlluniau ar gyfer rheoli a gwaredu'r gwastraff a gynhyrchir yn ystod gwaith penodedig yng Nghymru sy'n ymwneud ag adeiladu a dymchwel. Gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r rhai sy'n gorfod gwneud cynlluniau gydymffurfio â'r cynlluniau hynny. Mae isadran (2) yn nodi'r mathau o ddarpariaethau y gellir eu gwneud o dan y rheoliadau ac mae isadran (3) yn ei gwneud yn bosibl i'r rheoliadau fod yn gymwys i brosiectau drwy gyfeirio at gostau neu ffactorau eraill.

5.18 Mae adran 13 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch tramgwyddau a chosbau am dorri gofynion y rheoliadau o dan adran 12.

5.19 Mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i baratoi dadansoddiad cost a budd ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae'n debygol y cyhoeddir dogfen ymgynghorol gyda rheoliadau drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol yn ddiweddarach yn 2010. Mae angen felly i unrhyw gynllun ffioedd a chodi tâl sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle adlewyrchu'r penderfyniadau a wneir yn fwy cyffredinol ar Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle o ganlyniad i ddatblygu'r polisi uchod. Ystyrir felly bod natur eang y pŵer a nodir yn y Mesur arfaethedig yn briodol yn yr amgylchiadau hyn.

5.20 Cynigir defnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn achos unrhyw reoliadau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle sy'n deillio o

ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Mae hyn yn gyson â'r pwerau cyfredol o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Mesur arfaethedig, ac fe'i darperir yn Rhan 2 o'r Memorandwm hwn.

# RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 7. Opsiynau

7.1 Mae nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion polisi sy'n sail ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig. Fe'u nodir isod:

**Bagiau Siopa Untro**

- ***Opsiwn 1*** – Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol.
- ***Opsiwn 2*** – Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i gymryd rhan mewn cynllun achrededig.
- ***Opsiwn 3*** – Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i dalu'r arian at ddibenion, neu i sefydliadau, penodedig.
- ***Opsiwn 4*** – Sefydlu cytundeb gwirfoddol gyda manwerthwyr i drosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol a phrosiectau eraill (fel y rheini sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd neu les).

**Targedau gwastraff**

- ***Opsiwn 1*** - Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol.
- ***Opsiwn 2*** – Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, gwneud y targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yn statudol a rhoi cosbau ariannol i awdurdodau lleol sy'n methu â chyrraedd y targedau.

**Tirlenwi**

- ***Opsiwn 1*** – Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol.
- ***Opsiwn 2*** – Drwy'r Mesur arfaethedig, darparu pŵer i Weinidogion Cymru wahardd neu osod cyfyngiadau ar anfon rhai mathau o wastraff i safleoedd tirlenwi.

**Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

- ***Opsiwn 1*** - Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol.
- ***Opsiwn 2*** – Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn syml o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.
- ***Opsiwn 3*** - Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn gynhwysfawr o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

7.2 Nodir costau a buddion yr opsiynau uchod yn y rhan nesaf o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 8).

**Ystyried yr opsiynau**

7.3 Mae'r opsiynau a oedd yn destun y dadansoddiad cost a budd yn ffrwyth asesiad trylwyr o'r dull mwyaf priodol o gyflawni'r nodau polisi arfaethedig. Fel rhan o'r gwaith polisi a oedd yn llywio datblygiad y Mesur, nodwyd amrywiaeth o opsiynau a allai, o bosibl, gyflawni nodau polisi y pedwar maes sydd yn y Mesur arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau heblaw am ddeddfwriaeth. Yn ystod haf 2009, bu dau weithdy, yn cynnwys ystod o swyddogion polisi Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnal asesiad ansoddol o'r holl opsiynau posibl hyn. Roedd hyn yn golygu sgorio pob opsiwn ar sail cyfres y cytunwyd arni o feini prawf wedi'u pwysoli. Aed ati i gynnal asesiad ansoddol o'r opsiynau a sgoriodd uchaf, yn ogystal â'u hystyried yn fwy manwl, fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r opsiynau hyn wedi'u hesbonio'n fwy manwl yn adran 8 y Memorandwm Esboniadol hwn.

*Bagiau Siopa Untro*

7.4 Y nod polisi o ddefnyddio'r enillion a ddaw o godi tâl am fagiau siopa untro yw sicrhau bod y dull o weithredu'r tâl yn dryloyw ac ennill cefnogaeth y cyhoedd iddo. Ystyriwyd amryw o opsiynau ar y cam asesu ansoddol, yn ogystal â'r rheini a nodir ym mharagraff 7.1 ac yn adran Costau a Buddion y Memorandwm Esboniadol hwn. Roedd y gwahanol opsiynau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwahanol fecanweithiau y gellid eu defnyddio i gasglu'r enillion o daliadau am fagiau siopa untro. Ystyriwyd nifer o opsiynau yn y dadansoddiad cychwynnol, gan gynnwys:

- Bod awdurdodau lleol yn casglu'r derbyniadau o'r tâl ac yn gwario'r arian yn eu hardaloedd;
- Bod corff trydydd parti yn casglu'r derbyniadau, yn eu gweinyddu a'u gwario;
- Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu'r enillion ac yn trosglwyddo'r arian i gorff trydydd parti i'w weinyddu a'i wario.

7.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn mai cytundebau gwirfoddol (Opsiwn 4) yw'r dull mwyaf priodol o gyflawni'r nodau polisi, gyda manwerthwyr yn trosglwyddo'r enillion net o daliadau i brosiectau amgylcheddol a phrosiectau eraill. Dyma hefyd fyddai'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng y costau a'r buddion posibl. Serch hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd o'r farn y byddai'n briodol i Weinidogion Cymru gael y pŵer, drwy'r Mesur arfaethedig hwn, i osod dyletswydd ar fanwerthwyr i drosglwyddo'r enillion net o daliadau (Opsiwn 3) petai cytundebau gwirfoddol yn methu â sicrhau canlyniadau boddhaol.

*Targedau Gwastraff*

7.6 Nod polisi yr elfen targedau gwastraff yn y Mesur arfaethedig yw sicrhau mwy o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio, ynghyd â datblygu arferion mwy cynaliadwy o ran rheoli gwastraff. Mae nifer o ymyriadau polisi eisoes ar waith i gefnogi'r nodau polisi hyn, gan gynnwys darparu cymorth ariannol i ddatblygu cyfleusterau ailgylchu, y Grant Rheoli

Gwastraff Cynaliadwy, Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 a'r Dreth Tirlenwi. Yn ogystal â'r ddau opsiwn sydd wedi'u nodi ym mharagraff 7.1 ac Adran 8 y Memorandwm Esboniadol hwn, roedd yr asesiad ansoddol o'r opsiynau polisi hefyd yn ystyried darparu cyllid ychwanegol a mecanweithiau anstatudol eraill i annog cydymffurfiaeth â'r targedau arfaethedig.

7.7 Byddai'r opsiwn o wneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol yn golygu y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddibynnu ar yr ymyriadau polisi presennol i sicrhau cynnydd sylweddol yn y cyfraddau ailgylchu a chompostio ar gyfer gwastraff trefol. Yn ogystal â hyn, gallai Llywodraeth y Cynulliad bennu targedau statudol ar gyfer ailgylchu a chompostio o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, er y byddai hynny heb unrhyw sancsiynau pe na byddid yn cydymffurfio â hwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio'r ail opsiwn oherwydd byddai'n sicrhau bod y targedau gwastraff statudol yn cael eu hategu gan sancsiynau priodol pe na byddid yn cydymffurfio â hwy. Fel a nodwyd uchod, dylid ystyried targedau statudol yn rhan o gyfres o ymyriadau i gyflawni nod polisi Llywodraeth y Cynulliad o drawsnewid y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwastraff.

*Tirlenwi*

7.8 Mae'r nodau polisi cyffredinol sy'n sylfaen i'r darpariaethau Tirlenwi yn y Mesur arfaethedig yn debyg i'r nodau polisi sy'n sylfaen i'r targedau statudol ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio. Mae'r nodau hyn yn cynnwys, ymysg eraill, datblygu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff a defnyddio adnoddau materol yn fwy effeithlon. Fel yn achos y darpariaethau ar gyfer targedau gwastraff, mae nifer o ymyriadau polisi eisoes ar waith i hyrwyddo'r nodau polisi hyn. O gofio'r cefndir hyn, bu Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried amryw o ddulliau gweithredu yn y dadansoddiad ansoddol, yn ychwanegol at y rheini sydd wedi'u nodi ym mharagraff 7.1 ac Adran 8 y Memorandwm Esboniadol hwn, er mwyn cyflawni'r nodau polisi dan sylw. Roedd y rhain yn cynnwys;

- Darparu grantiau i roi sbardun i ddatblygu cyfleusterau ailbrosesu;
- Cynyddu'r cymorth ariannol i ddarparwyr gwasanaethau, ac felly cynyddu eu gallu i ddarparu cyngor;
- Cyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau y cyfyngir ar y deunyddiau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

7.9 Byddai'r opsiwn o wneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol yn golygu y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddibynnu ar yr ymyriadau polisi presennol megis darparu cymorth ariannol i ddatblygu cyfleusterau ailgylchu, rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Dreth Tirlenwi. Yn ogystal â hyn, gallai Llywodraeth y Cynulliad wahardd neu gyfyngu ar ollwng gwastraff sy'n gallu achosi llygredd amgylchedd mewn safleoedd tirlenwi, gan ddefnyddio pwerau o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Serch hynny ni fyddai rhai mathau o wastraff, a allai fod yn destun gwaharddiad neu gyfyngiad, yn gallu achosi llygredd amgylcheddol ac mae nodau polisi Llywodraeth y Cynulliad yn mynd y tu hwnt i reoli gwastraff. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y bydd yr ail opsiwn, sef

y pŵer i wahardd neu osod cyfyngiadau ar anfon rhai mathau penodedig o wastraff i safleoedd tirlenwi, yn hyrwyddo rhagor ar ailgylchu, yn helpu i ddatblygu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff ac yn annog defnydd mwy o effeithlon o adnoddau materol. Byddai dull gweithredu o'r fath yn ategu ac yn cefnogi'r ystod bresennol o ymyriadau polisi yn y maes hwn.

*Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle*

7.10 Nod polisi'r darpariaethau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yw sicrhau bod mwy o wastraff o'r sector adeiladu a dymchwel yn cael ei ailgylchu a'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mae nifer o ymyriadau polisi eisoes ar waith i gefnogi'r nod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cymhellion treth tirlenwi ar gyfer gwastraff peryglus, gwastraff nad yw'n beryglus a gwastraff anadweithiol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido cyrff i hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff yn y sector Adeiladu a Dymchwel. Mae'r cyrff hyn yn cydweithio i helpu cynyddu cyfraddau'r rheini nifer sy'n llunio Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (sydd ar hyn o bryd yn wirfoddol) ac yn cynorthwyo i ddatblygu seilwaith ailgylchu ar gyfer gwastraff y sector Adeiladu a Dymchwel. Mae mentrau polisi eraill ar y gweill wrth i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu'r Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel.

7.11 Yn ogystal â'r uchod, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer eisoes o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i wneud rheoliadau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru. Byddai'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd adeiladu a dymchwel penodol baratoi Cynlluniau i nodi sut y byddant yn cynllunio, lleihau ac ailgylchu gwastraff. Cyn bo hir bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar gynigion ar gynnwys y rheoliadau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle a sut y byddent yn gweithio yng Nghymru. Nid yw Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i gyflwyno cynllun codi ffioedd a chodi tâl. Felly, mae'n cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod swyddogaethau monitro a gorfodi'r awdurdod gorfodi yn derbyn digon o adnoddau i weithredu'n effeithlon.

7.12 O dan yr opsiwn o wneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol, gellid cyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru, ond yn absenoldeb cynllun ffioedd a thaliadau ni fyddai digon o adnoddau i sicrhau y cydymffurfir â chynlluniau o'r fath drwy drefniadau monitro a gorfodi effeithiol. Diben yr ail a'r trydydd opsiwn yw darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno cynllun codi ffioedd neu gynllun codi tâl. Byddai hyn yn golygu bod opsiwn polisi arall ar gyfer darparu adnoddau i fonitro a gorfodi Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle pe byddai Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu cyflwyno'r Cynlluniau hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio'r opsiwn bod y Mesur arfaethedig yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau codi ffioedd a chodi tâl (Opsiynau 2 a 3).

# 8. Costau a buddion

Mae costau a buddion y gwahanol opsiynau wedi'u nodi isod ar gyfer pedair prif ran y Mesur arfaethedig.

## 8.1 Bagiau Siopa Untro

### Cefndir

8.1.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig codi tâl am bob bag siopa untro. Y nod wrth godi'r tâl, y disgwylir iddo fod rhwng 5c a 15c y bag, yw lleihau effaith amgylcheddol bagiau siopa untro a helpu i annog newid ehangach yn ymddygiad defnyddwyr drwy eu cael i ailddefnyddio ac ailgylchu cynnyrch.

8.1.2 Mae'r ddarpariaeth hon yn ymdrin â'r hyn a fyddai'n digwydd i'r refeniw net a gesglir drwy godi tâl am fagiau siopa untro. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân yn cael ei baratoi i edrych ar y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â chodi'r tâl ei hunan.

8.1.3 Mae data o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau yn awgrymu bod oddeutu 8,500 o fanwerthwyr yng Nghymru a bod y mwyafrif o'r rheini yn darparu bagiau siopa untro am ddim i'w cwsmeriaid. O'r 8,500 o fanwerthwyr, mae oddeutu 250 yn cael eu cyfrif yn fusnesau mawr (â mwy na 50 o weithwyr). Mae'r 8,250 o fanwerthwyr sy'n weddill yn cael eu hystyried yn fusnesau bach a chanolig. Mae'r ffigur hwn yn amcangyfrif rhy isel o nifer y busnesau yr effeithir arnynt, gan nad yw'r Gofrestr ond yn nodi'r busnesau sydd uwchlaw'r trothwy TAW (â throsiant o £68,000 y flwyddyn).

### Diben ac Effaith a Fwriedir

8.1.4 Mae'r ddarpariaeth hon o'r Mesur yn rhan o bolisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r problemau gwastraff a sbwriel sy'n gysylltiedig â bagiau siopa untro.

### Sail Resymegol Ymyrraeth y Llywodraeth

8.1.5 Mae bagiau siopa untro'n achosi allanoldebau i gymdeithas y DU ar ffurf allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr wrth eu cynhyrchu a'u cludo a sbwriel ar ôl iddynt gael eu taflu. Drwy godi tâl am fagiau siopa untro bwriedir mynd i'r afael â'r allanoldeb.

### Opsiynau polisi dan ystyriaeth

8.1.6 Mae pedwar opsiwn wedi'u hystyried:

i. Gwneud Dim;
ii. Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i gymryd rhan mewn cynllun achrededig;

iii. Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i roi'r arian at ddibenion ac i sefydliadau penodedig;
iv. Sefydlu cytundeb gwirfoddol gyda manwerthwyr i drosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol a phrosiectau eraill (fel y rheini sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd neu les).

***Opsiwn 1 - Gwneud Dim***

8.1.7 O dan yr opsiwn hwn, bydd manwerthwyr yn gallu cadw unrhyw refeniw a gynhyrchir o godi tâl am fagiau siopa untro a defnyddio'r refeniw hwnnw fel y gwelant yn dda.

***Opsiwn 2 - Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i gymryd rhan mewn cynllun achredededig***

8.1.8 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn pennu parametrau eang a safonau a fydd, er enghraifft, yn ymdrin â'r modd y gall manwerthwyr ddyrannu'r refeniw net a gesglir drwy godi'r tâl, cyfran y refeniw net y bydd yn rhaid ei wario ar brosiectau yng Nghymru a'r gyfran o'r arian y bydd angen ei wario ar weinyddu'r cynllun.

8.1.9 Byddai disgwyl i fanwerthwyr neu sefydliadau baratoi a chyflwyno cynlluniau arfaethedig a fyddai'n bodloni'r parametrau hyn i Lywodraeth y Cynulliad (neu sefydliad annibynnol) ar gyfer eu hachredu. Byddai manwerthwyr yn cael yr opsiwn o gyflwyno eu cynllun eu hunain, cyflwyno cynlluniau ar y cyd â manwerthwyr eraill neu ymuno â chynllun achrededig sy'n bodoli eisoes. Cydnabyddir y byddai angen rhyw fodd i gael hyd i 'gynlluniau cyfatebol' ar gyfer manwerthwyr nad ydynt yn dymuno paratoi eu cynllun eu hunain, er mwyn iddynt allu ymuno â chynllun priodol.

***Opsiwn 3 - Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i roi'r arian at ddibenion ac i sefydliadau penodedig***

8.1.10 Bydd yr opsiwn hwn yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru osod dyletswydd ar fanwerthwyr i drosglwyddo'r refeniw net a gesglir o godi tâl am fagiau siopa untro i ddibenion neu sefydliadau penodedig.

***Opsiwn 4 - Sefydlu cytundeb gwirfoddol gyda manwerthwyr i drosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol a phrosiectau eraill (fel y rheini sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd neu les)***

8.1.11 O dan yr opsiwn hwn, byddai manwerthwyr yn cael eu hannog i drosglwyddo unrhyw refeniw net a gesglir drwy'r tâl i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill, e.e. elusennau cofrestredig neu gyrff anllywodraethol.

**Costau**

8.1.12 Ceir peth tystiolaeth ynghylch costau a buddion codi tâl am fagiau siopa untro yn yr astudiaethau o'r ardoll a godwyd ar fagiau plastig yn Iwerddon, Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Ardoll Amgylcheddol arfaethedig ar Fagiau Plastig yn yr Alban, a'r dadansoddiad o effaith ardoll arfaethedig ar fagiau siopa untro yn Awstralia. Fodd bynnag, nid yw'r opsiynau a ystyriwyd (neu a ddadansoddwyd o leiaf) yn y gwledydd hynny yr un fath â'r opsiynau sydd dan sylw yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

8.1.13 Yn Iwerddon, cesglir yr ardoll gan y Comisiynwyr Refeniw drwy system debydu electronig a oedd wedi'i sefydlu cyn i'r ardoll ar fagiau siopa gael ei chyflwyno. Cynigiwyd system debyg yn Awstralia. Yn yr Alban, cynigiwyd y dylai awdurdodau lleol gasglu'r tâl neu sefydlu 'corff bilio canolog' i weinyddu'r tâl ar ran yr holl Awdurdodau yn yr Alban.

8.1.14 Felly, er bod peth gwybodaeth ynghylch costau'r gwahanol systemau ar gyfer casglu a dyrannu'r arian a godir trwy'r tâl, ni cheir unrhyw ymdriniaeth benodol o'r opsiynau sydd dan ystyriaeth yma. Mae'r costau canlynol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael felly, ac ar nifer o ragdybiaethau, a'r bwriad yw rhoi braslun o faint y costau sydd ynghlwm â'r gwahanol opsiynau. Maent yn adlewyrchu costau gweinyddu, costau gorfodi a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r opsiynau yn y Dadansoddiad Cost a Budd, gan gynnwys y dull gweithredu sydd yn y Mesur arfaethedig (Opsiwn 3).

***Opsiwn 1 - Gwneud Dim***

8.1.15 Yr opsiwn gwaelodlin yw hwn, ac nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Bydd yn ofynnol i fanwerthwyr godi tâl am fagiau siopa untro (bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân yn ymdrin â chostau a buddion hyn) ond byddant yn gallu defnyddio'r refeniw fel y mynnant. Gallai hyn gynnwys cadw'r refeniw at eu dibenion eu hunain.

***Opsiwn 2 - Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i gymryd rhan mewn cynllun achrededig***

8.1.16 Mae llawer o ansicrwydd ynghylch cost yr opsiwn hwn, oherwydd anhawster rhagweld nifer y manwerthwyr a fyddai'n dewis paratoi eu cynlluniau eu hunain, y nifer a fyddai'n ymuno â chynllun manwerthwr arall a'r nifer a fyddai'n peidio â chydymffurfio o gwbl. Gan hynny, nid yw'r parametrau ar gyfer cynllun o'r fath wedi'u pennu eto.

8.1.17 Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi ysgogi nifer o gynlluniau achrededig, er bod y rhain yn tueddu i fod wedi'u hanelu at amddiffyn defnyddwyr yn hytrach na sicrhau manteision amgylcheddol. Er hynny, mae gwerthusiad o un o gynlluniau'r Swyddfa Masnachu Teg, sef y Cynllun Cymeradwyo Codau Defnyddwyr, yn rhoi awgrym bras o'r gost i fusnesau o lunio a chyflwyno cynigion ar gyfer cynlluniau achrededig. Yn ôl y gwerthusiad, mae'n costio rhwng £1,000 a £2,500 ymlaen llaw i lunio a chyflwyno cynllun.

8.1.18 Fel y nodir uchod, mae'n anodd rhagweld nifer y manwerthwyr a fydd yn dewis paratoi eu cynllun eu hunain a'r nifer a fydd yn ymuno â chynllun manwerthwr arall neu'n anwybyddu'r gofyniad yn llwyr. Tybir y bydd manwerthwyr mawr yn fwy tebygol na manwerthwyr bach a chanolig o feddu ar yr adnodd a'r arbenigedd angenrheidiol i baratoi/cyflwyno cynllun priodol. At ddibenion dangosol, os cymerwn y bydd 25% o'r manwerthwyr mawr, 5% o'r manwerthwyr canolig ac 1% o fanwerthwyr bach yn dewis paratoi a chyflwyno cynllun i'w achredu, amcangyfrifir y byddai hynny'n costio rhwng £155,000 a £385,000 i'r manwerthwyr. O ystyried y gall fod

angen i'r cynllun gynnwys dull ar gyfer derbyn y refeniw net oddi wrth fanwerthwyr eraill (y rhai nad ydynt yn cyflwyno'u cynllun eu hunain), mae'n fwy na phosibl y bydd y gost yn nes at y swm uchaf (neu hyd yn oed yn uwch).

8.1.19 Yn ychwanegol at yr uchod, byddai'r manwerthwyr sy'n weddill yn wynebu'r gost o gael hyd i gynllun addas i ymuno ag ef, a chost y trafodion sy'n gysylltiedig â throsglwyddo refeniw net y tâl a godir am fagiau siopa untro i weithredydd y cynllun. Amcangyfrifir y byddai hyn oddeutu £495,000. Tybir felly y byddai'r opsiwn hwn yn costio cyfanswm o rhwng £650,000 ac £880,000 i fanwerthwyr yn y flwyddyn gyntaf.

8.1.20 Yn y blynyddoedd dilynol, tybir y bydd costau gweinyddol y cynllun yn debyg i'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau a dibenion amgylcheddol yn yr opsiwn dyletswydd (gweler isod).

8.1.21 Unwaith y bydd y cynlluniau wedi'u cyflwyno, bydd rhaid i Lywodraeth y Cynulliad (neu sefydliad annibynnol) asesu a gwirio pob cynllun i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r parametrau a sefydlwyd. A chymryd y bydd angen Uwch Swyddog Gweithredol llawn amser a chwarter o amser swyddog ar y raddfa G7 i gyflawni'r dasg hon, amcangyfrifir y bydd yr adnodd yn costio oddeutu £60,000 y flwyddyn.

8.1.22 Bydd angen i'r manwerthwyr gael eu gwneud yn ymwybodol o'r dull gweithredu cynlluniau achrededig a bydd angen rhyw ddull o baru cynlluniau achrededig â manwerthwyr. Gellid gwneud hyn drwy dudalen we arbennig a fyddai'n rhoi gwybodaeth a chanllawiau am y cynllun, neu drwy becynnau gwybodaeth. Amcangyfrifir y gallai gostio hyd at £80,000 i hysbysu'r manwerthwyr o'r hyn a ddylai ddigwydd gyda refeniw net y tâl. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar 10% o'r gyllideb £800,000 a ddarparwyd i'r awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gwaharddiad ar ysmygu, a oedd yn cynnwys elfen ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth arfaethedig ym mhlith busnesau.

8.1.23 Yn olaf, mae cost yn gysylltiedig â monitro a gorfodi cyfranogiad y manwerthwyr yn y cynlluniau. Disgwylir i'r costau monitro fod yn uwch o dan y cynllun hwn nag o dan y ddyletswydd neu'r opsiynau gwirfoddol, oherwydd ei bod yn anos gorfodi'r opsiwn. Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am orfodi'r cynlluniau sicrhau bod y manwerthwyr a) yn rhan o'r cynllun a b) yn cydymffurfio'n iawn â thelerau'r cynllun. Mae perygl y bydd manwerthwyr nad ydynt yn rhan o sefydliad manwerthwyr neu nad ydynt yn ddigon mawr i sefydlu eu cynllun eu hunain yn peidio â chydymffurfio o gwbl. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'n rhaid canolbwyntio ar y busnesau bach niferus (am gost) wrth orfodi'r opsiwn hwn, neu byddai'n rhaid derbyn y gallai llawer o fanwerthwyr llai gadw unrhyw refeniw a gesglir drwy'r tâl. Disgwylir mai'r awdurdodau lleol fydd yn ymgymryd â'r swyddogaeth monitro a gorfodi mewn perthynas â'r tâl, drwy eu gweithgareddau safonau masnach (pwysau a mesurau). Gofynnwyd i Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu gwybodaeth am gost bosibl cyflawni'r swyddogaeth hon, ac mae wrthi'n ystyried y goblygiadau o ran costau ar hyn o bryd. A

chymryd bod y swyddogaeth orfodi'n cymryd 20% o amser swyddog awdurdod lleol ym mhob un o'r 22 awdurdod, amcangyfrifir y bydd yn costio oddeutu £175,000.

***Opsiwn 3 - Drwy'r Mesur arfaethedig, gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i roi'r arian at ddibenion ac i sefydliadau penodedig***

8.1.24 Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr drosglwyddo refeniw net y tâl a godir am fagiau siopa untro at ddibenion neu i sefydliadau penodedig.

8.1.25 Tybir y bydd y sefydliadau penodedig yn bodoli eisoes ac, yn hynny o beth, ni fydd unrhyw gostau yn gysylltiedig â'u sefydlu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd costau gweinyddol yn gysylltiedig â derbyn ac yna dyrannu'r arian a ddaw oddi wrth y manwerthwyr.

8.1.26 Cyn gallu amcangyfrif maint y costau hyn, rhaid ystyried a oes modd ymgorffori'r gwaith o dderbyn a dyrannu'r tâl am fagiau siopa untro yng ngweithgareddau cyfredol yr awdurdodau lleol, ynteu a fydd angen adnoddau gweinyddol ychwanegol. Mae ffynonellau megis 'Charity Finance' a 'Charity.org' yn awgrymu bod costau nodweddiadol rheoli a gweinyddu elusennau rhwng 5% a 13% o'r derbyniadau (nid yw hyn yn cynnwys cost gweithgareddau codi arian). O fabwysiadu'r amrediad hwn, amcangyfrifir y bydd cost gweinyddu'r refeniw net o fagiau siopa untro rhwng £130,000 a £385,000. Ni fwriedir i'r ddyletswydd hon achosi unrhyw gostau ychwanegol i'r cyrff penodedig; yn hytrach, byddant yn gallu didynnu unrhyw gostau gweinyddol o'r refeniw net a dderbynnir.

8.1.27 Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 eisoes yn cynnwys pŵer sy'n mynnu bod manwerthwyr yn cofnodi unrhyw refeniw a gesglir drwy godi tâl am fagiau siopa untro a'r defnydd a wneir o'r refeniw net hwnnw. Yr unig gostau y mae'r ddarpariaeth hon yn eu hachosi i fanwerthwyr yw'r rhai sy'n gysylltiedig â dewis prosiect, elusen neu sefydliad i dderbyn yr arian a chost y trafodion sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r arian.

8.1.28 Tybir y byddai gan y manwerthwyr mawr systemau til digon soffistigedig i gofnodi nifer y bagiau untro a ddarperir, gan wneud y dasg o gyfrifo'r refeniw net i'w anfon i'r prosiect/elusen/corff anllywodraethol yn gymharol syml. Ar y llaw arall, nid oes disgwyl i fusnesau bach a chanolig fod â systemau o'r fath, ac o ganlyniad gall fod angen iddynt gofnodi nifer y bagiau â llaw yn ogystal â chyfrifo'r refeniw i'w anfon at elusen, prosiect neu gorff anllywodraethol. Rhagdybir y codir ffi o £15 ar fanwerthwr mawr am bob 'trosglwyddiad' a £30 am bob 'trosglwyddiad' ar fanwerthwr bach a chanolig (D.S amcangyfrifon ceidwadol yw'r rhain, o gymharu â'r ffigurau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Alban). Rhagdybir hefyd y bydd disgwyl i fanwerthwr wneud 2 'drosglwyddiad' (i'r corff a ddewisir ganddo) bob blwyddyn. Ar y sail hon, byddai'r gost i fanwerthwyr, oherwydd dyletswydd statudol i drosglwyddo refeniw net y tâl at ddibenion neu i sefydliadau penodedig, oddeutu £505,000.

8.1.29 Bydd nifer o gostau i Lywodraeth y Cynulliad yn gysylltiedig â'r ddyletswydd ar fanwerthwyr i drosglwyddo refeniw net y tâl at ddibenion neu i sefydliadau penodedig. Yn gyntaf, bydd costau ynghlwm â monitro a gorfodi'r cynllun. Disgwylir mai'r awdurdodau lleol a fyddai'n monitro a gorfodi'r tâl ond mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall. A bwrw y byddai monitro a gorfodi'r taliadau'n cymryd 5% o swydd gyfwerth ag amser llawn mewn awdurdod lleol, byddai'r gost oddeutu £44,000 y flwyddyn. Mae'n bosibl y gallai cydweithio rhwng awdurdodau lleol leihau'r gost hon. Yn ail, bydd rhai costau cyfathrebu yn gysylltiedig â’r cynnig, yn enwedig wrth weithio gyda manwerthwyr a derbynwyr posibl enillion net y tâl. Amcangyfrifir y bydd y rhain oddeutu £40,000 yn y flwyddyn gyntaf.

8.1.30 Yn olaf, mae cost i Lywodraeth y Cynulliad yn gysylltiedig â pharatoi'r ddeddfwriaeth a fydd yn cyflwyno'r ddyletswydd hon. Er bod y gwaith yn gallu cael ei gyflawni gan y staff presennol mae'n gost cyfle serch hynny, oherwydd gallai'r aelodau hynny o staff fod wedi gwneud gwaith arall. Amcangyfrifwyd y bydd cyfanswm y costau staff o gyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro oddeutu £180,000. Yr amcangyfrif uchaf o gost cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yw oddeutu chwarter cyfanswm y costau staff. Ar y sail honno, byddai cost llunio'r ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno'r ddyletswydd oddeutu £45,000.

***Opsiwn 4 - Sefydlu cytundeb gwirfoddol gyda manwerthwyr i drosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol a phrosiectau eraill (fel y rheini sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd neu les)***

8.1.31 Gan mai opsiwn gwirfoddol yw hwn, mae'n anodd rhagweld faint o fanwerthwyr fydd yn trosglwyddo'r refeniw net o'r cynllun i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill (er enghraifft, rhai sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd neu les). Mae'r ansicrwydd hwn yn ei gwneud yn anodd cael amcangyfrif cywir o faint y costau cysylltiedig.

8.1.32 Bydd yr opsiwn yn achosi cost i'r manwerthwr, oherwydd bydd angen canfod a dewis prosiect i dalu'r arian iddo a bydd cost yn gysylltiedig â throsglwyddo'r arian wedyn hefyd. Rhagdybir y bydd y gost i'r manwerthwr yr un faint â chost yr opsiwn dyletswydd, (h.y. £15 y trosglwyddiad i fanwerthwr mawr a £30 y trosglwyddiad i fanwerthwr bach neu ganolig); fodd bynnag, gan mai opsiwn gwirfoddol yw hwn ac nad oes disgwyl i bob manwerthwr gymryd rhan, disgwylir i gyfanswm y gost fod yn is na'r opsiwn dyletswydd. Yn ychwanegol, hwyrach y bydd rhai manwerthwyr eisoes â pherthynas gydag elusennau neu gyrff eraill ac y byddant, o ganlyniad, yn osgoi'r costau ychwanegol a wynebir wrth gael hyd i brosiectau perthnasol a throsglwyddo'r arian iddynt. At ddibenion dangosol, os rhagdybir bod 80% o fanwerthwyr mawr a 25% o fanwerthwyr bach a chanolig yn dewis rhoi refeniw net y tâl at ddibenion amgylcheddol, bydd yn costio oddeutu £130,000 y flwyddyn. Pe bai'r holl fanwerthwyr yn dewis rhoi'r refeniw net at ddibenion amgylcheddol amcangyfrifir y byddai'r gost yr un faint â chost yr opsiwn dyletswydd (h.y. oddeutu £505,000 y flwyddyn). Yn amlwg, pe na bai unrhyw fanwerthwr yn dewis rhoi'r arian tuag at ddibenion neu brosiectau amgylcheddol, ni fyddai unrhyw gost.

8.1.33 Bydd unrhyw opsiwn gwirfoddol sy'n ceisio 'annog' y 20-50 manwerthwr mwyaf yng Nghymru i roi refeniw net y bagiau siopa untro i brosiect yn lleihau i'r eithaf y gost i'r manwerthwyr (yn enwedig manwerthwyr bach a chanolig) ond yn cael llai o effaith o ran maint y refeniw net a roddir at ddibenion amgylcheddol.

8.1.34 Yn yr un modd â'r opsiwn dyletswydd, rhagdybir y bydd y prosiectau eisoes yn bodoli ac na fydd unrhyw gostau sefydlu i'w talu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd costau gweinyddol parhaus yn gysylltiedig â derbyn, ac yna dyrannu, yr arian a drosglwyddir gan y manwerthwyr. Fel y nodir uchod, awgrymir mai costau nodweddiadol rheoli a gweinyddu elusen yw rhwng 5% a 13%. Yn gyffredinol, disgwylir y bydd manwerthwyr mawr yn fwy tebygol o roi refeniw net y tâl i gyrff megis elusennau. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynnydd blynyddol yng nghostau gweinyddu'r prosiectau yn wahanol iawn i'r cynnydd yng nghostau'r opsiwn dyletswyddd. Pe bai'r holl fanwerthwyr yn dewis rhoi refeniw net y tâl at ddibenion amgylcheddol, byddai'r costau gweinyddol yr un faint â chostau'r opsiwn dyletswyddd. Ar y llaw arall, pe na bai unrhyw fanwerthwr yn rhoi'r refeniw net at ddibenion amgylcheddol, ni fyddai'r elusennau a phrosiectau etc yn wynebu unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol. Amcangyfrifir felly bod costau gweinyddol yr opsiwn hwn rhwng £0 a £385,000.

8.1.35 Er y bydd peth monitro ar lefel y refeniw a drosglwyddir i brosiectau amgylcheddol o hyd, mae'n annhebygol y bydd y costau mor uchel â'r opsiynau blaenorol. Disgwylir na fydd unrhyw gostau gorfodi i'w talu, oherwydd nad oes angen 'plismona' cynllun gwirfoddol.

8.1.36 Rhagdybir, o dan yr opsiwn gwirfoddol, y bydd yn rhaid neilltuo cyfran o'r gyllideb gyfathrebu gyfan i annog manwerthwyr i drosglwyddo'r refeniw net a gesglir drwy godi tâl am fagiau siopa untro i brosiectau, elusennau neu gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Eto, rhagdybir y bydd y gost yn £80,000.

***Crynodeb o'r Costau***

8.1.37 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o’r costau gweinyddu, cost gorfodi a chostau eraill a fyddai’n codi yn sgil pob opsiwn. Fel y nodir uchod, gwnaed nifer o ragdybiaethau wrth gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn, gyda'r bwriad o ddangos, yn fras, faint fydd pob opsiwn yn ei gostio. Mae amrediad y costau ar gyfer yr opsiwn gwirfoddol yn gymharol eang, gan adlewyrchu'r ansicrwydd mawr ynghylch nifer y manwerthwyr a fyddai'n dewis trosglwyddo refeniw net y tâl bagiau untro i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill. Yn y pen uchaf (h.y. gan ragdybio bod bron i 100% o fanwerthwyr yn trosglwyddo'r arian i brosiect), mae'r costau'n debyg i'r opsiwn dyletswydd, a'r unig wahaniaethau fydd y costau monitro a gorfodi a chost cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

**Tabl 1: Tabl Crynodeb o'r Costau - Costau'r Flwyddyn 1af**

| £ miloedd | Gwneud dim | Cynllun Achrededig | Opsiwn 'Dyletswydd' | Opsiwn 'Gwirfoddol' |
|---|---|---|---|---|
| Costau Gweinyddu/Gorfodi i Fusnesau/Prosiectau | | | | |
| Cost i'r Manwerthwyr | - | 650 - 880 | 505 | 0 – 505 |
| Cost i'r Elusennau/Prosiectau | - | - | 150 - 385 | 0 – 385 |
| Costau Gweinyddu/Costau Eraill i'r Sector Cyhoeddus | | | | |
| Gweinyddu gan LICC | - | 40 | 45 | - |
| Cyfathrebu gan LICC | - | 80 | - | - |
| Monitro/Gorfodi gan Awdurdodau Lleol | - | 175 | 45 | - |
| **Cyfanswm** | **-** | **945 - 1,145** | **740 – 975** | **0 – 890** |
| Gwerth Net Presennol (£ miliynau) | - | 10.0 – 12.8 | 8.3 – 11.1 | 0 – 10.6 |

8.1.38 Mae llinell olaf y tabl yn dangos Gwerth Net Presennol yr opsiynau a ddisgowntiwyd dros 15 mlynedd. Defnyddiwyd cyfradd disgownt canolog Trysorlys EM, sef 3.5%, yn y cyfrifiadau.

8.1.39 At ddibenion dangosol, o dan yr opsiwn gwirfoddol, pe bai 80% o'r manwerthwyr mawr a 25% o'r manwerthwyr bach a chanolig yn trosglwyddo'r refeniw net i brosiectau amgylcheddol a phe bai'r refeniw net hwn yn 75% o'r cyfanswm o dan yr opsiwn dyletswydd, yna byddai'r Gwerth Net Presennol oddeutu £4.7 miliwn.

8.1.40 O ran costau parhaus neu reolaidd, mae'n rhesymol disgwyl, ar sail profiadau gwledydd eraill, y bydd y costau i fanwerthwyr (y gellid eu hadfer o enillion y tâl) yn gostwng yn raddol dros amser wrth i nifer y bagiau siopa untro y mae'r manwerthwyr yn eu gwerthu yn lleihau. Yn ogystal â hyn, mae'r costau i elusennau/prosiectau (eto, y gellid eu hadfer o'r enillion) yn debygol o leihau'n raddol. Byddai'r costau gweinyddu i Lywodraeth y Cynulliad a'r costau cyfathrebu yn lleihau'n sylweddol ar ôl y flwyddyn gyntaf. Serch hynny, mae'r costau monitro a gorfodi, sef y swyddogaethau y byddai'r awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, fwy na thebyg yn parhau ar lefel debyg i'r rheini a nodir ar gyfer costau'r flwyddyn gyntaf.

## Buddion

8.1.41 Mae gwaith modelu a ymgymerwyd mewn perthynas â chodi tâl am fagiau siopa untro wedi dangos y bydd y refeniw a gynhyrchir gan y tâl rhwng £1 miliwn a £3 miliwn (gan ddibynnu ar y swm a godir am bob bag ac effaith y tâl ar y galw am fagiau). O'r refeniw gros a gesglir, bydd manwerthwyr yn gallu didynnu unrhyw gostau a achoswyd yn sgîl codi'r tâl am fagiau siopa untro (er enghraifft, o newid systemau tiliau). Y refeniw net sy'n weddill sydd dan sylw yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

8.1.42 Os bydd manwerthwyr yn cadw'r refeniw net fel elw, bydd hynny o fudd i economi'r DU (a bwrw nad yw'r manwerthwyr dan berchnogaeth dramor ac

nad ydynt yn anfon yr elw hwnnw dramor) yn yr un modd â phe bai'r refeniw net yn cael ei ddefnyddio ar gyfer brosiectau a dibenion amgylcheddol yn y DU. Mae hyn yn awgrymu bod pob un o'r opsiynau â photensial tebyg i ddod â budd i gymdeithas y DU. Y budd net i gymdeithas y DU o'r opsiynau hyn wedyn fyddai'r gwahaniaeth rhwng y refeniw net a gesglir drwy'r tâl am fagiau siopa untro a chost dosbarthu'r refeniw net hwnnw.

8.1.43 Ar y sail honno, yr opsiwn isaf ei gost fyddai'n dod â'r fantais fwyaf i economi'r DU. Ar sail y dadansoddiad meintioledig, Gwneud Dim, yw'r opsiwn hwnnw, gan nad yw'n achosi unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, mae nifer o resymau pam nad yw hyn o anghenraid yn wir:

a. Os yw'r potensial am elw ychwanegol yn gwanhau'r cymhelliant i weithredu'n effeithlon – efallai y bydd manwerthwyr yn dymuno hyrwyddo'r defnydd o fagiau siopa untro er mwyn cynyddu eu helw, gan gynhyrchu’r allanoldebau negyddol sy’n gysylltiedig â bagiau siopa untro yn y broses;
b. Os yw'r gwariant ar brosiectau amgylcheddol yn achosi allanoldebau cadarnhaol - ar hyn o bryd nid yw'n amlwg pa ddefnydd fyddai'n cael ei wneud o unrhyw arian a gâi ei roi i unrhyw brosiect. Fodd bynnag, byddai disgwyl i brosiectau amgylcheddol sydd wedi’u cynllunio’n briodol esgor ar fanteision amgylcheddol cadarnhaol, ac yn yr achos hwnnw, byddai cyfiawnhad dros roi pwysoliad uwch i’r gwariant yn yr opsiynau lle byddai refeniw net y tâl yn cael ei drosglwyddo i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill;
c. Pwysoli ecwiti - yn gyffredinol, mae elw busnesau'n tueddu i gronni ym mhlith grwpiau mwyaf llewyrchus cymdeithas. Pe bai tystiolaeth bod y gwariant ar brosiectau amgylcheddol wedi cael effaith fwy ar grwpiau mwy difreintiedig neu dlotach cymdeithas, dylid addasu'r fantais i adlewyrchu hynny.

**Casgliad**

8.1.44 Ar yr wyneb, mae pob un o'r opsiynau'n cynnig yr un fantais bosibl i gymdeithas y DU oherwydd bydd refeniw net y tâl yn cael ei drosglwyddo i brosiect neu at ddiben amgylcheddol neu'n cael ei gadw gan y manwerthwr fel elw. Yn hynny o beth, yr opsiwn a fyddai'n rhoi'r budd mwyaf i economi'r DU fyddai'r opsiwn rhataf, sef Gwneud Dim/Parhau â’r Sefyllfa Bresennol (Opsiwn 1).

8.1.45 Fodd bynnag, nid yw hyn o anghenraid yn wir oherwydd gallai’r tâl fod yn gymhelliant i fanwerthwyr hyrwyddo bagiau untro, gan achosi allanoldebau negyddol. Byddai rhagor o gefnogaeth i'r achos dros ymyrryd pe bai tystiolaeth bod trosglwyddo refeniw net y tâl i brosiectau amgylcheddol (neu brosiectau eraill) yn cael allanoldebau cadarnhaol amgylcheddol. Fel y nodir uchod, byddai disgwyl i brosiectau amgylcheddol neu brosiectau eraill a luniwyd yn briodol esgor ar y manteision amgylcheddol ychwanegol hyn neu fanteision eraill ac, yn hynny o beth, byddai cyfiawnhad dros roi pwysoliad uwch i’r gwariant yn yr opsiynau sy'n cynnwys ymyrraeth.

8.1.46 O'r opsiynau sy'n weddill, ymddengys mai'r dull gweithredu gwirfoddol (Opsiwn 4) yw'r isaf ei gost. O dan yr opsiwn gwirfoddol, pe baem yn canolbwyntio ar annog o leiaf 20-50 o fanwerthwyr i 'roi' y refeniw net o'r bagiau untro i brosiectau amgylcheddol, byddai'r gost gyffredinol i fanwerthwyr (yn enwedig y manwerthwyr bach a chanolig) yn gymharol fach ond byddai cyfran y refeniw net a fyddai'n cael ei roi ar gael i brosiectau amgylcheddol (neu brosiectau eraill) yn parhau'n gymharol fawr.

**Profion Effeithiau Penodol**

Asesu Cystadleuaeth
Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gystadleuaeth.

Y Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach
Mae data o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau yn dangos y gallai'r ddarpariaeth hon effeithio ar tua 8,125 o fanwerthwyr bach. Fel y nodir yn y dadansoddiad, ychydig iawn o effaith a ddisgwylir ar gwmnïau bach unigol.

Cymorth cyfreithiol
Nid ydym yn credu y bydd y ddarpariaeth hon yn effeithio ar lwyth gwaith llysoedd nac ar gymorth cyfreithiol.

Datblygu Cynaliadwy
Efallai y bydd y ddarpariaeth yn cyfrannu at egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy annog defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Asesiad Carbon
Drwy gyfeirio arian tuag at brosiectau neu ddibenion amgylcheddol, efallai y bydd y ddarpariaeth hon yn cael effaith anuniongyrchol o ran lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif maint yr effeithiau hyn.

Materion Amgylcheddol Eraill
Drwy gyfeirio arian tuag at brosiectau neu ddibenion amgylcheddol, efallai y bydd y ddarpariaeth hon yn cael effaith anuniongyrchol o ran gwella'r amgylchedd. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif maint yr effeithiau hyn.

Asesu'r Effaith ar Iechyd
Nid ydym yn meddwl y bydd y ddarpariaeth hon yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd neu ffordd o fyw pobl, ac ni fydd yn creu galw sylweddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydraddoldeb Hiliol
Nid ydym o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Llywodraeth o dan y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol.

Cydraddoldeb i bobl anabl
Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gydraddoldeb i bobl anabl.

Cydraddoldeb Rhywiol
Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn cael unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol.

Hawliau Dynol
Rydym wedi ystyried goblygiadau'r ddarpariaeth hon o ran hawliau dynol, ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Prawfesur Gwledig

Nid ydym yn meddwl y bydd effeithiau'r ddarpariaeth hon yn wahanol iawn mewn ardaloedd gwledig.

## 8.2 Targedau Gwastraff

### Cefndir

8.2.1 Bydd y Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 yn sefydlu targedau statudol i awdurdodau lleol ar gyfer canran y gwastraff trefol a gaiff ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio, gan gynnwys unrhyw brosesau biolegol eraill ar gyfer trawsnewid gwastraff. (Er hwylustod, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn bydd y term "ailgylchu" yn cwmpasu'r holl weithrediadau hynny). Mae'r targedau statudol wedi'u dylunio i sicrhau, ym mhlith pethau eraill, bod Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd Cyfarwyddeb Tirlenwi 1999/31/EC yn gosod targedau ar gyfer lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Trawsddodwyd y darpariaethau i gyfraith y DU drwy Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003, a rhoddwyd effaith bellach yng Nghymru gan Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Bwriad y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC yw helpu'r UE i symud yn nes at "gymdeithas ailgylchu" gyda lefel uchel o effeithlonrwydd adnoddau.

8.2.2 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i seilio ar yr asesiad effaith a gynhaliwyd gan Eunomia ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r targedau ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio[39].

### Diben ac Effaith a Fwriedir

8.2.3 Disgwylir i'r targedau gyflawni rhwymedigaethau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi drwy reoli gwastraff trefol mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniad amgylcheddol mwyaf llesol. Yng nghyd-destun costau trin / gwaredu gwastraff cynyddol, disgwylir hefyd y bydd y targedau'n arwain at ddulliau rheoli gwastraff sy'n llai costus i'r awdurdodau lleol (a, thrwy hynny, y trethdalwyr) drwy osgoi'r costau hynny.

### Sail Resymegol Ymyrraeth y Llywodraeth

8.2.4 Tra bo allanoldebau sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi eisoes wedi'u mewnoli yn y costau tirlenwi, nid yw'r allanoldebau sy'n gysylltiedig â dulliau eraill o drin gwastraff gweddilliol wedi'u mewnoli mewn unrhyw bolisi o eiddo'r llywodraeth. Yn ogystal, nid yw'r allanoldebau cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag ailgylchu wedi'u hadlewyrchu mewn unrhyw gymhorthdal cysylltiedig. Bwriad y targedau yw ei gwneud yn glir i'r awdurdodau lleol bod cyfraddau ailgylchu uchel yn ddymunol mewn cyd-destun lle nad oes cymhellion priodol. Yn hynny o beth, bwriedir i'r targedau weithredu fel procsi ar gyfer yr hyn y gellid ei ystyried yn arfer gorau o safbwynt cymdeithas.

[39] *Wales Targets Impact Assessment*, Eunomia, 2010.

**Opsiynau**

8.2.5 Cafodd dau opsiwn gwahanol eu modelu er cymhariaeth. Fe'u nodir isod:

***Opsiwn 1 – Gwaelodlin***

8.2.6 O dan y senario hwn, rhagdybir bod y cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol yn brigo ac yn sefydlogi ar 52% yn 2012/13. Mae hyn yn gyson â'r cynnydd diweddar a wnaed ym maes ailgylchu gan awdurdodau lleol a'r gwaith modelu a wnaed ar sicrhau cyfraddau uwch o ailgylchu. Rhagdybir hefyd na fydd unrhyw dargedau'n cael eu gosod ar wahân i'r rhai a gyflwynwyd eisoes.

***Opsiwn 2 – Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, gwneud y targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yn statudol a rhoi cosbau ariannol i awdurdodau lleol sy'n methu â chyrraedd y targedau***

8.2.7 O dan y senario hwn, rhagdybir y gosodir targedau cynyddrannol ar gyfer ailgylchu gwastraff trefol, yn unol â Strategaeth Wastraff newydd Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff.* Nodir y targedau hyn yn Nhabl 2 isod.

8.2.8 Roedd adroddiad blaenorol a gwblhawyd gan Eunomia yn edrych ar y targedau trefol newydd ar gyfer Cymru[40]. Cyflwynir amrywiaeth eang o ganlyniadau yn adroddiad Eunomia, gan gynnwys dadansoddiad o gostau cyflawni'r gwahanol dargedau ailgylchu. Dylid cyfeirio at yr adroddiad llawn i gael gwell dealltwriaeth o'r modd y mae gwahanol gyfraddau ailgylchu'n effeithio ar y costau drwy Gymru gyfan. Mae'r adroddiad yn ystyried y newidiadau yn y costau a fydd yn ofynnol er mwyn cyrraedd y targedau ailgylchu erbyn 2024/25 (mewn termau real 2006/07). Canfyddiadau allweddol yr adroddiad yw y bydd y gost system-gyfan o gyrraedd 40% yn uwch na'r gost o gyrraedd 50% (dros £90m yn y ddau achos). Cyrraedd 60% fyddai'n cynnig yr arbedion ariannol gorau (newidiadau cost system-gyfan o lai nag £80m). Byddai'r targed o 70% yn cynnig cost is (newidiadau cost system-gyfan o lai na £90m) o gymharu â thargedau o 40% neu 50%, ond cost uwch na 60%. Mae targed o 80% yn rhoi newid cost system-gyfan o tua £90m.

8.2.9 Mae'r ddau baragraff isod o'r adroddiad yn disgrifio'r prif ganfyddiadau:

*"The results indicate that there would be clear benefits in moving recycling rates to a higher level. However, the degree to which 80% recycling could be achieved at an all-Wales scale does remain questionable IF one assumes the composition of waste does not change. On the other hand, composition undoubtedly will change, the key issue being how to influence this change in a positive manner. Therefore, an 80% target as an aspiration for the long-term might not be so foolish."*

[40] *Scoping New Municipal Waste Targets for Wales*, Eunomia, 2007.

*"It would appear, given the cost profiles examined here, that pushing for higher recycling rates in the revised Waste Strategy is a sensible approach, and one which, if it is supported by policy changes which are likely to be conducive to high capture rates for a wide range of materials, will deliver savings relative to lower cost recycling systems."*

8.2.10 Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi modelu'r effeithiau amgylcheddol (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd) a achosir drwy gyflawni'r gwahanol dargedau ailgylchu. Dangoswyd bod y manteision amgylcheddol yn cynyddu wrth i'r targedau ailgylchu godi.

8.2.11 Yn ystod y trafodaethau polisi rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau adroddiadau Eunomia ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar ôl ystyried pa mor hawdd oedd cyrraedd y targedau, yr arbedion i gostau'r system gyfan a'r manteision amgylcheddol, penderfynwyd mai gosod targed o 70% erbyn 2024/25 fyddai orau er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y canlyniadau o ran datblygu cynaliadwy.

8.2.12 Mae'r problemau sydd wedi effeithio ar yr economi fyd-eang ers 2007 wedi lleihau'r buddion ariannol a geir wrth ailgylchu, ond nid yw'n newid y ffaith bod cyfraddau ailgylchu uchel yn arwain at fanteision economaidd pendant. Nid yw'r amrywiadau ym mhrisiau'r deunyddiau, costau tanwydd etc wedi effeithio ar safle y gosodir y gwahanol dargedau ailgylchu ynddynt o ran eu manteision ariannol.

**Tabl 2: Targedau Ailgylchu Cymru**

| Blwyddyn | 2009/10 | 2012/13 | 2015/16 | 2019/20 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Targed Ailgylchu** | 40% | 52% | 58% | 64% | 70% |

8.2.13 Nodir, yn y naill senario a'r llall, y canlynol:

1. Mae'r targedau ailgylchu'n cynnwys ailgylchu lludw gwaelod (math o ludw a geir yng ngwaelod siambr losgi mewn llosgydd). Rhagdybir y bydd y gyfradd o ludw gwaelod a ailgylchir fel agregau oddeutu 3% yn 2024/25, gan ddod â'r ffigur ar gyfer ailgylchu deunyddiau heblaw lludw gwaelod i lawr i 67% yn 2024/25; ac
2. Nid yw'r targedau ailgylchu yn cynnwys ailgylchu gwastraff anadweithiol o weithgareddau adeiladu a dymchwel. Gallai hyn newid yn y dyfodol, ond y sefyllfa bresennol (a'r un a ddefnyddiwyd gan Eunomia yn ei gwaith blaenorol i Lywodraeth Cynulliad Cymru[41]) sydd wedi'i mabwysiadu ar hyn o bryd; ac
3. At ddibenion y dadansoddiad hwn, y diffiniad o wastraff trefol a fabwysiadwyd yw gwastraff a gesglir gan, ac ar ran, awdurdodau lleol. Cydnabyddir bod y diffiniad hwn wedi newid yn fawr, a bod diffiniad

[41] *Scoping New Municipal Waste Targets for Wales*, Eunomia, 2007.

mwy eang bellach yn berthnasol. Fodd bynnag, y gwastraff sydd dan reolaeth yr awdurdodau lleol a dargedir gan y Mesur hwn.

4. Rhagdybiwyd y byddai'r gwastraff a achosir yn newid -1.0 y flwyddyn, yn unol â'r tueddiadau diweddar. Dylid nodi mai dylanwadu yn unig ar faint absoliwt yr effeithiau a ystyrir isod y mae'r rhagdybiaeth hon, ac nid ar ba un a achosir costau net ynteu fuddion net i gymdeithas.

**Trin Data a Rhagdybiaethau**

8.2.14 Mesurwyd y gwahaniaethau rhwng y ddau opsiwn polisi – o ran y costau a'r buddion ariannol ac amgylcheddol – ac fe'u defnyddiwyd yn sail ar gyfer y dadansoddiad.

8.2.15 Modelwyd y costau mewn dwy ffordd wahanol:

- Dadansoddiad cost a budd 'confensiynol', yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi; a
- Dull gweithredu gwahanol sy'n cynnwys trethi a chymorthdaliadau yn y dadansoddiad, i gynrychioli'r costau gwirioneddol a wynebir yn y farchnad.

8.2.16 Mabwysiadwyd dau ddull gweithredu gwahanol wrth fodelu'r agweddau amgylcheddol hefyd, gan amrywio ar sail y rhagdybiaethau allweddol canlynol:

- Byddai'r gwastraff ychwanegol a ailgylchir yn mynd i safleoedd tirlenwi fel arall; a
- Byddai'r gwastraff ychwanegol a ailgylchir yn cael ei losgi fel arall.

8.2.17 Mae'r ddau senario modelu yn rhoi amcanestyniad o'r costau a'r buddion hyd at 2024/25. Daeth data'r flwyddyn gwaelodlin o ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddeunyddiau a gasglwyd yng Nghymru yn y flwyddyn 2008/09. Addaswyd y categorïau gwastraff wedyn i adlewyrchu'r dosbarthiad safonol a ddefnyddiwyd yn astudiaeth 2007.[42] Yn ogystal, rhannwyd y gwastraff a ailgylchir a chyfanswm y gwastraff a achosir yn gategorïau, fel a ganlyn:

- Gwastraff Cartref;
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref;
- Sbwriel;
- Sgubion stryd;
- Gwastraff swmpus; a
- Gwastraff masnach.

8.2.18 Anwybyddwyd tunelleddau'r deunydd ailgylchu a gesglir mewn cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol, oherwydd ymdrinnir â'r meintiau hyn ar wahân drwy'r system trin gwastraff gweddilliol. Rhagdybiwyd hefyd bod ailgylchu gwastraff swmpus hefyd yn amherthnasol.

[42] *Scoping New Municipal Waste Targets for Wales*, Eunomia, 2007.

8.2.19 Seiliwyd yr hyn sydd yn y ffrydiau gwastraff ar yr hyn a nodwyd yn astudiaeth 2007, gyda rhai addasiadau gan fod cyfraddau dal rhai deunyddiau ailgylchu'n uwch na 100% o gymharu â'r waelodlin. Cafodd y ffigurau hyn eu croeswirio wedyn gyferbyn â data dadansoddol Llywodraeth y Cynulliad ynghylch yr hyn oedd yn y gwastraff a gasglwyd yn y tymor cyntaf. Canfuwyd bod y ffigurau'n dderbyniol, a rhagdybiwyd y byddant yn gweithredu fel procsi da yn gyffredinol.

8.2.20 Wedi hynny, penderfynwyd addasu'r cyfraddau dal ar gyfer y gwahanol ffrydiau gwastraff yn ôl y drefn ganlynol, er mwyn cyrraedd y targedau ailgylchu a fodelwyd:

- Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref;
- Cartref;
- Masnach;
- Swmpus; a
- Sbwriel a Sgubion Stryd.

8.2.21 Mae'r drefn hon yn adlewyrchu pa mor rhwydd yw cynyddu'r cyfraddau casglu ym mhob un o'r gwahanol ffrydiau gwastraff.

8.2.22 Ar gyfer y modelu amgylcheddol, prin yw'r data ynghylch manteision amgylcheddol ailgylchu rhai deunyddiau. Fel y cyfryw, gwnaed y rhagdybiaethau canlynol:

- Rhagdybiwyd bod 50% o'r bwyd a gwastraff cegin yn cynnwys 'deunydd organig arall' a 50% ohono'n fân sbwriel a llwch
- Rhagdybiwyd bod batris symudol yn gyfrifol am 50% o'r 'gwastraff peryglus posibl'; a
- Rhagdybiwyd bod 'deunyddiau cymysg anllosgadwy eraill' yn debyg o ran natur (a budd amgylcheddol) i wastraff adeiladu a dymchwel.

**Modelu Costau**

***Costau Ariannol***

8.2.23 Modelwyd y costau ar gyfer dau faes sensitif:

1. Costau cymdeithasol (costau cyfalaf cyfartalog pwysol, a bennwyd yn hafal i'r gyfradd disgownt, sef 3.5%, heb gynnwys unrhyw drethi na chymorthdaliadau, h.y. y trethi tirlenwi, a ystyrir yn daliadau trosglwyddo); a'r
2. Costau preifat (gan gynnwys trethi a chymorthdaliadau, a chost cyfalaf cyfartalog pwysol sy'n adlewyrchu ffigurau nodweddiadol o'r sector preifat yn y maes hwn).

8.2.24 O dan ganllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, dylid rhoi pwysoliad uwch i'r costau cymdeithasol, gan mai'r costau hynny yw'r llinyn mesur a ddefnyddir gan y llywodraeth wrth wneud ei phenderfyniadau. Mae costau

preifat yn berthnasol i fforddiadwyedd, ac mae hynny'n arbennig o bwysig o safbwynt awdurdodau lleol mewn perthynas â'r dreth tirlenwi.

8.2.25 Modelwyd costau ar gyfer dau bosibilrwydd arall o ran trin gwastraff gweddilliol hefyd, sef:

1. Y byddai'r deunydd ychwanegol sy'n cael ei ailgylchu wedi mynd i safleoedd tirlenwi fel arall;
2. Y byddai'r deunydd ychwanegol i'r ailgylchu wedi'i losgi fel arall.

8.2.26 Roedd y dull gweithredu methodolegol yn adlewyrchu i raddau helaeth, y gwaith blaenorol.[43] Fodd bynnag, roedd y cyfraddau ailgylchu terfynol ychydig yn is, gan fod ailgylchu lludw gwaelod wedi'i gynnwys wrth gyfrifo perfformiad. Un o sgîl-effeithiau cadarnhaol hyn oedd nad oedd angen dal deunyddiau a fyddai'n ymddangos, *a priori*, yn anodd i'w hailgylchu (e.e. sbwriel a sgubion stryd) er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd.

8.2.27 Mae costau Opsiwn 2 wedi'u modelu yn berthynol i Opsiwn 1. Mae rhai o'r rhagdybiaethau allweddol fel a ganlyn:

- Rhagdybir y bydd y dreth tirlenwi'n cael ei chynnal mewn termau real unwaith y bydd yn cyrraedd y lefel nominal o £72 y dunnell yn 2013/14.
- Mae'r holl gostau wedi'u datgan mewn termau real sterling 2009/10. Defnyddiwyd y datchwyddwyr CMC i gynyddu'r costau o'r gwaith blaenorol fel y bo'n briodol.

***Costau Amgylcheddol***

8.2.28 Modelwyd y buddion amgylcheddol ar sail y gwaith a ymgymerwyd gan Eunomia ar ran DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig, sy'n edrych ar gostau a buddion gwaharddiadau tirlenwi yn y DU. Aseswyd y costau amgylcheddol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi a DEFRA. Y prif effeithiau a gyfrifwyd yn ariannol yw:

- Newidiadau yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Newidiadau mewn llygryddion aer confensiynol; a'r
- Newidiadau yn gysylltiedig â rhoi compost / gweddillion treulio anerobig ar y tir.

8.2.29 Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys gwerthusiad o'r effeithiau amgylcheddol canlynol (oherwydd diffyg tystiolaeth foddhaol, er enghraifft, ynghylch y costau amgylcheddol, neu wybodaeth berthnasol ar draws yr holl gyfleusterau, er enghraifft y diffyg mwynder y mae safleoedd compostio yn ei achosi):

- Newidiadau o ran y diffyg mwynder a brofir;
- Newidiadau yn yr allyriadau i'r tir;
- Newidiadau yn yr allyriadau i'r dŵr; a

---

[43] *Scoping New Municipal Waste Targets for Wales*, Eunomia, 2007.

- Newidiadau yn yr allyriadau llygryddion aer anghonfensiynol (e.e. bioaerosolau).

8.2.30 Ychydig o reswm sydd gennym i gredu y byddai'r allyriadau hyn wedi effeithio ar y dadansoddiad. I'r gwrthwyneb, yn yr astudiaethau eraill sydd wedi cynnwys yr allyriadau, ceir awgrym y gallai hynny fod wedi cael effaith negyddol o ran llosgi gwastraff yn benodol, yn enwedig o ran y diffyg mwynder (a asesir drwy newidiadau yng ngwerth y tai lleol) ac allyriadau i'r tir (er enghraifft, o weddillion rheoli llygredd aer).

8.2.31 Mae un o'n rhagdybiaethau yn ymwneud â chategorïau perthnasol sydd heb unrhyw amcangyfrifon hysbys a gwiriedig o'r arbedion costau amgylcheddol. Mae'r categorïau hynny fel a ganlyn:

- Carped ac isgarped;
- Batris plwm/asid;
- Olew; a
- Deunyddiau peryglus posibl eraill.


8.2.32 Ar gyfer y deunyddiau hyn, rydym wedi defnyddio gwerthoedd nominal o £5 y dunnell ar gyfer y buddion, sy'n llawer is nag ar gyfer y deunyddiau eraill. Gwnaed hyn oherwydd y ffaith nad oes unrhyw astudiaethau credadwy a fyddai'n ein galluogi i gyfrifo costau allanol ailgylchu'r deunyddiau hyn, ond o ystyried eu bod yn anfioddiraddiadwy, rydym yn rhagweld y byddant yn achosi buddion.

***Canlyniadau***

8.2.33 Mae'r dadansoddiad hwn o'r costau a'r buddion yn gymwys ar gyfer Opsiwn 2 (sef targed cynyddrannol o ailgylchu 70% erbyn 2024/25) ac maent yn berthynol i'r waelodlin o dan Opsiwn 1 (cyfraddau ailgylchu yn brigo a sefydlogi ar 52% yn 2012/13).

8.2.34 Mae Ffigur 1 yn dangos data gwastraff gweddilliol a gymerwyd o'r model. Mae'n dangos bod gwastraff gweddilliol yng Nghymru yn lleihau wrth i'r targedau ailgylchu newydd gael eu cyrraedd, i 150kg y preswylydd yn 2024/25, yn unol â'r dyheadau cyfredol.

**Ffigur 1: Gwastraff Gweddilliol yng Nghymru (kg y preswylydd) 2008/09 – 2024/25**




## ***Costau Ariannol***

Crynodeb o'r Costau Ariannol


*Costau Cydymffurfio*

8.2.35 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu dau adroddiad gan Eunomia, sy'n helpu i nodi'r costau cydymffurfio sydd ynghlwm wrth gyrraedd y targed o 70% ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio erbyn 2024/25. Mae'r ddau adroddiad wedi'u seilio ar yr un fethodoleg, ond maent yn mynd i'r afael â materion sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd. Roedd yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2007, yn trafod targedau newydd ar gyfer gwastraff trefol yng Nghymru, gan gynnwys costau cyrraedd gwahanol gyfraddau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio gwastraff trefol. Gwnaed hyn o waelodlin o 25% o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yng Nghymru yn 2006/07. Mae'r costau felly wedi eu hamcangyfrif dros gyfnod o 18 mlynedd. Mae'r tafl-lwybrau costau ar gyfer Cymru gyfan, ar sail gwaelodlin 2006/07, wedi eu nodi yn Ffigur 2 isod. Yn ôl y dadansoddiad hwn, mae cost ailgylchu ar gyfradd o 40% (y gyfradd ailgylchu bresennol) yn uwch na'r gost ar gyfer cyfradd o 70%. Erbyn 2024/25, tua £94 miliwn y flwyddyn fyddai cost ailgylchu ar gyfradd o 40%. Tua £89 miliwn fyddai cost ailgylchu ar gyfradd o 70%. Byddai gweithio tuag at gyfradd o 70% erbyn 2024/25, a'i chyrraedd, o waelodlin 2010/11, yn arwain at £81 miliwn o arbedion o gymharu ag ailgylchu ar y gyfradd bresennol o 40%. Mae nifer o resymau am hyn. Bydd gwastraff sydd wedi'i ailgylchu yn creu incwm ychwanegol, na fyddai'n bosibl petai'r gwastraff hwnnw wedi cael ei anfon i safle tirlenwi

neu wedi cael ei losgi. At hynny, gall awdurdodau sicrhau arbedion ariannol os ydy gwastraff yn cael ei ailgylchu yn hytrach na'i anfon i safle tirlenwi, oherwydd ni fydd angen iddynt dalu'r dreth tirlenwi a ffioedd porth. I grynhoi: o gymharu â chynnal y cyfraddau presennol o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio gwastraff trefol, byddai mabwysiadu a chyrraedd targed o gyfradd ailgylchu o 70% yn sicrhau arbedion ar gostau cydymffurfio i awdurdodau lleol, yn ogystal â chreu manteision amgylcheddol ehangach i'r gymdeithas.

8.2.36 I bob pwrpas, awdurdodau lleol fyddai'n gorfod ysgwyddo costau cydymffurfio â gweddnewid y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwastraff a dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer. Yn ymarferol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i dargedu sydd ei angen er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wneud y newidiadau gweddnewidiol priodol i'r ffyrdd maent yn rheoli gwastraff, er mwyn cyrraedd y cyfraddau targed.

**Ffigwr 2: Tafl-lwybrau Costau ar gyfer Targedau Gwastraff Trefol erbyn 2024/25 o gymharu â 2006/07 (cynnydd blynyddol mewn £ real yn 2006/07)**




8.2.37 Er y gallai rhai o'r costau a nodwyd yn adroddiad 2007 a Ffigur 2 fod wedi newid, nid fu newid yn nhrefn y gwahanol dargedau o ran eu tafl-lwybrau costau. Mae'n werth nodi bod adroddiad 2007 yn rhagdybio cynnydd graddol mewn gwastraff trefol. Mewn gwirionedd, mae swmp gwastraff trefol wedi bod yn lleihau, sy'n awgrymu y gallai'r tafl-lwybrau costau fod wedi eu goramcangyfrif. Mae hi hefyd yn werth pwysleisio y cyhoeddwyd adroddiad 2007 cyn y cyhoeddiad yn 2009 y bydd y dreth dirlenwi yn codi. Yn sgil y cynnydd hwn, mae'r targedau ailgylchu isaf ar gyfer gwastraff

trefol yn mynd yn ddrutach o'u cymharu â'r cyfraddau targed uwch ar gyfer ailgylchu.

8.2.38 Mae'r ail adroddiad, y seiliwyd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn arno, yn ystyried - ymysg pethau eraill - gostau cyrraedd y targed o 70% o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio, o waelodlin o 52% (sef y targed ar gyfer 2012/13). Mae'r gyfradd o 52% o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yn cael ei defnyddio fel gwaelodlin ar y sail y byddai cyfraddau ailgylchu yn cyrraedd uchafbwynt ac yn sefydlogi ar y gyfradd hon. Byddai hynny'n digwydd yn sgil ymyriadau presennol megis y buddsoddiad yn y seilwaith gwastraff a'r cymhellion i ailgylchu fel y dreth dirlenwi. Mae costau ariannol cyrraedd y gyfradd darged o 70%, o waelodlin o 52%, wedi eu nodi yn Nhabl 3 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. O dan y llinyn mesur cymdeithasol, byddai costau net ailgylchu'r 18% yn rhagor o wastraff trefol sydd ei angen i gyrraedd y targed o 70% yn amrywio o £7.8 miliwn i uchafswm o £35.9 miliwn (gan ddibynnu a fyddai'r gwastraff a ailgylchwyd wedi bod yn cael anfon i safle tirlenwi neu wedi bod yn cael ei losgi). Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu dros gyfnod o tua 18 mlynedd. Serch hynny, o dan y llinyn mesur preifat, sy'n adlewyrchu costau'r dreth dirlenwi, byddai hyd at £40 miliwn o arbedion ar gostau cydymffurfio. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys manteision amgylcheddol cyfraddau uwch o ailgylchu. Awdurdodau lleol fyddai'n gorfod ysgwyddo'r gost o gydymffurfio â'r targedau hyn, er y byddai hynny gyda chymorth y cyllid wedi'i dargedu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu i'w galluogi i gyrraedd y targedau. Yn ymarferol, fel a nodir uchod, dylai mabwysiadu'r targedau uwch hyn o ailgylchu arwain at arbedion ar gostau cydymffurfio.

8.2.39 Byddai gan Weinidogion Cymru bŵer yn ôl eu disgresiwn i ddirwyo awdurdodau lleol petaent yn methu â chyrraedd y targedau a bennwyd o dan y Mesur arfaethedig. Felly, gallai methu â chyrraedd y targedau arwain at ragor o gostau i'r awdurdodau lleol. Byddai angen pennu manylion unrhyw gyfundrefn gosbi mewn rheoliadau, y byddai'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymeradwyo. Y bwriad o ran polisi yw gwneud rheoliadau yn pennu dirwy o £200 fesul pob tunnell y methir â chyrraedd y targed ohoni. Dyma'r un swm â'r ddirwy ar gyfer methu â chyrraedd targedau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (OS 2004/1490 [W.155], Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004). Nid oes dirwyon wedi'u gosod o dan y Cynllun Lwfansau Tirlenwi eto, oherwydd mae'r awdurdodau lleol wedi cyrraedd targedau'r Cynllun ac ystyrir mai sancsiwn i'w ddefnyddio pan fetho popeth arall yw'r ddirwy. Y cynharaf y gallai'r targedau statudol a'r cosbau ddod i rym fyddai ar gyfer targed 2012/13 (52%). Byddai'r ddirwy yn cael ei chymhwyso mewn modd cyson ar gyfer pob awdurdod lleol. Ond oherwydd y gwahanol swmp o wastraff y mae'r gwahanol awdurdodau lleol yn ei gasglu ledled Cymru byddai methu, er enghraifft o 1%, â chyrraedd y targed yn arwain at wahanol oblygiadau i wahanol awdurdodau lleol. Ar sail y data a gasglwyd am wastraff yn 2007/08, byddai'r cosbau am fethu, o 1%, â chyrraedd y targed statudol yn amrywio o £69,930 (yn achos Merthyr Tudful, yr awdurdod sy'n casglu'r swmp lleiaf o wastraff) i £363,542 (yn achos Caerdydd, yr awdurdod sy'n casglu'r swmp mwyaf o wastraff).

*Costau Gweinyddu a Chostau Eraill*

8.2.40 O ran costau gweinyddu, mae awdurdodau lleol eisoes yn casglu ac adrodd ar ddata ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio gwastraff fel rhan o'r system WasteDataFlow. Felly nid oes costau ychwanegol, i awdurdodau lleol na Llywodraeth y Cynulliad, yn gysylltiedig â chasglu ac adrodd ar ddata sy'n ymwneud â'r targedau statudol yn y Mesur arfaethedig.

8.2.41 Efallai y byddai costau gorfodi yn gysylltiedig â darpariaethau'r targedau gwastraff. Byddai unrhyw waith polisi neu waith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gorfodi yn cael ei wneud yn fewnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r prif gost ynghlwm wrth baratoi'r dogfennau ysgrifenedig priodol a fyddai'n nodi atebolrwydd awdurdod lleol penodol i gosb a'r swm sy'n ddyledus. Gellid amcangyfrif y byddai hyn gyfwerth ag 1 diwrnod ar gyfer swyddog polisi ar radd 7, ar gost o tua £240 y diwrnod, ac 1 diwrnod ar gyfer cyfreithiwr ar radd 7, hefyd ar gost o tua £240 y diwrnod.

Asesiad Manwl o Gostau Ariannol cyrraedd y targed o 70%, o waelodlin o 52%

8.2.42 Dangosir y newidiadau yn y costau ariannol rhwng y ddau senario modelu yn Nhabl 3. Rhoddir y Gwerth Net Presennol a'r Gwerth Net Presennol Blynyddol (noder, mae'r gwerthoedd negatif yn dynodi costau negatif, h.y. buddion net).[44]

**Tabl 3: Costau Ariannol**

| | **Costau Cymdeithasol** | | **Costau Preifat** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Osgoi Gwaredu mewn Safleoedd Tirlenwi** | **Osgoi Gwaredu mewn Llosgyddion** | **Osgoi Gwaredu mewn Safleoedd Tirlenwi** | **Osgoi Gwaredu mewn Llosgyddion** |
| **Gwerth Net Presennol 2009/10 - 2024/5** | £35,894,377 | £7,801,984 | -£40,234,261 | -£38,269,539 |
| **Gwerth Net Presennol Blynyddol** | £2,967,920 | £645,106 | -£3,326,763 | -£3,164,310 |


8.2.43 Yn ôl y llinyn mesur cymdeithasol, mae'r model yn awgrymu y byddai costau ariannol ychwanegol yn cael eu hachosi o ganlyniad i'r targedau ailgylchu. Mae'r costau ychwanegol hyn yn gymharol uchel pan fo gwastraff yn cael ei dirlenwi, gan fod costau tirlenwi'n isel iawn os eithrir y dreth tirlenwi o'r dadansoddiad (fel y gwneir yn y dull mesur cymdeithasol). Mae'r costau'n llawer mwy ymylol mewn achos lle mae'r gwastraff yn cael ei losgi.

[44] I bob diben, y Gwerth Net Presennol Blynyddol yw cyfanswm y Gwerth Net Presennol wedi'i drosi'n flwydd-daliadau cyson gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt o 3.5%.

8.2.44 Mewn cyferbyniad, yn ôl y llinyn mesur preifat, gwneir arbedion costau ariannol. Pan ddefnyddir y llinyn mesur preifat, mae'r arbedion yr un mor fawr beth bynnag fo'r dull gwaredu gwastraff.


8.2.45 Mae Ffigur 3 a 4 yn rhoi dadansoddiad o'r costau ariannol yn ôl y llinyn mesur cymdeithasol. Dangosir costau'r ailgylchu ychwanegol y byddid fel arall wedi ei gyflawni, mewn achosion pan fyddai'r gwastraff wedi'i dirlenwi neu ei losgi, yn eu trefn. Mae'n amlwg, o gymharu'r graffiau hyn (sydd wedi'u plotio ar yr un echelinau), mai effeithiau'r gwahanol ddulliau o reoli gwastraff gweddilliol sy'n gwbl gyfrifol am y gwahaniaeth yn y costau net. Mae cost ariannol uwch llosgi gwastraff yn gwrthbwyso cyfran uwch o'r costau casglu ychwanegol pan fo'r deunydd yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth y dull rheoli hwn.

**Ffigur 3: Costau Ariannol yn ôl y Llinyn Mesur Cymdeithasol, pan fo Tirlenwi'n cael ei osgoi**




*Noder: mae'r ffigurau positif (uwchlaw'r echelin) yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif (islaw'r echelin) yn dangos arbedion.*

**Ffigur 4: Costau Ariannol yn ôl y Llinyn Mesur Cymdeithasol, pan fo Llosgi'n cael ei osgoi**





*Noder: mae'r ffigurau positif (uwchlaw'r echelin) yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif (islaw'r echelin) yn dangos arbedion.*

8.2.46 Mae Ffigur 5 a Ffigur 6 yn dangos yr un dadansoddiad, yn ôl y llinyn mesur preifat. Yn gyson â Thabl 2, nid oes fawr o amrywiad yn y costau net rhwng y ddau senario.


**Ffigur 5: Costau Ariannol yn ôl y Llinyn Mesur Preifat, pan fo Tirlenwi'n cael ei osgoi**

NEWID YNG NGHOST RHEOLI GWASTRAFF GWEDDILLIOL, LLOSGIL, COST GYMDEITHASHOL




*Noder: mae'r ffigurau positif (uwchlaw'r echelin) yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif (islaw'r echelin) yn dangos arbedion.*

**Ffigur 6: Costau Ariannol yn ôl y Llinyn Mesur Preifat, pan fo Llosgi'n cael ei osgoi**




*Noder: mae'r ffigurau positif (uwchlaw'r echelin) yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif (islaw'r echelin) yn dangos arbedion.*

### *Costau Amgylcheddol*

8.2.47 Nodir y costau amgylcheddol i gymdeithas yn Nhabl 4. Dangosir gwerthoedd ar gyfer senarios lle defnyddir y bionwy o dreulio gwastraff bwyd yn anerobig i gynhyrchu trydan ac fel tanwydd trafnidiaeth.

8.2.48 Mewn cyferbyniad â'r costau ariannol (a nodir yn Nhabl 2), achosir buddion net (costau negatif) os caiff y targedau ailgylchu dan sylw eu gweithredu.

8.2.49 Mae canlyniadau'r modelu yn dangos bod y buddion net yn fwy yn y senario lle byddai'r ailgylchu ychwanegol wedi mynd i safleoedd tirlenwi fel arall.


8.2.50 Dangosir y gyfran o'r buddion a achosir gan ailgylchu a'r gyfran a achosir drwy osgoi'r llwybr gwaredu/trin gwastraff gweddilliol yn Ffigur 7 a Ffigur 8. Mae'r rhain yn dynodi, yn y senario osgoi tirlenwi a'r senario osgoi llosgi, mai buddion osgoi trin /gwaredu gwastraff gweddilliol sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r costau negatif.

**Tabl 4: Costau Amgylcheddol (Gan gynnwys Carbon Biogenig)**

| | | Costau Cymdeithasol | |
|---|---|---|---|
| | | Osgoi Gwaredu mewn Safleoedd Tirlenwi | Osgoi Gwaredu mewn Llosgyddion |
| Treulio Anerobig: Trydan | Gwerth Net Presennol 2009/10 - 2024/5 | -£102,917,391 | -£71,656,164 |
| | Gwerth Net Presennol Blynyddol | -£8,509,707 | -£5,924,878 |
| Treulio Anerobig: Defnyddio Bionwy Cywasgedig mewn Cerbydau | Gwerth Net Presennol 2009/10 - 2024/5 | -£106,474,887 | -£73,243,735 |
| | Gwerth Net Presennol Blynyddol | -£8,803,858 | -£6,056,146 |


*Noder: mae'r ffigurau positif yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif yn dangos arbedion.*

**Ffigur 7: Dadansoddiad o'r Costau Amgylcheddol, pan fo Tirlenwi'n cael ei osgoi**




*Noder: mae'r ffigurau positif yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif yn dangos arbedion.*

**Ffigur 8: Dadansoddiad o'r Costau Amgylcheddol, pan fo Llosgi'n cael ei osgoi**




*Noder: mae'r ffigurau positif yn cynrychioli costau, a'r ffigurau negatif yn dangos arbedion.*

## Casgliad

8.2.51 Y costau cymdeithasol net yw cyfanswm y costau ariannol ac amgylcheddol. Dangosir y rhain yn Nhabl 5. O safbwynt dadansoddiad cost a budd, byddai'n briodol ystyried swm y costau hyn yn unig pan fo'r costau'n cael eu hamcangyfrif yn ôl y llinyn mesur cymdeithasol. Fodd bynnag, er tryloywder, nodir y canlyniadau yn ôl y dulliau mesur cymdeithasol a phreifat fel ei gilydd, nid lleiaf oherwydd bod asesiadau effaith rheoleiddiol yn gyffredinol yn ceisio gwybodaeth am y 'costau marchnad'. Dylid nodi bod y costau a asesir yn ôl y llinyn mesur preifat yn cynnwys effeithiau mesurau megis y dreth tirlenwi a'r ymrwymiad i ynni adnewyddadwy sydd wedi'u cynllunio, yn eu hunain, i fewnoli rhai o'r costau / buddion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol. Fel y cyfryw, mae ychwanegu'r costau amgylcheddol at y costau ariannol yn y dull mesur preifat yn awgrymu bod rhai o'r buddion amgylcheddol yn cael eu cyfrif ddwy waith.

8.2.52 Mae canlyniadau'r modelu, yn ôl y llinynnau mesur cymdeithasol a phreifat, yn dangos gostyngiadau sylweddol yn y costau cymdeithasol net (neu fuddion cymdeithasol sylweddol). Sicrhawyd hyn trwy wireddu targedau ailgylchu Llywodraeth y Cynulliad yn berthynol i'r senario gwaelodlin. Yn ôl llinyn mesur y costau cymdeithasol, ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn y buddion cymdeithasol net rhwng yr achos lle mae'r gwastraff gweddilliol yn cael ei anfon i safle tirlenwi a'r achos lle mae'n cael ei anfon i losgydd. Mae'r rhesymau am hyn i'w gweld yn glir yn y Tabl: mae'r costau ariannol

yn uwch pan fo tirlenwi'n cael ei osgoi fel dull rheoli gwastraff, ond mae'r buddion amgylcheddol mwy yn gwrthbwyso hynny. Ar y llaw arall, mae osgoi llosgi yn achosi costau ychwanegol is, ond hefyd yn achosi llai o fudd amgylcheddol. Mae'r sefyllfa net yn debyg ar gyfer y ddau opsiwn trin gwastraff.[45]

8.2.53 Yn amlwg, o edrych ar y llinyn mesur costau preifat, ymddengys bod y buddion cyffredinol i gymdeithas yn fwy yn yr achos lle byddai'r deunyddiau ailgylchu ychwanegol wedi'u hanfon i safleoedd tirlenwi fel arall nac yn yr achos lle byddent wedi'u llosgi. Fodd bynnag, mae hyn braidd yn artiffisial, gan nad yw ond yn adlewyrchu'r ffaith bod costau amgylcheddol tirlenwi wedi'u mewnoli'n llawer mwy effeithiol ym mhrisiau cyfredol y farchnad nag effeithiau allanol llosgi gwastraff. Mewn geiriau eraill, mae'r achos osgoi tirlenwi'n cynnwys cyfran uchel o fuddion amgylcheddol a gyfrifir ddwywaith.

**Tabl 5: Costau Ariannol, Amgylcheddol a Chymdeithasol Net (pan fo'r Costau Amgylcheddol yn gysylltiedig â Thrydan o Dreulio Anaerobig yn unig)**

| | **Costau Cymdeithasol** | | **Costau Preifat** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Osgoi Gwaredu mewn Safleoedd Tirlenwi** | **Osgoi Gwaredu mewn Llosgyddion** | **Osgoi Gwaredu mewn Safleoedd Tirlenwi** | **Osgoi Gwaredu mewn Llosgyddion** |
| **NPV 2009/10 – 2024/25** | | | | |
| **Costau Ariannol** | £35,894,377 | £7,801,984 | -£40,234,261 | -£38,269,539 |
| **Costau Amgylcheddol** | -£102,917,391 | -£71,656,164 | -£102,917,391 | -£71,656,164 |
| **Costau Cymdeithasol Net** | -£67,023,015 | -£63,854,180 | -£143,151,652 | -£109,925,703 |
| **Gwerth Net Presennol** | | | | |
| **Costau Ariannol** | £2,967,920 | £645,106 | -£3,326,763 | -£3,164,310 |
| **Costau Amgylcheddol** | -£8,509,707 | -£5,924,878 | -£8,509,707 | -£5,924,878 |
| **Costau Cymdeithasol Net** | -£5,541,787 | -£5,279,772 | -£11,836,470 | -£9,089,188 |

[45] Dylid nodi bod hyn yn gwbl gyson â'r llenyddiaeth gyffredinol yn y maes hwn. Mae'r achos, ar sail costau cymdeithasol net, o blaid tirlenwi neu losgi gwastraff fel arfer yn dibynnu a yw budd amgylcheddol ychwanegol llosgi gwastraff wedi'i gyfiawnhau gan y gost ychwanegol (yn ôl y llinyn mesur cymdeithasol). Mae nifer o astudiaethau wedi awgrymu nad yw hyn bob amser yn wir.
Dogfennau cyfeiriol:
*External Costs of Landfill and Incineration, Adroddiad Terfynol i'r Comisiwn Ewropeaidd;* COWI (2000).
*Combining the Government's two health and environment studies to calculate estimates for the external costs of landfill and incineration*, Tollau Tramor a Chartref EM, 2004.
*Burn or bury? A social cost comparison of final waste disposal methods*, E. Dijkgraaf, a H. Vollebergh, *Ecological Economics,* 50, tud.233-247, 2004.
*Literature review of social costs and benefits of waste disposal and recycling,* E. Dijkgraaf a H. Volleberegh yn *Rethinking the Waste Hierachy*, EAI: Copenhagen, tud. 80-98, 2005.
*Combining the Government's Two Heath and Environment Studies to Calculate Estimates for the External Costs of Landfill and Incineration,* Tollau Tramor a Chartref EM, 2004.

**Profion Effeithiau Penodol**

Asesu Cystadleuaeth

Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gystadleuaeth.

Y Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach

Nid ydym yn rhagweld y bydd y targedau yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar fusnesau bach. Yn wir, gallai hyn leihau’r costau i fusnesau, oherwydd gallai’r busnesau sy’n manteisio ar gasgliadau awdurdodau lleol ddarganfod bod costau’n lleihau pan fyddant yn ymgysylltu’n llawn â gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr.

Cymorth cyfreithiol

Nid ydym yn disgwyl y bydd y targedau'n effeithio o gwbl ar lwyth gwaith llysoedd nac ar gymorth cyfreithiol.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'r targedau, yn amlwg, yn cyfrannu at egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy annog defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Asesiad Carbon

Mae'r prisiad o’r buddion o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'i gynnwys yn yr asesiad uchod o’r buddion amgylcheddol. Mae effeithiau'r targedau'n gadarnhaol i’r perwyl hwnnw; gweler Tabl 6, ac maent yn gymwys tan 2024/25.

**Tabl 6: Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tunelli o $CO_2$, erbyn 2024/25)**

| | Ac eithrio Carbon Biogenig | Gan gynnwys Carbon Biogenig |
|---|---|---|
| **Arbedion osgoi tirlenwi** | 1,670,275 | 2,790,497 |
| **Arbedion osgoi llosgi** | 488,253 | 1,834,457 |

Effeithiau Amgylcheddol Eraill

Mae'r prisiad o'r buddion sy'n gysylltiedig ag effeithiau amgylcheddol eraill (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr) wedi'i gynnwys yn yr asesiad uchod o’r buddion amgylcheddol. Mae effeithiau'r targedau'n gadarnhaol i’r perwyl hwn. Dylid nodi nad yw'r effeithiau amgylcheddol ariannol yn cynnwys materion fel newidiadau mewn bioamrywiaeth ac effeithiau ar ansawdd pridd a dŵr.

Asesu'r Effaith ar Iechyd

Nid ydym yn disgwyl y bydd y ddarpariaeth hon yn creu galw sylweddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydraddoldeb Hiliol

Nid ydym o'r farn bod y targedau'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Llywodraeth o dan y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfarwydd â cheisio cyfathrebu ag aelwydydd o gefndiroedd ethnig amrywiol ac mae disgwyl iddynt barhau i wneud hyn (yn y waelodlin yn ogystal â phe bai'r targedau a gynigir yn cael eu rhoi ar waith).

Cydraddoldeb i bobl anabl

Nid ydym yn rhagweld y bydd y targedau yn effeithio o gwbl ar gydraddoldeb i bobl anabl. Mae disgwyl i awdurdodau lleol barhau i ystyried ffactorau o'r fath wrth ddylunio gwasanaethau yn arbennig i'r rheini sydd â gwahanol anableddau.

Cydraddoldeb Rhywiol

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol yn deillio o'r targedau arfaethedig.

Hawliau Dynol

Rydym wedi ystyried goblygiadau'r ddarpariaeth hon o ran hawliau dynol, ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Prawfesur Gwledig

Mewn egwyddor, efallai y bydd materion yn codi o ran cyrraedd y targedau mewn gwahanol amgylchiadau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos ei bod yn fwy tebygol y byddai targedau'n cael eu cyrraedd mewn ardaloedd gwledig a maestrefol nag ardaloedd trefol[46]. Oherwydd hyn, nid yw'n debygol y bydd y targedau'n achosi anfantais i ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd eraill.

O ran costau, er bod rhai o'r farn bod ardaloedd gwledig yn wynebu costau casglu uwch o gymharu ag ardaloedd trefol, braidd yn wan yw'r dystiolaeth bod cost uwch yn gysylltiedig â chyflawni cyfraddau ailgylchu penodol mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol. Mae'n rhaid ystyried costau cyrraedd targedau ailgylchu gyferbyn â senario lle nad yw'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd er bod gwasanaethau casglu yn cael eu darparu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'n debygol y byddai costau casglu'n llawer uwch mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol cyhyd ag y bo'r gwasanaethau wedi'u dylunio'n effeithlon. Ymhellach, efallai y bydd ardaloedd gwledig yn darganfod eu bod wedi osgoi mwy o gostau nag ardaloedd trefol, yn enwedig wrth i safleoedd tirlenwi fynd yn opsiwn llai dichonadwy (yn ogystal â llai dymunol o safbwynt amgylcheddol).

O ganlyniad, nid ydym yn disgwyl y bydd yr effeithiau a wynebir mewn ardaloedd gwledig wrth gyflawni'r targedau yn achosi costau cynyddrannol uwch na chostau'r ardaloedd trefol (ac os byddant yn uwch, ni fydd y gwahaniaeth yn sylweddol). Ar y llaw arall mae'r tebygolrwydd cyrraedd y targedau yn uwch os rhywbeth, mewn ardaloedd gwledig na mewn ardaloedd trefol. Mae'r dystiolaeth ryngwladol (ac yn y DU) i gefnogi'r pwynt diwethaf yn arbennig o gryf.

[46] *High Diversion of Municipal Waste: Is It Achievable?,* David Davies Associates, 2003, Resource Recovery Forum.

## 8.3 Tirlenwi

### Cefndir

8.3.1 Mae rheoli'r gwastraff a gynhyrchir ac a waredir yng Nghymru yn un o'r heriau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol. Mae tabl 7 yn nodi faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru a sut mae'n cael ei reoli.

**Tabl 7 – Y Gwastraff a Gynhyrchir ac a Reolir yng Nghymru**

| Y sector gwastraff (miliynau o dunelli) | Ailgylchu/ Ailddefnyddio/ Compostio | Adfer Ynni | Tirlenwi | Dull Arall o drin Gwastraff | Dull Anhysbys (gan gynnwys trosglwyddo) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartref, 2007/08 | 0.49 | 0.03 | 1.01 | - | - | 1.53 |
| Masnachol, 2007 | 0.63 | 0.02 | 0.84 | 0.05 | 0.14 | 1.68 |
| Diwydiannol , 2007 | 1.13 | 0.01 | 0.55 | 0.16 | 0.05 | 1.90 |
| Adeiladu a dymchwel, 2005/06 | 10.29 | - | 1.27 | 0.02 | 0.58 | 12.17 |
| Cyfanswm | 12.53 | 0.05 | 3.68 | 0.23 | 0.77 | 17.27 |
| % o'r cyfanswm | 72.6 | 0.3 | 21.3 | 1.3 | 4.5 | 100.0 |

Sylwer: Ar gyfer "-" nid sero yn union yw'r eitem ddata, ond amcangyfrif o sero neu lai na hanner y digid terfynol a nodir
Ffynhonnell: Cyfrifwyd y ffigurau gwastraff cartref gan ddefnyddio data chwarterol WasteDataFlow, Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2007 ac Arolwg Gwastraff Adeiladu a Dymchwel 2005/06.

8.3.2 Dyma'r manylion fesul sector gwastraff:

- Aeth 66% o wastraff cartref i safleoedd tirlenwi
- Aeth 51% o wastraff masnachol i safleoedd tirlenwi
- Aeth 29% o wastraff diwydiannol i safleoedd tirlenwi
- Aeth 10% o wastraff adeiladu a dymchwel i safleoedd tirlenwi
- Aeth 21% o'r holl fathau o wastraff i safleoedd tirlenwi

8.3.3 Mae gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn achosi problemau. Mae'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol ac yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr. Mae angen hefyd mynd i'r afael â'r perygl o dor-ddyletswydd mewn perthynas ag Erthygl 5 y Gyfarwyddeb Gwaredu Gwastraff mewn Safleoedd Tirlenwi, 1999/31/EC, ("y Gyfarwyddeb Tirlenwi").

8.3.4 Mae cyflwyno gwaharddiadau a gosod cyfyngiadau ar y defnydd o safleoedd tirlenwi yn ddull posibl o ddargyfeirio pob math o wastraff o'r safleoedd tirlenwi er mwyn cyflawni prif amcanion polisi Llywodraeth

Cynulliad Cymru, a nodir yn *Strategaeth Amgylcheddol Cymru*[47] a Strategaeth Wastraff newydd Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.

**Diben ac Effaith a Fwriedir**

8.3.5 Prif amcan y cynnig hwn yw lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Byddai gwaharddiad neu gyfyngu ar safleoedd tirlenwi hefyd yn:

- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- lleihau ôl troed ecolegol Cymru
- arbed adnoddau sy'n werthfawr ac sy'n dod yn fwyfwy prin
- arf polisi hollbwysig i ysgogi newid i drywyddau rheoli mwy cynaliadwy (e.e. Ailgylchu) ar gyfer defnyddio deunyddiau gwastraff bioddiraddiadwy a deunyddiau y gellir eu hailgylchu
- cefnogi egwyddorion a dulliau cyflenwi y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig
- cefnogi egwyddorion y Gyfarwyddeb Tirlenwi ac yn helpu i'w chyflenwi
- helpu i gyflawni Strategaeth Gwastraff gyfredol Cymru (y*n Gall gyda Gwastraff*) a'r Strategaeth Gwastraff newydd arfaethedig (*Tuag at Ddyfodol Diwastraff*)
- ysgogi datblygiad seilwaith arall ar gyfer rheoli gwastraff

**Sail Resymegol Ymyrraeth y Llywodraeth**

8.3.6 Mae adfer a gwaredu gwastraff yn achosi allanoldebau i gymdeithas ar ffurf allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o safleoedd tirlenwi. Sail resymegol polisi gwastraff Llywodraeth y Cynulliad yw mynd i'r afael ag allanoldebau o'r fath a'r niwed a achosir ganddynt, gan wella felly'r canlyniadau amgylcheddol ar draws Cymru.

**Opsiynau polisi sydd dan ystyriaeth**

8.3.7 Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion i wneud rheoliadau ynghylch gwahardd neu osod cyfyngiadau ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi. Gallai gwaharddiad neu gyfyngiad ar dirlenwi gynnwys gwastraff bwyd a diod, papur a chardfwrdd, pren, metelau a phlastig. Yr opsiynau dan ystyriaeth yw:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol;
- Opsiwn 2 – Drwy'r Mesur arfaethedig, darparu pŵer i Weinidogion Cymru wahardd neu osod cyfyngiadau ar anfon rhai mathau o wastraff i safleoedd tirlenwi.

**Costau a buddion**

8.3.8 Yn 2010, bydd y Rhaglen Weithredu Adnoddau Gwastraff (WRAP) yn cyhoeddi canlyniadau'r prosiect a gomisiynwyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig a DEFRA i edrych ar bosibilrwydd cyflwyno gwaharddiadau

[47] *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006.

neu osod cyfyngiadau ar safleoedd tirlenwi ledled y DU. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys asesiad cychwynnol o'r costau a'r buddion ar lefel y DU. Ar yr un pryd â chyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd Llywodraeth y Cynulliad a DEFRA yn cynnal ymgynghoriad polisi ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwaharddiadau tirlenwi neu gyfyngiadau ar fathau penodol o wastraff. Petai Llywodraeth y Cynulliad, ar sail yr ymgynghoriad hwn a gwaith ymchwil cysylltiedig, eisiau gwahardd neu osod cyfyngiadau ar fathau penodol o wastraff, byddai'r pŵer a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan y Mesur arfaethedig hwn yn eu galluogi i gynnig rheoliadau i'r perwyl hwnnw.

8.3.9 Byddai unrhyw reoliadau a gaiff eu cynnig o dan y pwerau a ddarperir gan ddarpariaethau tirlenwi y Mesur arfaethedig yn destun y weithdrefn gadarnhaol, ac o ganlyniad byddai angen i'r Cynulliad Cenedlaethol eu dadlau a'u cymeradwyo. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal ar unrhyw reoliadau drafft sy'n cynnig gwahardd neu gyfyngu ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Bydd angen i'r asesiad effaith rheoleiddiol edrych yn benodol ar gostau a buddion gwahardd neu gyfyngu ar fathau penodol o wastraff, fel gwydr neu blastigion, a bydd yn cynnwys amcangyfrif o unrhyw gostau gweinyddu, costau cydymffurfio a chostau eraill fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw waharddiad neu gyfyngiad. Bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar unrhyw reoliadau arfaethedig ac ar yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig.

8.3.10 Isod, rhoddir dadansoddiad cost a budd cyffredinol o'r ddau brif opsiwn polisi. Mae hwn yn nodi'r math o gostau gweinyddu, costau cydymffurfio a chostau eraill y mae'n debyg y bydd yn rhaid eu hysgwyddo yn sgil cyflwyno gwaharddiad, a hefyd pwy fyddai'n gorfod talu'r costau hynny. Nid ydynt yn cynnwys amcangyfrifon o'r costau posibl, gan na chynigiwyd unrhyw waharddiadau na chyfyngiadau manwl hyd yma. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i edrych yn fanwl ar y potensial ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau tirlenwi. Cyhoeddir adroddiad ar y mater hwn yng ngwanwyn 2010, a fydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, asesiad o gostau a buddion gwaharddiadau tirlenwi ar lefel y DU. Mae'r costau a'r buddion yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar ba fath o ddeunydd gwastraff yn union sydd o dan sylw. I gyd-fynd â'r adroddiad hwn, bydd Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau posibl ar gyfer gwaharddiadau neu gyfyngiadau tirlenwi. O ganlyniad i'r gwaith hwn, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych mewn mwy o fanylder ar gostau gwahardd neu gyfyngu ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi ar lefel Cymru. Bydd angen i asesiadau o'r fath ystyried, yn benodol, fannau gwaredu posibl ar gyfer deunyddiau gwastraff sydd wedi'u gwahardd neu eu cyfyngu, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer y seilwaith rheoli gwastraff yng Nghymru. Yn sgil y patrwm clir o ddatblygiadau polisi yn y maes hwn, rydym o'r farn na fyddai'n briodol gosod amcangyfrifon cyffredinol iawn, yn seiliedig ar ddata y DU, o gostau gwahardd neu gyfyngu ar anfon mathau penodol o wastraff i safleoedd tirlenwi. Gallai amcangyfrifon o gostau o'r fath fod yn gamarweiniol. Rydym o'r farn y

byddai'n fwy priodol adlewyrchu amcangyfrifon o gostau yn llawn yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw reoliadau drafft.

***Opsiwn 1 - Gwneud dim/parhau â'r sefyllfa bresennol***

8.3.11 Ni ddisgwylir unrhyw gostau na buddion ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn "gwneud dim".

***Opsiwn 2 – Drwy'r Mesur arfaethedig, darparu pŵer i Weinidogion Cymru wahardd neu osod cyfyngiadau ar anfon rhai mathau o wastraff i safleoedd tirlenwi***

8.3.12 Mae'n debygol y byddai unrhyw waharddiad neu gyfyngiad arfaethedig ar waredu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi yn achosi nifer o gostau.

8.3.13 Mae'r brif gost o dan y senario hwn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yng nghost y gwahanol ddulliau trin gwastraff (h.y. tirlenwi neu ailgylchu). Byddai disgwyl i awdurdodau lleol wynebu costau ychwanegol yn nhermau systemau seilwaith a chasglu. Byddai hyn yn amrywio gan ddibynnu ar natur unrhyw waharddiad neu gyfyngiadau arfaethedig, yr hyn sydd yn y gwastraff, y dulliau casglu a phrosesu a ddefnyddir a lleoliad y gwastraff (mae costau casglu sbwriel mewn ardaloedd trefol a gwledig yn wahanol). Mae'n rhaid edrych ar hyn yng nghyd-destun buddsoddiad ariannol sylweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ailgylchu gwastraff trefol ers 2001.

8.3.14 Mae'n debygol hefyd y byddai rheoleiddiwr yn wynebu mwy o gostau, o ran canllawiau, hyfforddiant, rheoleiddio a gweithredu unrhyw waharddiad neu gyfyngiadau. Byddai'r rhain yn amrywio gan ddibynnu ar y gwaharddiadau neu'r cyfyngiadau a gyflwynir. Efallai y byddai disgwyl i fusnesau dalu costau casglu gwastraff uwch. Byddai rhagor o ofynion o ran rheoli eu gwastraff ar y safle (pe bai'r deunyddiau a waherddir neu y cyfyngir arnynt yn cael eu rhagddidoli) neu oddi ar y safle (pe bai angen prosesau trin gwastraff mwy sylweddol). Byddai'r gost hon yn amrywio gan ddibynnu ar natur unrhyw waharddiad neu gyfyngiadau a gyflwynir, yr hyn sydd yn y gwastraff, y dulliau casglu a phrosesu a ddefnyddir a lleoliad y gwastraff (mae costau casglu sbwriel mewn ardaloedd trefol a gwledig yn wahanol).

8.3.15 Byddai disgwyl i Weithredwyr Safleoedd Tirlenwi newid eu gweithrediadau ac ailhyfforddi staff. Efallai y byddai eu hincwm yn gostwng yn sylweddol gan fod llai o fasnach. Gan ddibynnu ar y math o waharddiad a gyflwynid, efallai y byddai gweithredwyr yn wynebu costau profi uwch ar gyfer y gwastraff sy'n cyrraedd eu safleoedd.

8.3.16 Byddai angen cyfnod rhagarweiniol hir cyn i unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ddod i rym. Mae astudiaeth y Rhaglen Weithredu Adnoddau Gwastraff (WRAP) yn awgrymu cyfnod rhagarweiniol o 5 mlynedd wrth gyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiad ar fathau unigol o wastraff y gellir ei ailgylchu neu ei adfer.

8.3.17 Gellid disgwyl i waharddiad neu gyfyngiadau ar waredu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi arwain at nifer o fanteision eang.

8.3.18 Mae gwaredu gwastraff drwy dirlenwi yn opsiwn amgylcheddol gwael sy’n cael effaith eithriadol o negyddol ar y newid yn yr hinsawdd. Mae gwastraff bioddiraddiadwy, wrth bydru, yn rhyddhau methan, nwy tŷ gwydr niweidiol sydd 23 gwaith yn fwy nerthol na charbon deuocsid. Mae oddeutu 61% o’r gwastraff trefol a 61% o’r gwastraff diwydiannol a masnachol sy’n mynd i safleoedd tirlenwi yn fioddiraddiadwy[48,49]. Byddai lleihau'r gwastraff bioddiraddiadwy a waredir mewn safleoedd tirlenwi yn lleihau'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau gan safleoedd o'r fath.

8.3.19 Yn ogystal â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae disgwyl hefyd y bydd lleihau’r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn lleihau’r anfanteision (neu gostau) a achosir gan ddiffyg mwynder (Mae ‘diffyg mwynder’ yn anfantais sy’n ymwneud yn benodol â lleoliad). Rhagdybir bod trigolion lleol yn wynebu costau sy'n gysylltiedig ag diffyg mwynder y safle, hynny yw sŵn, llwch, arogl, sbwriel, fermin ac effeithiau gweledol. Efallai y bydd safleoedd tirlenwi’n achosi effeithiau amgylcheddol eraill, er enghraifft llygru dŵr daear yn sgil trwytholchi. Bydd lleihau'r gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi yn lleihau effaith y ffactorau uchod.

8.3.20 Oherwydd y ddibyniaeth ar dirlenwi, nid oes digon o opsiynau eraill wedi’u datblygu ar gyfer ailgylchu ac adfer sbwriel. Mae hyn yn cyferbynnu ag Aelod-wladwriaethau'r UE sydd wedi cyflwyno offerynnau cyfreithiol ac economaidd megis gwaharddiadau ar waredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, estyn cyfrifoldeb y cynhyrchydd am ailgylchu ac adfer gwastraff, trethi uchel ar dirlenwi a chodi tâl yn uniongyrchol am waredu gwastraff cartref. Efallai y bydd cyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar dirlenwi yn ysgogiad i ddatblygu seilwaith arall ar gyfer rheoli gwastraff a sicrwydd yn y farchnad ynghylch argaeledd y deunyddiau.

8.3.21 Bydd gwaharddiadau neu gyfyngiadau tirlenwi yn helpu i gyflawni Strategaeth Swyddi Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru[50] sy'n annog busnesau a sefydliadau yng Nghymru i wella'u perfformiad amgylcheddol eu hunain a manteisio ar y cyfleoedd busnes sy'n codi wrth i gymdeithas symud tuag at ffyrdd o fyw a gweithio sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac yn ystyriol o’r hinsawdd. Datblygir seilwaith ailgylchu ac adfer newydd yn sgil dargyfeirio deunyddiau o safleoedd tirlenwi, a dylai hynny arwain at ragor o swyddi yn y sector gwastraff.

8.3.22 Efallai y bydd gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar dirlenwi yn helpu i arbed adnoddau sy'n werthfawr ac sy'n dod yn fwyfwy prin. Er enghraifft, defnyddir cronfeydd olew cyfyngedig i gynhyrchu plastig. Mae pryder

---

[48] *Composition of Municipal and Solid Waste in Wales*; MEL, Waste Research, WRc, AEA Technology 2003.
[49] *Determination of the Biodegradability of Mixed Industrial and Commercial Waste Landfilled in Wales*; SLR Consulting 2007.
[50] *Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.

cynyddol ynghylch diogelwch cyflenwi olew, a'i gost. Yn yr un modd, mae rhai metelau uchel eu gwerth yn mynd yn brinnach, gyda dim ond ychydig o wledydd yn rheoli'r cyflenwad ohonynt. Mae gwrtaith artiffisial yn mynd yn ddrutach wrth i brisiau ynni godi, ac mae tystiolaeth yn dangos bod y cyflenwadau mwynau ffosffad yn lleihau – sy'n golygu y gallai biowastraff fod yn ffynhonnell bwysig i gymryd lle gwrtaith a ffosffad.

**Casgliad**

8.3.23 Rhyddheir allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr niweidiol pan fo gwastraff yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi a chaiff adnoddau a allai fod yn werthfawr eu colli. Un ffordd o leihau'r effeithiau hyn yw cyflwyno gwaharddiad / cyfyngiad ar waredu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi. Gallai unrhyw bŵer a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wahardd / cyfyngu ar wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi achosi costau ychwanegol i awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, busnesau a gweithredwyr safleoedd tirlenwi, gan ddibynnu ar y math o waharddiad neu'r cyfyngiad a gyflwynir. Ar y llaw arall, gallai'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon o'r Mesur arwain at fanteision amgylcheddol sylweddol. Gallai'r rhain gynnwys lleihau nwyon tŷ gwydr; lleihau'r anfanteision o ran diffyg mwynder; datblygu seilwaith arall ar gyfer rheoli gwastraff; a diogelu adnoddau gwerthfawr a phrin. Comisiynwyd dadansoddiad llawn o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau / cyfyngiadau tirlenwi. Bydd y dadansoddiad hwn yn sail ar gyfer penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cyflwyno gwaharddiadau / cyfyngiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

**Profion Effeithiau Penodol**

8.3.24 Nid oes modd cynnal profion effeithiau penodol nes bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer unrhyw reoliadau arfaethedig i'w cyflwyno o dan y ddarpariaeth hon o'r Mesur.

## Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle

### Cefndir

8.4.1 Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) yn ailddatgan pwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol llunio Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch llunio cynlluniau ffioedd a chodi tâl mewn perthynas â'r Cynlluniau hyn.

8.4.2 Bydd angen rheoleiddiwr i fonitro y cydymffurfir yn effeithiol â rheoliadau'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle, a bydd angen adnoddau arno er mwyn ymgymryd â dyletswyddau o'r fath. Un opsiwn ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yw cyflwyno cynllun ffioedd a chodi tâl. Yn ei hanfod, system godi tâl yw hon lle codir am y gwaith o brosesu neu wirio Cynllun Rheoli Gwastraff Safle a/neu y codir tâl i adennill costau unrhyw waith sydd ei angen i fonitro y cydymffurfir â'r rheoliadau.

8.4.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig ymgynghori ddiwedd 2010 ar system ffioedd a chodi tâl fel rhan o'r prif ymgynghoriad ar Reoliadau'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal Dadansoddiad Cost a Budd ac Asesiad Effaith o'r opsiynau i'w cynnig yn yr ymgynghoriad ar reoliadau'r Cynlluniau yng Nghymru.

8.4.4 Mae Asesiad Effaith arall wedi'i gynnal i edrych ar y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â chyflwyno taliadau. Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith hwn yn gynnar yn y Dadansoddiad Cost a Budd, er mwyn rhoi rhywfaint o gefndir wrth gyflwyno darpariaeth godi tâl yn y Mesur. Ni phenderfynwyd eto ar yr opsiynau polisi o ran y Cynlluniau, nac ychwaith y mecanwaith ar gyfer adennill costau na sut y byddai cynllun ffioedd a chodi tâl yn gweithio. O'r herwydd, mae'r opsiynau a'r data sy'n gysylltiedig â chyflwyno cynllun codi tâl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn amcangyfrifon bras. Bydd yr opsiynau a'r data yn cael eu mireinio maes o law wrth i'r Dadansoddiad Cost a Budd a'r Asesiad Effaith gael eu cwblhau ym mis Ebrill 2010.

### Diben ac Effaith a Fwriedir

8.4.5 Byddai cynllun ffioedd a chodi tâl yn gwneud darpariaeth ar gyfer adennill costau monitro a gorfodi a gweithgareddau cyffredinol eraill a nodir gan ofynion adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Nod y cynllun codi tâl fyddai:

a) Adennill costau er mwyn galluogi'r rheoleiddiwr i ymgymryd â dyletswyddau monitro a gorfodi yn effeithiol. Hynny yw prosesu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle a monitro i raddau go gywir lwyddiant y rheoliadau yn lleihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi;

b) Galluogi'r rheoleiddiwr i orfodi pan fo cwmnïau yn methu â chydymffurfio â’r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle, lle bynnag a phryd bynnag y mae gofyn, yn unol â’r egwyddor ‘y Llygrwr sy'n Talu’.

**Opsiynau**

8.4.6 I roi syniad o'r costau y gallai cynllun codi tâl eu cyflwyno, rhoddwyd ystyriaeth i dri opsiwn bras ar gyfer yr Asesiad Effaith ar godi tâl:

Opsiwn 1 - Gwneud Dim;
Opsiwn 2 - Drwy’r Mesur Gwastraff arfaethedig, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn syml o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.
Opsiwn 3 - Drwy’r Mesur Gwastraff arfaethedig, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn gynhwysfawr o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

***Opswn 1 - Gwneud Dim***

8.4.7 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai cynllun codi tâl yn cael ei gyflwyno i ddarparu adnoddau ar gyfer rheoleiddio unrhyw reoliadau a ddaw i rym mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

***Opsiwn 2 - Drwy’r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn syml o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle***

8.4.8 Y disgwyl yw mai'r cynllun hwn fydd yn arwain at y costau rheoleiddio lleiaf i Lywodraeth y Cynulliad a'r rheoleiddiwr. O dan y cynllun syml, rydym wedi modelu dwy opsiwn: cynllun a gaiff ei reoleiddio gan awdurdodau lleol, a chynllun a gaiff ei reoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Nid ydym wedi modelu'r opsiwn o gael dau reoleiddiwr, fel sy'n digwydd yn achos y rheoliadau yn Lloegr.

8.4.9 Gan ddefnyddio model fyddai'n cyflwyno trothwy tebyg i drothwy'r rheoliadau yn Lloegr (£300,000[51]), byddai disgwyl i gwmnïau yn y sector Adeiladu a Dymchwel baratoi, diweddaru a gweithredu Cynllun Rheoli Gwastraff Safle os ydynt yn rhan o brosiect adeiladu neu ddymchwel gwerth mwy na £300,000. Byddai rhaid paratoi Cynllun Rheoli Gwastraff Safle a'i gyflwyno i'r rheoleiddiwr cyn i'r gwaith gychwyn ar bob prosiect Adeiladu a Dymchwel ar un safle gwerth mwy na'r trothwy hwnnw. Byddai tâl yn cael ei godi bryd hynny i adennill costau adolygu'r Cynllun ac unrhyw waith monitro dilynol gan y rheoleiddiwr.

8.4.10 Byddai rhaid i'r cynllun cael ei roi ar waith ac yna ei ddiweddaru wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Disgwylir y byddai angen mwy o fanylder yn

[51] Bydd y Dadansoddiad Cost a Budd a'r Asesiad Effaith yn edrych yn fwy manwl ar drothwyon i'w cyflwyno ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar y trothwyon fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynlluniau y nes ymlaen eleni. Mae'r opsiynau presennol ar gyfer trothwyon yn cynnwys gwerth prosiectau, maint y prosiectau (hynny yw, nifer yr anheddau), a throthwyon hysbysiadau cynllunio ac adeiladu yr awdurdodau lleol.

achos prosiectau mwy o faint. Byddai'r manylion hyn yn cynnwys cofnodi math a meintiau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, gyda chofnod neu gyfeiriad yn y cynllun at bob gwastraff. Diben hyn fyddai cydymffurfio â gofynion y cynllun Dyletswydd Gofal i atal gweithgareddau sydd yn erbyn y gyfraith, fel tipio anghyfreithlon.

***Opsiwn 3 - Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn gynhwysfawr o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle***

8.4.11 Byddai angen adennill rhagor o gostau ar gyfer cyfundrefn fanylach a mwy cynhwysfawr o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle, a fyddai'n berthnasol i nifer mwy helaeth o brosiectau Adeiladu a Dymchwel.

8.4.12 Gallai cynllun o dan yr opsiwn hwn gynnwys egwyddorion atal a lleihau gwastraff ("dylunio nad oes gwastraff") ym mhob cam o'r prosiectau Adeiladu a Dymchwel. Yn ogystal â datblygwyr prosiectau, gall dylunwyr hefyd ddisgwyl bod yn rhan o'r gwaith o baratoi, adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli Gwastraff Safle.

8.4.13 O dan y cynllun cynhwysfawr, rydym wedi modelu dau opsiwn: cynllun a gaiff ei reoleiddio gan awdurdodau lleol, a chynllun a gaiff ei reoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Fel y cynllun syml, nid ydym wedi modelu opsiwn o gael dau reoleiddiwr, fel sydd yn digwydd yn achos y rheoliadau yn Lloegr.

8.4.14 Mae'r trothwyon ar gyfer prosiectau Adeiladu a Dymchwel sy'n cymryd rhan mewn cynllun o'r fath yn debyg o fod yn is na throthwy'r cynllun syml (£300,000), a byddai gofyn i fwy o brosiectau gyflwyno Cynllun i'r rheoleiddiwr. Byddai hyn yn sicrhau bod canran uwch o'r rheini sy'n gweithio yn y sector Adeiladu a Dymchwel yn gyfarwydd â system y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

**Costau**

8.4.15 O edrych ar y gwaith a wnaed ar Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle y tu allan i Gymru, cynhaliwyd Dadansoddiad Cost a Budd yn 2007 a 2008 ar gyfer rheoliadau'r Cynlluniau yn Lloegr. Serch hynny, ni fyddai'n dderbyniol defnyddio'r astudiaeth hon oherwydd nid yw'r opsiynau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru yn union debyg i'r rheini y cynhaliwyd asesiad ohonynt yn Lloegr

8.4.16 Felly, er bod peth gwybodaeth yn yr astudiaeth honno am gostau cyflwyno gwahanol systemau ar gyfer casglu a dyrannu'r arian a godir trwy daliadau, does dim sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r opsiynau sy'n cael eu trafod yma. Oherwydd hyn, cynhaliwyd ymarfer modelu pwrpasol a lefel uchel i amcangyfrif y costau i Lywodraeth y Cynulliad a'r rheoleiddiwr yn sgil gweithredu'r gwahanol opsiynau. Y rhain sy'n rhoi'r amcangyfrifon gorau o'r costau gweinyddu, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig (Opsiynau 2 a 3) yn arwain atynt. Petai Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl, y

sector Adeiladu a Dymchwel fyddai'n gorfod ysgwyddo'r costau, yn llawn neu'n rhannol, ac yn benodol y cwmnïau hynny fyddai'n gorfod paratoi a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Ceir crynodeb o gostau'r flwyddyn gyntaf a'r costau rheolaidd yn Nhablau 8 a 9.

8.4.17 Mae'r costau gweinyddu (sefydlu) yn y flwyddyn gyntaf, ar gyfer Opsiwn 2, yn amrywio o £648,792 i £652,681 tra bod y costau ar gyfer Opsiwn 3 yn amrywio o £4,220,305 i £4,238,336. Mae'r costau rheolaidd (gweinyddu a chydymffurfio) ar gyfer Opsiwn 2 yn amrywio o £109,857 i £116,695, tra bod y costau ar gyfer Opsiwn 3 yn amrywio o £3,205,226 i £3,508,201. Mae Opsiwn 2 yn rhagdybio y bydd 2,200 o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu llunio bob blwyddyn, ac Opsiwn 3 yn rhagdybio y bydd 19,800 o Gynlluniau yn cael eu llunio bob blwyddyn.

8.4.18 Petai penderfyniad yn cael ei wneud i adfer y costau llawn wrth y sector Adeiladu a Dymchwel er mwyn talu am gostau gweinyddu y flwyddyn gyntaf, a'r costau gweinyddu a chydymffurfio rheolaidd, byddai'r costau hynny yn cael eu hadlewyrchu yn y ffi ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Gan dybio y byddai costau gweinyddu y flwyddyn gyntaf yn cael eu hadfer dros gyfnod o bum mlynedd, byddai'r costau fesul Cynllun Rheoli Gwastraff Safle tua £111 ar gyfer Opsiwn 2 a £213 ar gyfer Opsiwn 3. Ar ôl i'r cyfnod o bum mlynedd ddod i ben, byddai'r costau fesul Cynllun Rheoli Gwastraff Safle yn gostwng i tua £52 ar gyfer Opsiwn 2 a £170 ar gyfer Opsiwn 3. Byddai'r amcangyfrifon hyn yn berthnasol pe eid ati i adfer yr holl gostau. Gallai'r gost i fusnesau fod yn is pe eid ati i adfer rhan o'r costau. Byddai angen i Lywodraeth y Cynulliad ysgwyddo gweddill y costau.

***Opsiwn 1 - Gwneud Dim***

8.4.19 Dyma'r opsiwn sylfaenol, lle na fyddid yn cyflwyno cynllun codi tâl. Byddai angen dod o hyd i arian o ffynhonnell arall, neu ni fyddai gan y gyfundrefn unrhyw ofyniad penodol i reoleiddio, neu byddai angen gofyn i gwmnïau'r sector Adeiladu a Dymchwel lunio Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn wirfoddol.

***Opsiwn 2 - Drwy'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn syml o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle***

8.4.20 Ni ellir bod yn sicr ynghylch cost yr opsiwn hwn oherwydd anhawster yn amcangyfrif faint o brosiectau y byddai angen paratoi Cynllun ar eu cyfer. Hyd yma, nid oes asesiad cynhwysfawr wedi ei gynnal o nifer y prosiectau adeiladu sydd wedi'u cwblhau yng Nghymru. Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU ar gyfer 2008 yn awgrymu bod tua 11,000 o fusnesau wedi eu cofrestru yng Nghymru yn y sector Adeiladu a Dymchwel.

8.4.21 O dan yr opsiwn hwn, amcangyfrifir y byddai cyfanswm o 2,200 o Gynlluniau yn cael eu cwblhau bob blwyddyn. Serch hynny, mae'r ffigwr hwn wedi ei seilio ar amcangyfrif o nifer yr hysbysiadau rheoli adeiladu a gyflwynir bob blwyddyn yng Nghymru sy'n werth mwy na throthwy penodol,

sef £300,000. Ond mae'n debyg y byddai nifer y Cynlluniau sydd angen eu cwblhau o dan yr opsiwn hwn yn cael ei fireinio yn yr Asesiad Effaith llawn.

8.4.22 Ceir amcangyfrif o gost y cynllun hwn isod, ac fe'i ceir hefyd yn Nhablau 8 a 9 ar ddiwedd yr adran hon. Cyfrifwyd y costau hyn drwy ddefnyddio (yn y rhan fwyaf o achosion) y model costau safonol.
At ddibenion modelu, cymerwyd mai'r rheoleiddiwr mwyaf tebygol yng Nghymru fyddai'r awdurdodau lleol. Serch hynny cydnabyddir y gellid defnyddio Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd fel rheoleiddiwr. Oherwydd hynny cyflwynir amcangyfrif o gostau defnyddio Asiantaeth yr Amgylchedd yn y tablau ar ddiwedd yr adran hon hefyd.

8.4.23 Gellir rhannu costau'r cynllun syml yn ddau faes penodol: y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynllun, a'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y cynllun.

8.4.24 O ran y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynllun, amcangyfrifir y byddai cyfanswm y costau paratoi tua £650,000. Mae'r costau hyn, sydd i'w gweld yn Nhablau 8 a 9, yn gysylltiedig â'r meysydd canlynol:

- datblygu canllawiau a chyhoeddusrwydd;
- datblygu system TG;
- hyfforddiant;
- datblygu systemau eraill (e.e. ffurflenni cais);
- cyfarpar.

8.4.25 Amcangyfrifir y byddai datblygu'r canllawiau a chyhoeddusrwydd yn costio tua £120,000 i gychwyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd cost hyrwyddo'r cynllun ledled Cymru. O dan yr opsiwn hwn, disgwylir y byddai'r canllawiau yn debyg iawn i'r canllawiau anstatudol sydd ar gael yn Lloegr, ac felly ni ddylent fod yn gostus i'w paratoi.

8.4.26 Amcangyfrifir y byddai datblygu system TG ar gyfer y cynllun syml yn costio £0.5 miliwn. Byddai'r system hon yn cael ei defnyddio gan y rheoleiddiwr i gofnodi manylion sylfaenol y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.

8.4.27 Byddai angen i'r rheoleiddiwr gael hyfforddiant ar broses y Cynlluniau. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm y costau hyfforddi a recriwtio sy'n gysylltiedig â'r cynllun tua £26,000.

8.4.28 O dan y cynllun syml, amcangyfrifir y byddai datblygu ffurflenni cais ar gyfer y Cynlluniau yn costio tua £3,000. Y tebyg yw y byddai'r ffurflenni hyn yn debyg iawn i'r rheini sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn Lloegr ac felly mai prin fyddai costau eu datblygu.

8.4.29 Oherwydd yr ansicrwydd sylweddol ynghylch nifer y Cynlluniau y byddai disgwyl eu cwblhau bob blwyddyn, mae'r costau rheolaidd yn debyg iawn o newid. Oherwydd hynny, dylid ystyried mai amcangyfrif lefel uchel yw'r costau rheolaidd ar hyn o bryd.

8.4.30 Amcangyfrifir mai £110,000 fyddai costau rheolaidd y cynllun syml. Gellir dadansoddi'r costau hyn fel a ganlyn:

- ceisiadau;
- mân addasiadau fel newid enw neu newid y math o brosiect;
- arolygu a monitro;
- gorfodi a gosod sancsiynau troseddol;
- apelau;
- cydymffurfio;
- eithriadau.

8.4.31 Gallai'r cynllun osod dyletswydd ar y rheoleiddiwr i gofnodi/cadw cofrestr o'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle wrth iddynt gael eu cyflwyno. Byddai hyn yn rhan o'r ffi gofrestru. Gellid defnyddio'r arian a godir drwy'r tâl i ddarparu canllawiau i'r diwydiant ynghylch sut i wneud cais am Gynllun Rheoli Gwastraff Safle a sut i gydymffurfio ag ef, fel rhan o 'ddyletswydd' y rheoleiddiwr. Amcangyfrifir mai £50,000 fyddai costau rheolaidd ceisiadau, sef bron i hanner holl gostau rheolaidd y cynllun hwn.

8.4.32 Disgwylir y bydd mân addasiadau pan fo cynnwys gwreiddiol y Cynllun yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar y safle adeiladu ei hun. Amcangyfrifir y byddai gweinyddu'r newidiadau hyn yn costio £2,000 y flwyddyn.

8.4.33 Bydd disgwyl i'r rheoleiddwyr arolygu a monitro'r Cynlluniau. I adennill costau arolygu, gallai'r rheoleiddiwr godi tâl penodol am gynnal arolygiad. Byddai union gost y ffi yn dibynnu ar amryw o feini prawf, megis yr amcangyfrif o gost y gwaith, y math o waith a nifer yr anheddau. Amcangyfrifir mai tua £16,000 fyddai costau rheolaidd monitro ac arolygu.

8.4.34 Er mwyn gorfodi'r rheoliadau, disgwylir defnyddio cynllun o sancsiynau troseddol. Amcangyfrifir y byddai defnyddio hysbysiadau cosb penodedig a collfarnau diannod heb fod yn fwy na £50,000 yn costio £3,000 y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, byddai angen gweinyddu system apelio. Amcangyfrifir mai £1,000 fyddai costau rheolaidd y system apelio. At hynny, disgwylir hefyd y byddai cynllun cydymffurfio yn cael ei gyflwyno ar gyfer monitro troseddwyr. Amcangyfrifir y byddai cynllun cydymffurfio yn costio £300 y flwyddyn.

8.4.35 Yn olaf, er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n cofrestru eu hunain fel safleoedd wedi'u heithrio, yn safleoedd sydd wedi eu heithrio yn wirioneddol, disgwylir y bydd cynllun arolygu eithriadau yn cael ei gyflwyno. Amcangyfrifir mai £2,500 fyddai cost hyn bob blwyddyn.

***Opsiwn 3 - Drwy’r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff, darparu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun codi ffioedd a chodi tâl ar gyfer cyfundrefn gynhwysfawr o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle***

8.4.36 Fel yn achos y cynllun syml, mae costau'r cynllun hwn yn ansicr nes y bydd y gofynion penodol o ran rheoleiddio wedi cael eu datblygu ac yr ymgynghorwyd arnynt. Byddai hynny'n galluogi Llywodraeth y Cynulliad i amcangyfrif yn fwy cywir faint o brosiectau fyddai angen cwblhau Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. At ddibenion yr Asesiad Effaith

Rheoleiddiol hwn, rydym wedi cymryd mai 19,800 o Gynlluniau fyddai'n cael eu cwblhau bob blwyddyn. Mae'r ffigwr hwn wedi ei seilio ar amcangyfrif o nifer yr hysbysiadau rheoli adeiladu a gyflwynir bob blwyddyn yng Nghymru.

8.4.37 Ceir amcangyfrif cyffredinol o gostau'r cynllun hwn isod. Fe'u ceir hefyd yn Nhablau 8 a 9 ar ddiwedd yr adran hon, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer y cynllun syml. Fel yn achos y cynllun syml, cyfrifwyd y costau hyn drwy ddefnyddio (yn y rhan fwyaf o achosion) y model costau safonol.

8.4.38 At ddibenion modelu, cymerwyd mai Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai'r rheoleiddiwr. Serch hynny cydnabyddir y gellid defnyddio awdurdodau lleol hefyd fel rheoleiddiwr. Oherwydd hynny cyflwynir amcangyfrif o gostau defnyddio awdurdodau lleol fel rheoleiddiwr yn y tablau ar ddiwedd yr adran hon hefyd.

8.4.39 O ystyried y costau pontio y byddai’n rhaid eu talu unwaith yn unig wrth drosglwyddo i’r cynllun hwn, amcangyfrifir mai tua £4.2 miliwn fyddai cyfanswm y costau paratoi. Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- datblygu canllawiau a chyhoeddusrwydd;
- datblygu system TG;
- hyfforddiant;
- datblygu systemau eraill (e.e. ffurflenni cais);
- cyfarpar.

8.4.40 Ym mhob un o'r meysydd uchod, y disgwyl yw y byddai'r costau yn uwch na'r rheini ar gyfer y cynllun syml. Gellir priodoli hyn i'r ffaith y byddai'n gynllun mwy cymhleth, fyddai wedi ei deilwra nid yn unig i'r rheini sy'n cymryd rhan yng ngham adeiladu prosiectau ond hefyd i'r rheini sy'n eu dylunio (e.e. penseiri) a'r rheini sy'n rheoli'r gwastraff sy'n deillio ohonynt (e.e. cludwyr ac ailbroseswyr).

8.4.41 Amcangyfrifir y byddai datblygu canllawiau a chyhoeddusrwydd y cynllun yn costio £1.1 miliwn. Priodolir y costau hyn i ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer dylunwyr prosiectau, gweinyddwr prosiectau a'r rheini sy'n ymdrin â'r gwastraff. Y disgwyl hefyd yw y cynhelid ymgyrch gyhoeddusrwydd sylweddol i dynnu sylw at system y Cynlluniau.

8.4.42 Amcangyfrifir mai £3.0 miliwn fyddai cost system TG ar gyfer y cynllun hwn. Serch hynny, seiliwyd y ffigwr hwn ar amcanbris, a bydd y gost hon yn cael ei hastudio'n fanylach yn y Dadansoddiad Cost a Budd ac yn yr Asesiad Effaith.

8.4.43 Disgwylir y byddai staff Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gallu defnyddio'r system, ac oherwydd hynny y disgwyl yw y bydd yn costio chwe gwaith pris y system arfaethedig ar gyfer y cynllun syml.

8.4.44 Disgwylir y byddai angen rhoi hyfforddiant helaeth i staff gorfodi’r Rheoleiddiwr ynghylch pob agwedd ar system y Cynlluniau. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio £136,000. Oherwydd y byddai ffurflenni cais a deunydd perthnasol eraill yn cael eu teilwra'n arbennig ar gyfer Cymru, amcangyfrifir y byddai datblygu'r rhain yn costio £11,000.

8.4.45 Eto fel yn achos y cynllun syml, mae'r costau rheolaidd yn sensitif iawn i nifer y Cynlluniau y mae disgwyl eu cwblhau bob blwyddyn. Oherwydd hynny, dylid ystyried mai amcangyfrif lefel uchel yw'r costau rheolaidd ar hyn o bryd.

8.4.46 Amcangyfrifir mai £3.5 miliwn fyddai cyfanswm y costau rheolaidd. Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- trafodaethau cyn gwneud cais;
- ceisiadau;
- mân addasiadau;
- arolygu a monitro;
- gorfodi a gosod sancsiynau troseddol;
- apelau;
- cydymffurfio;
- eithriadau;
- gwirio'r Cynlluniau.

8.4.47 Er mwyn dylunio nad oes gwastraff o’r cam cyntaf ymlaen yn y broses ddatblygu disgwylir, o dan y cynllun hwn, y byddai gofyn i ddylunwyr prosiectau gael trafodaethau â'r rheoleiddiwr cyn gwneud cais am Gynllun er mwyn sicrhau bod egwyddorion lleihau gwastraff yn cael eu hintegreiddio yn y prosiect o'r dechrau'n deg. Amcangyfrifir mai £639,000 y flwyddyn fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

8.4.48 O ran y gwaith o wneud cais, arolygu a gorfodi, y disgwyl yw na fyddai'r gofynion ar y rheoleiddiwr yn wahanol i'r rheini a amlinellwyd ar gyfer y cynllun syml. Serch hynny, disgwylir i'r costau fod yn uwch na'r rheini ar gyfer y cynllun syml oherwydd y gwaith mwy trwyadl y byddai ei angen o dan yr opsiwn hwn. Mae'r costau rheolaidd i'w gweld isod yn y tabl cryno o'r costau.

8.4.49 Mae'n bosib mai gwirio'r Cynlluniau fyddai cam olaf y broses mewn cyfundrefn gynhwysfawr. O dan y cynllun hwn, disgwylid y byddai Cynlluniau yn cael eu gwirio er mwyn sicrhau bod y Cynlluniau a gyflwynir i'r rheoleiddiwr yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau, a'u bod yn cyd-fynd â gofynion eraill, er enghraifft â'r cynllun Dyletswydd Gofal. Amcangyfrifir mai £414,000 fyddai costau rheolaidd gweinyddu'r broses hon.

**Tabl 8, Tabl Cryno o'r Costau - Costau'r Flwyddyn 1af**

| | Opsiwn 1: Gwneud dim | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu | | | | | |
| Canllawiau a Chyhoeddus-rwydd | - | £120,303 | £121,895 | £1,108,834 | £1,109,198 |
| Systemau TG | - | £500,000 | £500,000 | £3,000,000 | £3,000,000 |
| Hyfforddiant | - | £25,898 | £28,196 | £124,371 | £136,037 |
| Systemau | - | £2,590 | £2,590 | £11,100 | £11,100 |
| **Cyfanswm** | **-** | **£648,792** | **£652,681** | **£4,220,305** | **£4,238,336** |

**Tabl 9, Tabl Cryno o'r Costau - Costau Rheolaidd**

| | Opsiwn 1: Gwneud dim | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu | | | | | |
| Canllawiau a Chyhoeddus-rwydd | - | £10,000 | £10,000 | £100,000 | £100,000 |
| Systemau TG | - | £25,000 | £25,000 | £150,000 | £150,000 |
| Hyfforddiant | - | - | - | - | - |
| Systemau | - | - | - | - | - |
| Costau Cydymffurfio | | | | | |
| Gweithgaredda u Cyn Gwneud Cais | - | - | - | £575,340 | £638,985 |
| Ceisiadau | - | £49,520 | £53,630 | £445,678 | £482,672 |
| Amrywiadau | - | £2,122 | £2,298 | £19,100 | £20,686 |
| Arolygu a Monitro | - | £15,982 | £17,750 | £1,150,680 | £1,277,970 |
| Gorfodi a Gosod Sancsiynau Troseddol - Cosbau Ariannol | - | £3,376 | £3,740 | £267,089 | £296,409 |
| Apelau ac Adennill Costau | - | £981 | £1,082 | £54,918 | £60,668 |
| Cydymffurfio | - | £320 | £355 | £57,534 | £63,898 |
| Eithriadau | - | £2,557 | £2,840 | £2,877 | £3,195 |
| Gwirio'r Cynlluniau | - | - | - | £382,010 | £413,719 |
| **Cyfanswm Costau Rheolaidd** | **-** | **£109,857** | **£116,695** | **£3,205,226** | **£3,508,201** |

## Buddion

8.4.50 Gan nad yw'r Dadansoddiad Cost a Budd a'r Asesiad Effaith ffurfiol wedi eu cwblhau eto, nid yw'r buddion uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad wedi'u cyfrifo.

8.4.51 Y disgwyl yw y bydd buddion llawn cyflwyno cynllun codi tâl yn cael eu harchwilio unwaith y bydd yr Asesiad Effaith wedi cael ei gwblhau. Rhagwelir mai dyma'r prif fanteision:

a) Helpu'r rheoleiddiwr i fonitro, arolygu a gorfodi'r rheoliadau drwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant;

b) Sicrhau bod cleientiaid a chontractwyr yn perchnogi swyddogaethau rheoli gwastraff, meithrin cysylltiadau a hwyluso cyfathrebu effeithiol â'r rheoleiddiwr;
c) Meithrin perthynas gryfach â chwmnïau a fydd yn dysgu, trwy gymorth a chefnogaeth, sut i fabwysiadu arferion cynaliadwy o ran rheoli gwastraff ar safleoedd adeiladu. Bydd hyn yn annog gwell defnydd o adnoddau, yn lleihau meintiau'r gwastraff a gynhyrchir ac yn hyrwyddo'r broses o ddylunio i leihau a rheoli gwastraff;
d) Gwybod y bydd y rheoliadau yn cael eu gorfodi'n effeithiol, y bydd lleihad mewn gweithgarwch anghyfreithlon o ran gwastraff ac y bydd gofal yn cael ei gymryd ar safleoedd adeiladu i reoli gwastraff yn briodol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Casgliad**

8.4.52 Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle y byddai angen eu cwblhau, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau cadarn ar sail y modelau uchod, yn enwedig o ran y costau rheolaidd.

8.4.53 Ymddengys, serch hynny, y gall costau cynnal cyfundrefn o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar hyd a lled y dyletswyddau rheoleiddio. Ar sail profiad rhoi Cynlluniau o'r fath ar waith yn Lloegr, gellir dangos bod costau'r cynllun syml yn fach iawn. Serch hynny, petai cynllun yn cael ei gyflwyno sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer Cymru, mae'n eglur y gallai'r costau cychwynnol a'r costau rheolaidd fod yn sylweddol uwch.

8.4.54 Nid yw buddion cyflwyno cynllun codi tâl wedi eu cyfrifo eto. Serch hynny, mae ymchwil yn dilyn cyflwyno'r system yn Lloegr wedi dangos bod rhoi Cynlluniau ar waith yn gynnar yng ngham dylunio prosiectau yn gallu arwain at arbedion sylweddol mewn costau i gleientiaid a chontractwyr yn ystod prosiectau adeiladu.

8.4.55 Mae Tabl 10 yn crynhoi'r amcangyfrifon o gostau lefel uchel ac yn dangos yr amrywiaeth eang yn yr amcangyfrifon hynny. Y disgwyl yw y bydd y gwaith hwn, a ddechreuwyd ym mis Rhagfyr 2009, yn dod i ben ym mis Ebrill 2010, ac felly nid yw'n bosibl rhoi asesiad terfynol o gostau a buddion yr opsiynau uchod ar hyn o bryd.

**Tabl 10, Crynodeb o'r Costau a'r Buddion**

| | Opsiwn 1: Gwneud dim | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 2: Cyfundrefn syml - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Awdurdodau Lleol yn rheoleiddio | Opsiwn 3: Cyfundrefn gynhwysfawr - Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Costau'r Flwyddyn 1af | | -£648,792 | -£652,681 | -£4,220,305 | -£4,238,336 |
| Cyfanswm Costau Rheolaidd | - | -£109,857 | -£116,695 | -£3,205,226 | -£3,508,201 |
| Cyfanswm Buddion y Flwyddyn 1af | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm Buddion Rheolaidd | - | - | - | - | - |
| **GNP 10 Mlynedd** | **-** | **-£1,484,551** | **-£1,540,462** | **-£28,604,656** | **-£30,927,625** |

8.4.56 Mae llinell olaf y tabl yn dangos Gwerth Net Presennol yr opsiynau wedi'u disgowntio dros 10 mlynedd. Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM, sef 3.5%, yn y cyfrifiadau.

**Profion Effeithiau Penodol**

Asesu Cystadleuaeth
Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gystadleuaeth.

Y Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach
Mae data Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU yn awgrymu bod tua 11,000 o fusnesau wedi eu cofrestru yng Nghymru yn y sector adeiladu a dymchwel. Bydd cyfran helaeth o'r rhain yn gwmnïau bach. Disgwylir y cynhelir prawf o'r effaith ar gwmnïau bach yn yr asesiad effaith llawn.

Cymorth Cyfreithiol
Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn effeithio ar lwyth gwaith llysoedd nac ar gymorth cyfreithiol.

Datblygu Cynaliadwy
Efallai y bydd y ddarpariaeth yn cyfrannu at egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy annog defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Asesiad Carbon
Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif graddfa bosibl yr effeithiau hyn.

Materion Amgylcheddol Eraill
Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif graddfa bosibl yr effeithiau hyn.

Asesu'r Effaith ar Iechyd
Nid ydym yn meddwl y bydd y ddarpariaeth hon yn creu galw sylweddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydraddoldeb Hiliol
Nid ydym o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Llywodraeth o dan y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol.

Cydraddoldeb i bobl anabl
Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb i bobl anabl yn deillio o'r ddarpariaeth hon.

Cydraddoldeb Rhywiol
Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol yn deillio o'r ddarpariaeth hon.

Hawliau Dynol
Hyd y gwyddom, nid yw'r ddarpariaeth arfaethedig yn debyg o gael unrhyw oblygiadau o ran hawliau dynol.

Prawfesur Polisïau Gwledig
Nid ydym yn meddwl y bydd effeithiau'r ddarpariaeth hon yn wahanol iawn mewn ardaloedd gwledig.

# 9. Asesu Cystadleuaeth

9.1 Mae profion effaith penodol ar gyfer asesu cystadleuaeth, a phrawf effaith ar gwmnïau bach, wedi eu cynnal ar gyfer elfennau bagiau siopa untro, targedau gwastraff a Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle y Mesur arfaethedig. Mae canlyniadau'r rhain wedi eu nodi yn Adran 8 y Memorandwm hwn. Ni fydd y Mesur arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth ar gyfer busnesau, elusennau, llywodraeth leol na'r sector gwirfoddol. Bydd y profion hyn yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl reoliadau a fydd yn cyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiad ar ddefnyddio safleoedd tirlenwi, gan ddefnyddio'r darpariaethau sydd yn y Mesur arfaethedig.

# 10. Adolygu ar ôl gweithredu

**Bagiau Siopa Untro**

10.1 Bydd rheoliadau a wneir i godi isafswm tâl am fagiau siopa untro o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn galluogi awdurdodau lleol, a fydd yn gyfrifol am orfodi'r gofynion mewn perthynas â'r tâl, i osod sancsiynau sifil am dorri'r rheoliadau. Bydd Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y gweithredi y darpariaethau hyn. Mae'n rhaid dechrau adolygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r darpariaethau fod mewn grym am 3 blynedd, a byddai'n briodol achub ar y cyfle i adolygu'r polisi cyfan ar gyfer codi tâl am fagiau plastig untro ar yr un pryd. Byddai'r adolygiad yn cwmpasu'r cytundeb gwirfoddol, neu'r ddarpariaeth yn y Mesur, pe bai rheoliadau wedi'u gwneud o dan y Mesur.

**Targedau gwastraff**

10.2 Caiff y cynnydd gyferbyn â'r Mesur ei fonitro drwy'r drefn adrodd ar sail y system WasteDataFlow, sef y gronfa ddata genedlaethol i awdurdodau lleol adrodd am ddata gwastraff trefol i Lywodraeth y DU. Bydd perfformiad yr awdurdodau lleol yn cael ei fonitro hefyd mewn adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, a lofnodir ymaith gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd unrhyw awdurdod lleol yn methu â chyrraedd targed, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fydd penderfynu a ddylid ei gosbi.

**Tirlenwi**

10.3 Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwahardd neu gyfyngu ar ollwng mathau penodedig o wastraff ar safleoedd tirlenwi yn bwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â gwaharddiad neu gyfyngiad o'r fath. Caiff y trefniadau monitro ac adolygu eu hystyried yn llawn os cyflwynir unrhyw waharddiad neu gyfyngiad drwy'r rheoliadau.

**Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

10.4 Caiff y trefniadau monitro a datblygu eu hystyried yn fanylach yn y dadansoddiad cost a budd / yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae'n debygol y datblygir mecanwaith i gynnal adolygiadau, o fewn ysbeidiau penodedig, o'r modd y gweithredir y rheoliadau, er mwyn monitro eu heffeithiolrwydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r cynllun ffioedd a chodi tâl, os caiff ei roi ar waith, a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau y caiff unrhyw ffioedd a chodi tâl eu gosod yn unol â chwyddiant.

# Atodiad 1

# Nodiadau Esboniadol

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) 2010 fel y'i cyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Chwefror 2010.

2. Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu paratoi er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur drafft nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol, ni roddir unrhyw esboniad pellach na sylw pellach.

4. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch—
   - pen taith enillion o daliadau a godir am fagiau siopa untro;
   - y targedau sydd i'w cyrraedd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gwastraff;
   - gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng gwastraff ar safle tirlenwi;
   - cynlluniau rheoli gwastraff safle i weithiau sy'n cynnwys adeiladu neu ddymchwel.

5. Ceir cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar y pwnc hwn ym Materion 6.1, 6.3 a 6.4 sydd wedi eu cynnwys ym Maes 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ychwanegwyd y Materion hyn at Atodlen 5 yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010 ac maent yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth ynghylch—
   - atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff, a
   - diogelu'r amgylchedd, o ran llygredd a niwsansau, yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau, nad yw'r un ohonynt yn gwahardd unrhyw ddarpariaeth a wneir yn y Mesur hwn rhag bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**BAGIAU SIOPA UNTRO**

**Adran 1 – Y taliadau a godir am fagiau siopa untro: pen taith yr enillion**

6. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ("Deddf 2008"). Mae'r Atodlen hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch y broses o godi tâl

gan werthwyr nwyddau am gyflenwi bagiau siopa untro. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu i reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i werthwyr godi tâl ddod i rym yn 2011.

7. Nid oedd yr Atodlen yn cynnwys darpariaeth benodol, adeg ei deddfu, a oedd yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau ar werthwyr nwyddau, nac unrhyw un arall, mewn cysylltiad â phen taith yr enillion o'r taliadau a osodir o dan reoliadau. Mae'r diwygiad i Atodlen 6 gan adran 1(2) o'r Mesur hwn yn sicrhau hynny drwy fewnosod paragraff 4A newydd a pharagraff 4B newydd ar ôl paragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008.

8. Diben ac effaith y paragraff 4A newydd yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau i ddefnyddio enillion net y tâl at ddibenion a bennir yn y rheoliadau. Mae effaith wedi ei rhoi i hyn yn bennaf drwy is-baragraff (2) o baragraff 4A sy'n darparu y gall y ddarpariaeth honno gael ei gwneud drwy reoliadau o dan yr Atodlen. Mae "enillion net y tâl" i'w canfod drwy gyfeirio at ddiffiniadau ym mharagraff 7(4) o Atodlen 6 a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bwerau yn y paragraff hwnnw.

9. Diben is-baragraff (1) yw egluro ar wyneb Deddf 2008 (sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon) mai dim ond i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru y mae'r paragraff yn gymwys.

10. Mae is-baragraff (3) yn gosod rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-baragraff (2). Gallai rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr ddefnyddio enillion net y tâl at ddibenion a bennir yn y rheoliadau (is-baragraff (3)(a)). Gallent ddarparu hefyd i unrhyw ddyletswydd o'r fath gael ei chyflawni, pan fo enillion net y gwerthwr o'r tâl yn cael eu derbyn gan bersonau a bennir mewn rheoliadau (is-baragraff (3)(b)). Gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ddefnyddio'r enillion at un neu fwy o ddibenion penodedig (is-baragraff (3)(d)). Mae is-baragraff (3)(c) yn darparu y gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau y mae enillion net y tâl i'w rhoi gan werthwyr i'r personau penodedig hynny. Gallai'r darpariaethau hynny gynnwys hefyd drefniadau gwerthwr ar gyfer defnyddio'r tâl (is-baragraff (3)(7)).

11. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau ynghylch adennill yr enillion net o dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys defnyddio symiau a adenillir (is-baragraff (3)(e) ac (f)). Gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Gweinidog Cymru roi canllawiau ynghylch cydymffurfio â'r rheoliadau (is-baragraff 3(g)).

.

12. Mae is-baragraffau (4) a (5) yn ymwneud â'r dibenion y dylid defnyddio enillion net y tâl ar eu cyfer. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yn y maes hwn. Dyma hwy: (a) atal neu leihau gwastraff; (b) casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff; (c)

diogelu neu wella'r amgylchedd mewn perthynas â llygredd neu niwsansau; a (d) gweithgareddau addysgol neu weithgareddau hamdden i blant neu bobl ifanc sy'n ymwneud ag (a) i (c). Ni chaiff y dibenion fod yn rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio ym maes trafnidiaeth na defnyddio ynni yn y maes hwnnw.

13. Gall y rheoliadau, o dan amgylchiadau penodol, fod yn gymwys i bersonau nad ydynt yn werthwyr (is-baragraff (3)(6)).

14. Mae paragraff 4B yn diffinio nifer o dermau a ddefnyddir ym mharagraff 4A.

15. Caiff diwygiadau pellach i Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 eu gwneud gan adran 1(3) ac 1(4) o'r Mesur. Mae adran 1(3) yn mewnosod paragraff 7(3A) newydd yn yr Atodlen. Mae paragraff 7 yn ymwneud â chadw cofnodion a chyhoeddi cofnodion. Effaith paragraff 7(3A) yw y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr Atodlen ei gwneud yn ofynnol hefyd i gyhoeddi neu gyflenwi cofnodion neu wybodaeth ynglŷn â'r swm a gafwyd gan berson penodedig oddi wrth werthwr (gweler paragraff 10 uchod).

16. Mae adran 1(4) yn mewnosod paragraff 8(2A) newydd yn yr Atodlen. Mae paragraff 8 yn ymwneud â gorfodi. Effaith paragraff 8(2A) yw galluogi Gweinidogion Cymru i roi, mewn rheoliadau, bwerau i weinyddydd (h.y. y person a fydd yn gweinyddu ac yn gorfodi'r rheoliadau a wneir o dan yr Atodlen) i holi'r rhai y mae gan y gweinyddydd sail resymol dros gredu eu bod wedi cael unrhyw enillion net o'r tâl.

### Adran 2 – Rheoliadau: y weithdrefn

17. Mae'r adran hon yn diwygio adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae adran 77 yn cyflwyno Atodlen 6 ac yn cynnwys darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w defnyddio pan fo rheoliadau'n cael eu gwneud o dan yr Atodlen. Mae adran 2 yn mewnosod isadran 4(aa) newydd yn adran 77 a'i effaith yw bod yn rhaid i'r set gyntaf o reoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 4A o Atodlen 6 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## TARGEDAU GWASTRAFF

### Adran 3 – Targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio

18. Mae adran 3 yn gosod targedau ar gyfer awdurdodau lleol o ran ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio gwastraff trefol ac yn gosod atebolrwydd i dalu cosb ariannol ar awdurdodau nad ydynt yn cyrraedd y targedau. Mae'r awdurdodau lleol y cyfeirir atynt yn yr

adran hon yn gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (gweler y diffiniadau yn adran 15).

19. Mae isadran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod o leiaf y maint targed o'u gwastraff trefol ym mhob blwyddyn ariannol darged yn cael ei adfer (drwy weithrediadau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio neu gompostio). Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyrraedd y maint targed ym mhob blwyddyn ariannol ddilynol hyd nes y sefydlir maint targed newydd ar gyfer blwyddyn ariannol darged. Mae'r meintiau targed ar gyfer pob blwyddyn darged wedi eu nodi mewn tabl yn isadran (3). Mae isadran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r tabl hwn drwy orchymyn. Mae unrhyw orchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 18(3)).

20. At ddibenion y targed, mae "compostio" yn cynnwys unrhyw ffurf arall ar drawsnewid drwy brosesau biolegol (isadran (5)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ychwanegol hefyd drwy orchymyn i ganfod a yw gwastraff yn cael ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio, neu ei gompostio at ddibenion y targedau adfer gwastraff. Mae'r gorchmynion hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 18(3)).

21. Os na fydd awdurdod lleol yn cyrraedd targed ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio, bydd atebolrwydd i dalu cosb yn codi o dan isadran (7). Mae cosbau i'w talu i Weinidogion Cymru. Gwneir darpariaeth ychwanegol am gosbau yn adran 6 (gweler y nodiadau esboniadol perthnasol isod).

22. Mae ystyr gwastraff trefol awdurdod lleol o flwyddyn ariannol darged at ddibenion y targedau wedi ei bennu yn isadran (8). Maint cyfan y canlynol yn ôl eu pwysau ydyw-
    - yr holl wastraff y mae'r awdurdod yn ei gasglu yn y flwyddyn honno yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod casglu gwastraff o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990") (mae hynny'n cynnwys gwastraff cartref; gwastraff masnachol o fangre pan fo meddiannydd y fangre honno wedi gofyn iddo gael ei gasglu; a gwastraff diwydiannol o fangre pan fo meddiannydd y fangre wedi gofyn iddo gael ei gasglu gan yr awdurdod a bod yr awdurdod yn fodlon ei gasglu);
    - yr holl wastraff sydd wedi ei ollwng i ofal yr awdurdod yn y mannau y mae'n eu darparu at y diben hwnnw yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gwaredu gwastraff o dan isadrannau (1)(b) a (3) o adran 51 (rhaid darparu'r mannau hyn er mwyn i bersonau sy'n preswylio yn ei ardal ollwng eu gwastraff cartref a chaniateir i'r awdurdod drefnu iddynt fod ar gael i bersonau eraill ollwng gwastraff cartref neu wastraff arall a reolir); ac

- unrhyw wastraff arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn (mae'r gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol (gweler adran 18(3)).

**Adran 4 – Rheoliadau i osod targedau gwastraff**

23. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu targedau gwastraff eraill, yn ychwanegol at y rhai a osodir o dan adran 3, sy'n ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu dangosyddion i fesur perfformiad awdurdod lleol mewn perthynas â'r targedau hyn ac i osod cosb ariannol ar awdurdodau lleol os na chyrhaeddir y targedau hyn.

24. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 18(3)).

**Adran 5 – Monitro ac archwilio cydymffurfedd â thargedau**

25. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch monitro ac archwilio cydymffurfedd mewn perthynas â thargedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3 neu dargedau gwastraff eraill o dan adran 4. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—

    - ar gyfer y dull o asesu cydymffurfedd â thargedau;
    - ynghylch trefniadau ar gyfer monitro ac archwilio;
    - rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu i'r rhai sy'n archwilio cydymffurfedd;
    - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofnodion a darparu gwybodaeth;
    - ynghylch cyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â thargedau; a
    - gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os byddai'n methu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn y rheoliadau

26. Mae rheoliadau o dan yr adran hon sy'n gosod atebolrwydd i dalu cosb yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae pob rheoliad arall o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol (onid ydynt wedi eu cynnwys mewn offeryn sy'n cynnwys rheoliadau sy'n gosod atebolrwydd i dalu cosb) (gweler adran 18(3)).

**Adran 6 – Rheoliadau am gosbau**

27. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am gosbau y gall awdurdodau lleol fod yn atebol i'w talu—
    - am fethu â chyrraedd y targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a osodir o dan adran 3;
    - am fethu â chyrraedd targedau gwastraff o dan adran 4, neu

- am dorri rheoliadau o dan adran 5 sy'n ymwneud â monitro ac archwilio cydymffurfedd.

28. Caiff y rheoliadau o dan adran 6 wneud darpariaeth ar gyfer symiau'r gosb sydd i'w thynnu neu reolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny; pryd y mae taliadau i'w talu; unrhyw log ar gosbau sydd heb eu talu; adennill, gwrth-hawlio neu sicrhau symiau sydd heb eu talu o ran cosbau a llog; ac ynghylch unrhyw hepgoriad cosbau.

29. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 7 – Ymgynghori**

30. Mae isadran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol cyn gwneud gorchmynion neu reoliadau o dan adran 3 neu reoliadau o dan adrannau 4, 5 neu 6.

31. Mae isadran (2) yn darparu, os bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni unrhyw ymgynghoriad at ddibenion isadran (1) cyn i'r Mesur gael ei basio, fod yr ymgynghoriad hwnnw'n cael effaith fel petai wedi ei wneud ar ôl i'r Mesur gael ei basio.

**Adran 8 – Canllawiau**

32. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan adrannau 3 i 6 o'r Mesur.

**TIRLENWI**

**Adran 9 – Rheoliadau yn gwahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi**

33. Mae isadran (1) yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer drwy reoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng mathau penodedig o wastraff ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Ystyr "pennu" yw pennu mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn rheoliadau o'r fath (adran 15).

34. Mae'r weithred o ollwng gwastraff ar safle tirlenwi yn cael ei reoleiddio (yn rhannol) ar hyn o bryd gan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 (OS 2007/3538). Mae'r Rheoliadau hynny wedi eu gwneud o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Diben adran 2 o Ddeddf 1999 (ymhlith pethau eraill) yw rheoleiddio gweithgareddau a allai achosi unrhyw lygredd amgylcheddol. Mae adran 2 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â

Chymru[36]. Diben adran 9 o'r Mesur hwn yw rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng gwastraff ar safle tirlenwi p'un a fyddai gollwng unrhyw fath penodol o wastraff o dan unrhyw amgylchiadau penodol yn gallu achosi llygredd amgylcheddol ai peidio.

35. Mae isadran (2) yn pennu y caiff y rheoliadau ddiwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 sy'n ymwneud â gweithredu safle tirlenwi. Bydd hyn yn caniatáu i ddarpariaeth o dan adran 9 o'r Mesur hwn gael ei hymgorffori yn y drefn bresennol ar gyfer caniatáu amgylcheddol. Mae'r isadran yn darparu hefyd y caiff rheoliadau (ymhlith pethau eraill) ddarparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau; darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny; a darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

36. Mae pŵer Gweinidogion Cymru i greu tramgwyddau troseddol o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r terfynau a osodir gan baragraff 2 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni fyddent yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i greu unrhyw dramgwydd troseddol y gellid ei gosbi—
    - ar gollfarn ddiannod, â charchariad am y tymor rhagnodedig neu â dirwy sy'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd), neu
    - ar gollfarn ar dditiad, â chyfnod o garchariad sy'n hwy na dwy flynedd.

37. 51 o wythnosau yw'r tymor rhagnodedig yn achos tramgwydd diannod a 12 mis pan fo'r tramgwydd yn dramgwydd neillffordd. Ond cyn dyfodiad i rym adrannau 154(1) a 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, nid oes unrhyw dymor yn y carchar sy'n hwy na chwe mis i'w osod ar gollfarn o dramgwydd diannod a grëir o dan y rheoliadau neu ar gollfarn ddiannod o'r cyfryw dramgwydd neillffordd.[37].

38. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Adran 10 – Sancsiynau sifil

39. Mae'r adran hon yn pennu bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 9 yn cynnwys pŵer i ddarparu ar gyfer sancsiynau sifil o ran tramgwyddau a grëir o dan adran 9.

---

[36] Ac eithrio i'r graddau y mae'r swyddogaethau'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chorff trawsffiniol ond nad ydynt, o ran eu natur, yn swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas â Chymru – mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy'n gydamserol â'r Ysgrifennydd Gwladol (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (OS 2005/1958), erthygl 3).

[37] Paragraff 52, Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

40. Mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau, mewn perthynas ag awdurdod gorfodi, y gellid ei gwneud drwy orchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ("RESA") os oedd yr awdurdod gorfodi, at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno yn rheoleiddiwr, a bod y tramgwydd yn dramgwydd perthnasol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw.

41. Mae'r ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy orchymyn o dan Ran 3 o RESA yn cynnwys—

- darpariaeth i roi i reoleiddiwr bŵer drwy hysbysiad i osod cosb ariannol sefydlog ar berson mewn perthynas â thramgwydd (gweler adran 39 o RESA);

- darpariaeth i roi i reoleiddiwr bŵer drwy hysbysiad i osod un neu fwy o ofynion disgresiynol (adran 42 o RESA) (mae gofyniad disgresiynol yn golygu gofyniad i dalu cosb ariannol, y penderfynir ei swm gan y rheoleiddiwr; gofyniad i gymryd camau a bennir gan y rheoleiddiwr i sicrhau na fyddai'r tramgwydd yn parhau nac yn ailddigwydd; neu ofyniad i gymryd camau a bennir gan y rheoleiddiwr i sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei hadfer i'r hyn a fyddai wedi bod pe na bai'r tramgwydd wedi ei gyflawni);

- darpariaeth i roi i reoleiddiwr bŵer i ddyroddi hysbysiad stop, sy'n hysbysiad sy'n gwahardd person rhag cyflawni gweithgaredd hyd nes y bydd y camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd (adran 46 o RESA);
- darpariaeth i alluogi rheoleiddiwr i dderbyn ymrwymiad gorfodi gan berson mewn achos lle mae gan y rheoleiddiwr sail resymol dros amau bod y person wedi cyflawni tramgwydd perthnasol (adran 50 o RESA) (mae ymrwymiadau gorfodi yn ymrwymiadau i gymryd camau a bennwyd yn yr ymrwymiad, a'u heffaith, os cânt eu cyflawni, yw atal y person hwnnw rhag cael ei gollfarnu o dramgwydd neu fod yn destun cosbau ariannol sefydlog neu ofynion disgresiynol a osodir arno).

42. Mae adrannau 39(4) a 42(6) o RESA wedi eu datgymhwyso gan isadran (3) mewn perthynas â'r rheoliadau a wneir o dan adran 9(1) o'r Mesur.

43. Effaith adran 39(4) o RESA yw dodi terfyn ar swm cosb ariannol sefydlog y caniateir ei osod. Pan fo darpariaeth wedi ei gwneud i roi pŵer i reoleiddiwr osod cosb ariannol sefydlog mewn perthynas â thramgwydd y gellir ei roi ar brawf yn ddiannod (p'un a ellir ei roi ar brawf drwy dditiad hefyd ai peidio) a'i gosbi ar gollfarniad diannod â dirwy (p'un a ellir ei gosbi hefyd drwy garchariad ai peidio), ni chaniateir i swm y gosb ariannol sefydlog fod yn fwy nag uchafswm y ddirwy honno. Mae adran 42(6) yn gweithredu yn yr un ffordd ar gyfer

cosb ariannol a osodir o dan ofyniad disgresiynol (y cyfeirir ati yn RESA fel cosb ariannol amrywiadwy ("*variable monetary penalty*")).

44. Mae adrannau 39(4) a 42(6) wedi eu datgymhwyso yn achos darpariaeth a wneir o dan adran 9(1) o'r Mesur yn rhinwedd adran 10.

45. Mae isadran (3)(b) hefyd yn addasu isadran 49(1) o RESA. Mae adran 49 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i orfodi hysbysiadau stop drwy greu tramgwyddau troseddol. Mae'r ddirwy uchaf ar gollfarn ddiannod a bennir yn adran 49 yn fwy na'r swm y gellir ei osod mewn perthynas â thramgwydd a grëwyd gan neu o dan Fesur Cynulliad. Mae darpariaethau isadran (3)(b) yn ei gwneud yn glir bod y cyfeiriad yn adran 49(1)(a) at "£20,000" i'w ddarllen fel cyfeiriad at "level 5 on the standard scale".

46. Mae isadran (4) yn cymhwyso adrannau 63 i 69 o RESA i reoliadau a wneir o dan adran 9 o'r Mesur yn yr un modd ag y byddent yn gymwys i orchymyn a wneid o dan Ran 3 o RESA.

47. Mae adran 63 o RESA yn darparu, pan fo pŵer yn cael ei roi i reoleiddiwr i osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thramgwydd, rhaid i'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer sicrhau'r canlyniadau canlynol—

- bod y rheoleiddiwr yn cyhoeddi canllawiau am ei ddefnydd o'r sancsiwn;
- bod y canllawiau sy'n ymwneud â chosbau ariannol sefydlog a gofynion disgresiynol yn cynnwys gwybodaeth benodedig, megis o dan ba amgylchiadau y caniateir, neu na chaniateir, i gosbau gael eu gosod, sut y caniateir i atebolrwydd gael ei ryddhau a hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau i apelio;
- bod y canllawiau yn cael eu diwygio pan fo'n briodol;
- bod y rheoleiddiwr yn ymgynghori â'r personau y mae'r darpariaethau yn eu pennu cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau;
- bod y rheoleiddiwr yn rhoi sylw i'r canllawiau wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

48. Pan fo pŵer yn cael ei roi i reoleiddiwr i osod sancsiwn sifil, rhaid i'r rheoleiddiwr hefyd—

- paratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch sut y gorfodir y gyfraith ynglŷn â'r tramgwydd (adran 64 o RESA);
- cyhoeddi adroddiadau ynghylch yr achosion lle mae'r sancsiwn sifil wedi ei osod (adran 65 o RESA).

49. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n rhoi pŵer i reoleiddiwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thramgwydd oni fydd yr awdurdod wedi ei fodloni y bydd y rheoleiddiwr yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion canlynol (y cyfeirir atynt yn RESA fel yr egwyddorion rheoleiddiol ("*the regulatory principles*")) wrth arfer y pŵer hwnnw—

- y dylai gweithgareddau rheoleiddiol gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n dryloyw, atebol, cymesur a chyson; ac

- y dylai gweithgareddau rheoleiddiol gael eu targedu'n unig ar achosion lle mae angen gweithredu.

50. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y mae darpariaeth i osod sancsiynau sifil (adran 67 o RESA) yn gweithredu a chânt atal dros dro bŵer rheoleiddiwr i osod sancsiynau sifil (adran 68). Mae adran 69 o RESA yn gwneud darpariaeth am dalu derbyniadau o sancsiynau sifil i Gronfa Gyfunol Cymru pan fo gan y rheoleiddiwr swyddogaethau mewn perthynas â Chymru'n unig, ac i Gronfa Gyfunol y DU pan fo gan y rheoleiddiwr swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a rhan arall o'r DU.

**Adran 11 – Ymgynghori**

51. Mae adran 11(1) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 9, ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd; awdurdodau lleol; cynrychiolwyr y personau hynny yr effeithir arnynt gan y rheoliadau; a phersonau eraill yn ôl yr hyn a fernir ei fod yn briodol.

52. Effaith isadran (2) yw caniatáu i ymgynghori a wneir cyn pasio'r Mesur gyfrif at ddibenion isadran (1).

**CYNLLUNIAU RHEOLI GWASTRAFF SAFLE**

53. Mae adrannau 12 i 14 o'r Mesur yn ailddatgan, gydag addasiadau bychan, adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Mae'r prif addasiad wedi ei gynnwys yn adran 12 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am gynlluniau codi ffioedd a thaliadau.

**Adran 12 – Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle**

54. Diben ac effaith adran 12(1) yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig wneud cynlluniau sy'n nodi sut y byddant yn rheoli ac yn gwaredu gwastraff a grëir wrth wneud gweithiau penodedig sy'n cynnwys adeiladu a dymchwel (isadran (1)(a)). Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r rhai y mae gofyn iddynt wneud cynlluniau gydymffurfio â hwy (isadran (1)(b)).

55. Mae isadran (2) yn gosod rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy reoliadau o dan isadran (1). Mae'r rhain yn cynnwys o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid paratoi'r cynlluniau (isadran (2) (a)); cynnwys cynlluniau (isadran (2)(b)); darpariaethau am awdurdodau gorfodi a'u swyddogaethau (isadran (2)(c)) ac am gadw cynlluniau a'u dangos i awdurdodau gorfodi (isadran (2)(d)). Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru, neu awdurdod gorfodi, sefydlu cynllun codi ffioedd a thaliadau i alluogi costau rhesymol a dynnir gan awdurdod gorfodi wrth gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan y rheoliadau i gael eu hadennill (isadran (2)(e)).

56. Caniateir i'r gweithiau yr effeithir arnynt gan y rheoliadau gael eu disgrifio, yn rhinwedd isadran (3), drwy gyfeirio at gost neu gost debygol y gweithiau hynny.

57. Darpariaeth arbed yw isadran (4). Bydd yn sicrhau, os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau am gynlluniau rheoli gwastraff safle o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 cyn i'r Mesur ddod i rym, y bydd effaith i'r rheoliadau hynny fel petaent wedi eu gwneud o dan y ddarpariaeth yn y Mesur hwn.

**Adran 13 – Tramgwyddau a chosbau**

58. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â thramgwyddau a chosbau am dorri'r gofynion a sefydlwyd mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 12. Gan fod y ddarpariaeth hon yn ailddeddfu darpariaeth yn adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, nid yw'r terfynau a osodwyd gan y cyfyngiad cyffredinol ym mharagraff 2 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae paragraff 9 o Ran 3 o Atodlen 5 yn darparu nad yw'r cyfyngiadau cyffredinol yn Rhan 2 yn atal darpariaeth gan Fesur Cynulliad rhag ailddatgan y gyfraith.

**Adran 14 – Canllawiau**

59. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gorfodi roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynlluniau rheoli gwastraff safle.

**CYFFREDINOL**

**Adran 15 – Dehongli**

60. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau at ddiben y Mesur.

**Atodlen 16 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

61. Mae'r adran hon yn cyflwyno mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sydd wedi eu nodi mewn Atodlen i'r Mesur.

**Adran 17 – Gorchmynion a rheoliadau**

62. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol am reoliadau a gorchmynion a wneir o dan y Mesur hwn.

63. Mae isadran (1) yn darparu, pan fo pŵer wedi ei roi i Weinidogion Cymru gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, eu bod i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae isadran (2) yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud rheoliadau neu orchmynion, a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn, yn cynnwys pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthiadau gwahanol ar achosion, personau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o berson, a dibenion gwahanol. Hefyd, mae'n galluogi gorchmynion neu reoliadau i beri i ddarpariaethau gwahanol fod yn gymwys ar adegau gwahanol ac i wneud darpariaethau yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru hefyd i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

64. O dan is-adran (3), caniateir i ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy orchymyn o dan y Mesur hwn gael ei gwneud drwy reoliadau. O dan is-adran (4), caniateir i ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan y Mesur hwn gael ei gwneud drwy orchymyn. Mae hyn yn galluogi gorchmynion gwahanol neu reoliadau gwahanol i gael eu gwneud gan yr un offeryn.

**Adran 18 – Gorchmynion a rheoliadau: gweithdrefnau**

65. Mae is-adran (1) yn darparu y bydd unrhyw offeryn statudol a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw hyn yn gymwys i orchmynion sy'n cychwyn darpariaethau penodol yn y Mesur o dan adran 19(1). Nid yw'r gorchmynion cychwyn hyn yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad. Mae is-adran (2) yn darparu hefyd nad yw'r weithdrefn negyddol yn gymwys i'r gorchmynion a'r rheoliadau y mae is-adran (3) yn gymwys iddynt. Mae'r gorchmynion a'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

66. Mae is-adran (3) yn pennu'r gorchmynion a'r rheoliadau y mae angen eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a'u cymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (y weithdrefn gadarnhaol). Mae hyn yn gymwys i orchmynion a wneir o dan adran 3(4) – gorchmynion sy'n diwygio'r tabl o dargedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a nodir yn

adran 3(3). Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys hefyd i reoliadau a wneir o dan yr adrannau canlynol: adran 4 (rheoliadau i osod targedau gwastraff); adran 5(1)(g) (rheoliadau sy'n gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os yw'n methu â chydymffurfio â rheoliadau sy'n monitro ac yn archwilio cydymffurfedd â thargedau); adran 6 (rheoliadau ynghylch cosbau); ac adran 9 (rheoliadau sy'n gwahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi).

67. Mae isadran (4) yn darparu, pan fo rheoliadau yn gwneud darpariaeth y caniateir ei gwneud drwy orchymyn, y bydd unrhyw weithdrefn a fyddai'n gymwys i'r gorchymyn o dan yr adran hon yn gymwys i'r rheoliadau. Yn yr un modd, o dan isadran (5), pan fo gorchymyn yn gwneud darpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau, bydd unrhyw weithdrefn a fyddai'n gymwys i'r rheoliadau o dan yr adran hon yn gymwys i'r gorchymyn.

**Adran 19 – Cychwyn**

68. Mae isadran (1) yn nodi y daw adran 3 i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

69. Mae isadran (2) yn darparu y daw gweddill y darpariaethau i rym ar ddiwedd cyfnod o ddeufis sy'n dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

**Adran 20 – enw byr**

70. Mae'r adran hon yn darparu enw byr y Mesur.

**Yr Atodlen**

71. Mae'r Atodlen yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p.16) a Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.